Mae'r FMU bob amser yn hapus i siarad â gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin ag achosion o briodas dan orfod ar unrhyw adeg mewn achos. Gall gynnig rhagor o wybodaeth a chyngor ar yr ystod eang o offer sydd ar gael i fynd i'r afael â phriodasau dan orfod, gan gynnwys rhwymedïau cyfreithiol, cymorth tramor, a sut i fynd at ddioddefwyr. Gall staff FMU hefyd siarad mewn cynadleddau neu gynnal gweithdai hyfforddi ar gyfer timau o ymarferwyr rheng flaen. Gellir dod o hyd i adnoddau, gan gynnwys taflenni y gellir eu lawrlwytho mewn amrywiaeth o ieithoedd, a phosteri, yn: www.gov.uk/forced-marriage.

Ffoniwch: 020 7008 0151 (Dydd Llun-Dydd Gwener: 09.00-17.00 [Amser y DU])

Ffoniwch o dramor: 0044 20 7008 0151

E-bost: fmufcdo.gov.uk

Gwe: www.gov.uk/forced-marriage

Cyfeiriad: Forced Marriage Unit,
Foreign, Commonwealth, & Development Office,
King Charles Street,
London, SW1A 2AH

Os oes angen i chi gysylltu â'r Uned y tu allan i'r oriau hyn, i ofyn am gymorth consylaidd brys ynghylch gwladolyn Prydeinig, ffoniwch y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ar 020 7008 5000.

3. Camau Cyffredinol I'w Cymryd Ymhob

Achos

Gall achosion priodas dan orfod gynnwys amrywiaeth o faterion cymhleth a sensitif y dylai arbenigwr amddiffyn plant neu oedolion ymdrin â hwy, a ddylai, lle bo modd, feddu ar arbenigedd ychwanegol ym maes priodas dan orfod hefyd. Mae canllawiau statudol ar briodas dan orfod (gweler ychydig cyn Pennod 1) yn nodi y dylai fod gan bob sefydliad “berson arweiniol â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu plant ac am amddiffyn oedolion ag anghenion gofal a chymorth – lle bo modd, yr un person ddylai arwain ar briodas dan orfod”.²⁶ Lle bo modd, dylai staff rheng flaen gysylltu â'r arbenigwr hwn ar unwaith. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd angen iddynt gasglu rhywfaint o wybodaeth gan y person i sefydlu'r ffeithiau eu hunain er mwyn cynorthwyo'r atgyfeiriad.

Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda ddioddefwyr a amheuir neu wirioneddol priodas dan orfod a cham-drin ar sail 'anrhydedd' fod yn ymwybodol o'r rheol “un cyfle”. Hynny yw, efallai mai dim ond un cyfle y byddant yn ei gael i siarad â dioddefwr neu ddioddefwr posibl ac efallai mai dim ond un cyfle sydd ganddynt i achub bywyd. O ganlyniad, mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio o fewn asiantaethau statudol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau pan ydynt yn wynebu achosion o briodas dan orfod. Os caniateir i'r dioddefwr adael heb i'r cymorth a'r cyngor priodol gael eu cynnig, gallai'r un cyfle hwnnw gael ei wastraffu.

Y camau cyntaf ym mhob achos:

- Lle bynnag y bo modd, gweld y dioddefwr/dioddefwr posibl ar unwaith mewn man diogel a phreifat lle na ellir clywed y sgwrs.
- Eu gweld ar eu pen eu hunain – hyd yn oed os ydynt yn mynychu gydag eraill.
- Eglurwch yr holl opsiynau iddynt.
- Cydnabod a pharchu eu dymuniadau.
- Gwneud asesiad risg – mae'n well defnyddio offeryn yn unol â'ch asiantaeth benodol.
- Cysylltwch ag arbenigwr hyfforddedig (arbenigwr priodas dan orfod) cyn gynted â phosibl.
- Os yw'r person dan 18 oed, neu'n 18 oed ac iau yng Nghymru, atgyfeiriwch ef i'r person dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu plant a rhoi gweithdrefnau diogelu lleol ar waith. Yng Nghymru, os daw gwybodaeth i law bod plentyn mewn perygl, rhaid adrodd am hyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhagor o wybodaeth am adrodd am bryder yng

²⁶ Mewn ysgolion, hwn fyddai'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant.

Nghymru wedi'i nodi yn Gweithdrefnau Diogelu Cymru: [Gofal cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](http://Gofal.cymdeithasol.Cymru)

- Os yw'r person yn oedolyn ag anghenion gofal a chymorth, atgyfeiriwch ef i'r person dynodedig sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion agored i niwed a rhoi gweithdrefnau diogelu lleol ar waith. Yng Nghymru, os daw gwybodaeth i law bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl, rhaid adrodd am hyn o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhagor o wybodaeth am adrodd am bryder yng Nghymru wedi'i nodi yn y Gweithdrefnau Diogelu Cymru: [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](http://Gofal.Cymdeithasol.Cymru)
- Os bydd oedolyn yn datgelu i weithiwr proffesiynol y GIG ei fod mewn sefyllfa o briodas dan orfod, ac yn datgan nad yw am i unrhyw gamau pellach gael eu cymryd yn ei gylch, yna, ar yr amod bod ganddynt y galluedd i wneud y cais hwn, byddai angen parchu eu hawliau fel claf a chynnal cyfrinachedd claf, heb unrhyw adroddiadau nac atgyfeiriadau. Mae hyn yn wir am dreisio a cham-drin domestig hefyd.
- Rhoi sicrwydd i'r dioddefwr am gyfrinachedd lle bo'n briodol h.y. na fydd ymarferwyr yn hysbysu eu teulu.
- Sefydlu a chytuno ar ddull effeithiol o gysylltu â'r dioddefwr yn gynnil yn y dyfodol, gan ddefnyddio gair cod o bosibl i gadarnhau hunaniaeth.
- Cael manylion cyswllt llawn y gellir eu hanfon ymlaen at arbenigwr hyfforddedig.
- Lle bo'n briodol, ystyried yr angen am amddiffyniad ar unwaith a lleoli i ffwrdd o'r teulu.

Egwyddorion Allweddol

- **Wrth atgyfeirio achos i asiantaethau eraill, sicrhewch eu bod yn gallu ymdrin â'r achos yn briodol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â sefydliadau sefydledig eraill sy'n gweithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod a gofyn am gyngor a chymorth pellach i'w symud ymlaen.**
- **Gall amgylchiadau fod yn fwy cymhleth os yw'r person yn nodi ei fod yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol, felly atgyfeiriwch i'r sefydliadau priodol.**
- **Dim ond i wladolion Prydeinig, gwladolion deuol nad ydynt mewn gwledydd o'u cenedligrwydd arall y gall Llysgenadaethau ac Uchel Gomisiynau Prydain ddarparu cymorth consylaidd iddynt (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol gan gynnwys priodas dan orfod), neu mewn rhai amgylchiadau gwladolion y Gymanwlad. Ni allant helpu pobl o genedligrwydddd eraill dramor, hyd yn oed os ydynt yn byw yn y DU neu â chysylltiadau agos â'r DU. Mae hyn yn cynnwys pan fydd gwladolyn nad yw'n Brydeinig yn gadael y DU i gael ei orfodi i briodi dramor.**
- **Os oes gennych unrhyw amheuaeth o hyd, ffoniwch yr Uned Priodasau dan Orfod (FMU) am gyngor pellach.**

Arferion Gorau

- Rhowch wybod i'r dioddefwr am ei hawl i geisio cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol.
- Os oes angen, cofnodwch unrhyw anafiadau a threfnwch archwiliad meddygol.
- Darparwch gyngor diogelwch personol.
- Datblygwch a chytuno ar gynllun diogelwch rhag ofn y cânt eu gweld h.y. paratoi reswm arall pam eich bod yn cyfarfod.
- Cadarnhewch a oes hanes teuluol o briodas dan orfod, e.e. ydy brodyr a chwiorydd wedi cael eu gorfodi i briodi yn y gorffennol? Gall dangosyddion eraill hefyd gynnwys cam-drin domestig, hunan-niweidio, anghydfodau teuluol, cyfyngiadau afresymol (e.e. tynnu'n ôl o addysg neu "arestiad tŷ") neu bobl ar goll o fewn y teulu.
- Cynghorwch y dioddefwr i beidio â theithio dramor a/neu drafod yr anawsterau y gallent eu hwynebu.
- Nodwch unrhyw droseddau posibl eraill a allai fod wedi'u cyflawni ac atgyfeirio i'r heddlu os yw'n briodol.
- Darparwch gyngor ar y gwasanaeth neu gefnogaeth bellach y dylent eu disgwyl a chan bwy.
- Sicrhewch fod gan y dioddefwr fanylion cyswllt arbenigwr penodol.
- Cadwch gofnod llawn o'r penderfyniadau a wneir a'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny.
- Rhaid cadw gwybodaeth o ffeiliau achos a ffeiliau cronfa ddata yn ddiogel²⁷ ac yn ddelfrydol dylid ei chyfyngu i aelodau penodol o staff yn unig.
- Atgyfeiriwch y dioddefwr, gyda'i ganiatâd os yw'n 18 oed neu drosodd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol cydnabyddedig eraill sydd â hanes o weithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.

Peidiwch ag:

- **Anfon nhw i ffwrdd.**
 - **Cysylltu ag aelodau o'u teulu neu'r gymuned – oni bai ei fod yn ymwneud â dioddefwr ag anabledd dysgu a bod angen i chi weithio ochr yn ochr â'r teulu i asesu galluedd.**
 - **Rhannu gwybodaeth ag unrhyw un heb ganiatâd penodol y dioddefwr, oni bai ei fod er lles gorau plentyn neu er budd y cyhoedd.**
 - **Torri cyfrinachedd – oni bai bod risg uniongyrchol o niwed difrifol neu fgygythiad i fywyd y dioddefwr, bod y dioddefwr yn blentyn mewn perygl, neu ei fod er budd y cyhoedd.**
 - **Ceisio fod yn gyfryngwr neu annog cyfryngu, cymodi, cyflafareddu neu gwnsela teuluol ar unwaith.**
-

4. Gwybodaeth Angenrheidiol Ar Gyfer Pob

Achos

Yn ddelfrydol, dylai'r holl wybodaeth gael ei chasglu gan arbenigwr wedi'i hyfforddi gan yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd person yn mynd dramor yn fuan a chan ei fod yn argyfwng, efallai y bydd angen i weithiwr addysg neu ofal iechyd proffesiynol gasglu cymaint o wybodaeth â phosibl yn uniongyrchol gan y dioddefwr (gweler Pennod 3 am wybodaeth am y rheol "un cyfle"). Yn yr achosion hyn, dylid trosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a'r Uned Priodasau dan Orfod (FMU). Dylid storio'r holl wybodaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion.

Gallai'r achos gael ei adrodd gan drydydd parti neu'r person dan fygythiad – pwy bynnag sy'n adrodd am yr achos, dylech chi:

- Cael manylion y person sy'n gwneud yr adroddiad, ei fanylion cyswllt, a'i berthynas â'r unigolyn dan fygythiad.
- Cael manylion yr unigolyn dan fygythiad gan gynnwys **y wybodaeth allweddol ddilynol i'w chasglu:**
 - o Dyddiad yr adroddiad
 - o Enw'r person dan fygythiad
 - o Cenedligrwydd
 - o Oed
 - o Dyddiad a man geni
 - o Manylion pasbort
 - o Manylion yr ysgol
 - o Manylion cyflogaeth
 - o Manylion llawn yr honiad
 - o Enw(au) a chyfeiriad(au) rhieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant
 - o Rhif Yswiriant Gwladol
 - o Rhif GIG
 - o Rhif trwydded yrru
- Cael rhestr gan y person sydd dan fygythiad o'r holl ffrindiau a theulu y gellir ymddiried ynddynt a'u manylion cyswllt.
- Sefydlu gair cod i sicrhau eich bod yn siarad â'r person cywir.
- Sefydlu ffordd o gysylltu â nhw'n gynnill yn y dyfodol na fydd yn eu rhoi mewn perygl o niwed.

- Cael unrhyw wybodaeth gefndirol gan gynnwys ysgolion a fynychwyd, cyfranogiad gan ofal cymdeithasol oedolion neu blant, meddygon neu wasanaethau iechyd eraill ac ati.
- Cofnodi manylion am unrhyw fygythiadau, cam-drin neu weithredoedd gelyniaethus eraill yn erbyn y person, p'un a yw'r dioddefwr neu drydydd parti wedi adrodd amdanynt.
- Cael llun diweddar ac unrhyw ddogfennau adnabod eraill. Dogfennwch unrhyw nodweddion gwahaniaethol eraill megis nodau geni a thatŵs ac ati.
- Sefydlu natur a lefel y risg i ddiogelwch y person (e.e. Ydy hi'n feichiog? Oes ganddynt gariad neu gariad cudd? Ydyn nhw'n briod yn gyfrinachol yn barod?).
- Sefydlu a oes unrhyw aelodau eraill o'r teulu mewn perygl o briodas dan orfod neu a oes hanes teuluol o briodas dan orfod a cham-drin.
- Cael unrhyw ddolenni cyfryngau cymdeithasol e.e. Twitter, Facebook, Instagram ac ati

Os yw'r person sydd mewn perygl yn mynd dramor yn fuan:

- Rhaid gofyn am lungopi o'u pasbort er mwyn ei gadw. Lle bo modd, anogwch yr unigolyn i gadw manylion ei rif pasbort, gan gynnwys y lleoliad a'r dyddiad cyhoeddi.
- Casglwch gymaint o wybodaeth â phosibl am y teulu – sicrhewch ei bod yn cael ei chasglu'n gynnil – sydd angen cynnwys:
 - **Enw llawn a dyddiad geni'r person dan fygythiad**
 - **Enw'r tad a/neu'r fam**
 - **Cyfeiriad lle gallent fod yn aros dramor ac enw pennaeth y cartref hwn (os yw'n hysbys)**
 - **Enw'r priod posibl (os yw'n hysbys)**
 - **Dyddiad y briodas arfaethedig (os yw'n hysbys)**
 - **Enw tad y darpar briod (os yw'n hysbys)**
 - **Cyfeiriadau'r teulu estynedig yn y DU a thramor**
- Gwybodaeth y byddent hwy yn unig yn ymwybodol ohoni (os yw'r dioddefwr yn ddinesydd Prydeinig, gallai hyn fod o gymorth i unrhyw wiriad hunaniaeth dilynol rhag ofn i berson arall o'r un oed a rhyw gael ei gynhyrchu gan smalio mai ef/hi ydyw).
- Manylion unrhyw gynlluniau teithio a phobl sy'n debygol o fynd gyda nhw.
- Enwau a chyfeiriadau unrhyw berthnasau agos sy'n aros yn y DU.
- Dulliau diogel o gysylltu â nhw e.e. ffôn symudol.
- Manylion trydydd parti y maent mewn cysylltiad ag ef/hi, rhag ofn i'r person gysylltu ag ef/hi dramor neu ar ôl dychwelyd.
- Amcangyfrif o'r dyddiad dychwelyd. Gofynnwch iddynt gysylltu â chi yn ddi-ffael ar ôl iddynt dychwelyd.
- Datganiad ysgrifenedig gan y person yn egluro ei fod am i'r heddlu, gweithiwr gofal cymdeithasol oedolion neu blant, athro neu drydydd parti arall weithredu ar eu rhan os nad ydynt yn dychwelyd erbyn dyddiad penodol.

Egwyddorion Allweddol:

- Os cysylltir â'r teulu, gallant wadu bod y person yn cael ei orfodi i briodi (er ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd gychwyn ar 27 Chwefror 2023, ni fyddai hyn yn atal eu gweithredoedd rhag bod yn drosedd os mai'r cynnig yw bod y person yn priodi cyn troi'n 18); gallant symud yr unigolyn dan sylw i leoliad arall, neu gallant gyflymu unrhyw drefniadau teithio ac yn y pen draw ddwyn y briodas ymlaen.
- Rhannwch fanylion yr achos, gan gynnwys hanes llawn y teulu, gyda'r FMU. Anogwch y person i gysylltu â'r FMU. Mae FMU yn darparu cyngor a chefnogaeth i unrhyw un sydd wedi neu sydd yn ofni y cânt eu gorfodi i briodi.
- Mae'r Ddeddf Diogelu Data a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (y ddeddfwriaeth diogelu data) yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle gellir darparu data personol i drydydd parti. Mae'r FMU yn cymryd ei gyfrifoldeb am ddiogelu data o ddifrif. Bydd ond yn datgelu gwybodaeth i drydydd parti pan fydd gwneud hynny yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Gallai enghreifftiau lle gall ddarparu gwybodaeth i drydydd parti heb ganiatâd gynnwys y dilynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: i'r heddlu lle mae perygl i fywyd y dioddefwr; neu i wasanaethau cymdeithasol lle mae plentyn neu oedolyn heb alluedd yn dioddef, neu mewn perygl o niwed sylweddol. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei darparu i ffrindiau, teulu neu drydydd parti heb ganiatâd, y tu allan i'r darpariaethau hyn. Mae Hysbysiad Preifatrwydd FMU yn disgrifio sut mae'r uned yn prosesu data personol²⁸.
- Gall y person fod yn wladolyn deuol a bod â dau basbort neu, os yw o dan 18 oed, efallai ei fod wedi'i restru ar basbort tramor ei rieni.
- Gall Llysgenadaethau ac Uchel Gomisiynau Prydain roi cymorth consylaidd i ddinasyddion Prydeinig yn unig neu, mewn rhai amgylchiadau, gwladolion y Gymanwlad. Ni allant helpu pobl o genedligrwyddau eraill dramor, hyd yn oed os ydynt yn byw yn y DU neu â chysylltiadau agos â'r DU. Mae hyn yn cynnwys pan fydd gwladolynnad yw'n Brydeinig yn gadael y DU i gael ei orfodi i briodi dramor.

Lle nad oes modd osgoi teithio dramor, mae angen cymryd y rhagofalon dilynol hefyd:

- Anogwch y dioddefwr i ddarparu manylion cyswllt i'r asiantaeth a'r gweithiwr proffesiynol sy'n trin achos (lle bo'n berthnasol).
- Anogwch y dioddefwr neu'r dioddefwr posibl i gofio rhif llinell gymorth yr FMU (+4420 7008 0151) y cyfeiriad e-bost (fmu@fcdo.gov.uk) ac os yn bosibl, lleoliad a rhif ffôn y Llysgenhadaeth Brydeinig, y Gonswliaeth neu'r Uchel

²⁸ [Hysbysiad preifatrwydd FCDO a'r Swyddfa Gartref: Uned Priodasau dan Orfod \(FMU\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

Gomisiwn Prydeinig agosaf yn y wlad y maent yn mynd iddi. Hysbyswch ddiodefwyr y gallant hefyd gysylltu â'r FCDO trwy ffonio +44 207 008 5000 o unrhyw le yn y byd 24/7.

- Os nad ydynt yn wladolyn Prydeinig, cynghorwch nhw i gysylltu â'r FMU, a all roi manylion cyrff anllywodraethol addas dramor a manylion Llysgenhadaeth eu cenedligrwydd eu hunain.
- Cynghowch eu bod yn cymryd ffôn symudol a fydd yn gweithio dramor ac y gallant ei gadw'n gudd. Os yn bosibl, rhwch rifau brys i'r ffôn hwn.
- Cynghorwch eu bod yn ysgrifennu rhifau argyfwng a'u cadw'n gudd yn eu bagiau.
- Anogwch nhw i roi manylion i chi am ffrind/eiriolwr dibynadwy yn y DU y byddant yn cadw mewn cysylltiad ag ef/hi dramor, a fydd yn gweithredu ar eu rhan, ac y gallwch gysylltu â nhw os na fyddant yn dychwelyd. Sefydlwch gysylltiad â'r ffrind neu'r eiriolwr cyn i'r person dan fygythiad adael a gofyn i'r ffrind neu'r eiriolwr wneud datganiad ysgrifenedig o'u cefnogaeth.
- Cynghorwch nhw i gymryd arian parod brys ar gyfer y gyrchwlad, rhag ofn y bydd problemau'n codi yn y wlad honno, ynghyd â manylion cyswllt rhywun y gallant ymddiried ynddo i'w helpu.
- Canfyddwch a ydynt yn wladolion deul, oherwydd efallai fod ganddynt ddau basbort. Atgoffwch nhw am oblygiadau cenedligrwydd deul (gweler Pennod 2.13).
- Cynghorwch nhw i gysylltu â'r FMU.

5. Arferion Da: Cadw Dioddefwyr yn Ddiogel

Mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gydg dioddefwyr a amheuir neu wirioneddol priodas dan orfod a cham-drin ar sail 'anrhydedd' fod yn ymwybodol o'r rheol "un cyfle". Hynny yw, efallai mai dim ond un cyfle y byddant yn ei gael i siarad â dioddefwr neu ddioddefwr posibl ac efallai mai dim ond un cyfle fydd ganddynt i achub bywyd. O ganlyniad, mae angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio o fewn asiantaethau statudol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau pan fyddant yn wynebu achosion o briodas dan orfod. Os caniateir i'r dioddefwr adael heb i'r cymorth a'r cyngor priodol gael eu cynnig, gallai'r un cyfle hwnnw gael ei wastraffu.

5.1 Dull sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr

- Beth bynnag fo amgylchiadau rhywun, mae ganddynt hawliau y dylid eu parchu bob amser megis eu diogelwch personol a'r hawl i dderbyn gwybodaeth gywir am eu hawliau a'u dewisiadau. Dylai gweithwyr proffesiynol wrando ar y dioddefwr a pharchu ei ddymuniadau pryd bynnag y bo modd.
- Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd rhywun am gymryd camau a all eu rhoi mewn perygl. Ar yr adegau hyn, dylai gweithwyr proffesiynol esbonio'r holl risgiau a mabwysiadu'r rhagofalon angenrheidiol i amddiffyn plant neu oedolion.
- Gall pobl ifanc, yn arbennig y rhai 16 a 17 oed, achosi anawsterau penodol i asiantaethau oherwydd gall fod adegau pan fydd yn briodol defnyddio fframweithiau amddiffyn plant ac oedolion. Er enghraifft, efallai na fydd rhai pobl ifanc 16 a 17 oed yn dymuno mynd i mewn i'r system ofal ond byddai'n well ganddynt gael llety lloches. Beth bynnag yw'r achos, dylai gweithwyr proffesiynol gael eu harwain gan ddymuniadau'r dioddefwr.
- Ni ddylid diystyru datgeliadau priodas dan orfod fel 'mater teuluol' yn unig. I lawer o bobl, ceisio cymorth gan asiantaeth yw'r dewis olaf ac felly **rhaid** cymryd pob datgeliad o briodas dan orfod o ddifrif.

5.2 Perygl cynnwys y teulu a'r gymuned

Mae cynnwys teuluoedd mewn achosion o briodas dan orfod (h.y. ymweld â'r teulu i ofyn iddynt a ydynt yn bwriadu gorfodi eu plentyn i briodi neu ysgrifennu llythyr at y teulu yn gofyn am gyfarfod ynghylch honiad eu plentyn) yn beryglus:

- Gallai gynyddu'r risg o niwed difrifol i'r dioddefwr. Mae profiad yn dangos y gall y teulu nid yn unig gosbi'r dioddefwr am geisio cymorth, ond eu bod hefyd yn debygol o wadu bod y dioddefwr yn cael ei orfodi i briodi ac y gallai gyflymu unrhyw drefniadau teithio a dwyn y briodas ymlaen.
- Ni ddylid defnyddio perthnasau, ffrindiau, arweinwyr cymunedol a chymdogion fel dehonglwyr – er gwaethaf unrhyw sicrwydd gan y person hysbys hwn.

- Mae'n bwysig nad yw asiantaethau'n mynd ati i gychwyn, annog neu hwyluso cwnsela, cyfryngu, cyflafareddu neu gymodi teuluol – boed yn cael ei gynnis gan gynghorau cymuned, grwpiau crefyddol, grwpiau proffesiynol neu eraill. Gall cyfryngu roi rhywun mewn perygl o gam-drin emosiynol a chorfforol pellach.

5.3 Ble i gynnal cyfweiliadau

- Mae'n debygol y bydd y person neu'r achwynydd yn bryderus ac yn ofidus.
- Dylid cynnal y cyfweiliad mewn rhan breifat a diogel o'r adeilad heb unrhyw ymyrraeth, yn unol ag arferion a gweithdrefnau lleol.
- Ni ddylai'r ystafell fod wrth ymyl rhan gyhoeddus yr adeilad, gan fod achosion wedi eu hadrodd o bobl, yn arbennig menywoed, yn cael eu symud oddi yno gan eu teuluoedd.
- Efallai y byddant/efallai na fyddant am gael eu cyfweld gan ymarferydd o'r un rhyw.
- Efallai y byddant/efallai na fyddant am gael eu gweld gan ymarferwr o'u cymuned eu hunain.
- Datblygwch a chytuno ar gynllun diogelwch a chefnogaeth rhag ofn iddynt gael eu gweld gan rywun "gelyniaethus" yn yr adran, lleoliad neu fan cyfarfod, neu gerllaw, er enghraifft paratowch reswm arall pam eu bod yno.
- Os byddant yn mynnu bod rhywun yn dod gyda nhw yn ystod y cyfweiliad, er enghraifft athro neu swyddog diogelu neu eiriolwr, sicrhewch fod y person sy'n hebrwng yn deall goblygiadau llawn cyfrinachedd, yn arbennig o ran teulu'r person.
- I rai, efallai y bydd cyfweiliad yn galw am ddehonglydd achrededig awdurdodedig sy'n siarad eu tafodiaith. Efallai y bydd adegau pan fydd angen arbenigwr cyfathrebu i gefnogi person sy'n fyddar, â nam ar y golwg neu sydd ag anableddau dysgu. Ystyriwch fynd at elusennau sydd â hanes o helpu pobl ag anableddau meddyliol a chorfforol.

Peidiwch â:

- **Defnyddio aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu'r rhai sydd â dylanwad yn y gymuned fel cyfieithwyr – gall pobl deimlo'n chwithig wrth drafod materion personol o'u blaenau a gall gwybodaeth sensitif gael ei throsglwyddo i eraill a rhoi'r person mewn perygl.**
 - **Ymhellach, gall cyfieithydd o'r fath gamarwain gweithwyr proffesiynol yn fwriadol a/neu annog y person i ollwng y gŵyn ac ymostwng i ddymuniadau ei deulu.**
-

5.4 Esbonio'r opsiynau sydd ar gael i bobl sy'n wynebu priodas dan orfod

Os yw rhywun yn ofni y gallai gael ei gorfodi i briodi, mae ganddi ddewisiadau cyfyngedig:

- Gadael eu teulu, dechrau bywyd newydd ac efallai gorfod aros yn gudd.
- Gadael eu teulu, dechrau bywyd newydd gan wybod eu bod yn wynebu bywyd o ddiarddeliad ac unigrwydd.
- Gadael eu teulu, dechrau bywyd newydd ac erlyn eu teulu.
- Dychwelyd at y teulu a gobeithio y gellir datrys y sefyllfa.
- Ceisio amddiffyniad cyfreithiol.

Os yw rhywun eisoes yn gaeth mewn priodas dan orfod, mae ganddynt ddewisiadau cyfyngedig:

- Aros yn y briodas.
- Ffoi o'r briodas, dechrau bywyd newydd ac efallai gorfod aros yn gudd.
- Ffoi o'r briodas, dechrau bywyd newydd gan wybod eu bod yn wynebu bywyd o ddiarddeliad ac unigrwydd.
- Ffoi o'r briodas, dechrau bywyd newydd ac erlyn y teulu.

Mae'r rhain yn aml yn ddewisiadau anodd iawn i'w gwneud. Gall fod risg ddifrifol o niwed, yn arbennig i fenywod, os ydynt yn dewis dychwelyd at y teulu neu aros o fewn y briodas.

Gall gadael a dechrau bywyd newydd eu gwneud yn hynod agored i niwed. Gall eu teulu neu eu priod chwilio amdanynt trwy lwybrau megis cofnodion tai, cofnodion budd-daliadau, Rhifau Yswiriant Gwladol, cofnodion cyflogaeth a chofnodion iechyd - fodd bynnag, gellir diogelu'r cofnodion hyn. Bydd materion eraill megis cael plant ifanc neu frodyr a chwiorydd iau yn effeithio ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt a gallai hyn gyfyngu ymhellach ar eu dewisiadau. I lawer o bobl, mae erlyn eu teulu yn rhywbeth na fyddant yn ei ystyried.

Os nad yw'r dioddefwr yn Ddinesydd Prydeinig, mae ffoi o'r briodas a gwneud cais i aros yn y DU yn broses gymhleth sy'n galw am gyngor mewn fudo proffesiynol.

I lawer o ddioddefwyr o dramor, nid yw dychwelyd i'w gwlad wreiddiol yn opsiwn – gallant gael eu diarddel, dioddef trais neu hyd yn oed gael eu lladd. Dylid esbonio'r risgiau hyn, hyd yn oed os mai effaith gwneud hynny yw eithrio'r opsiwn hwn.

Gall llawer o bobl, yn arbennig menywod, fod yn ofnus iawn o gysylltiad ag unrhyw asiantaeth statudol, oherwydd efallai y dywedwyd wrthynt y bydd yr awdurdodau'n eu halltudio a/neu'n cymryd eu plant oddi arnynt. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn hynod sensitif i'r ofnau hyn wrth ymdrin â dioddefwr o dramor, hyd yn oed os oes ganddynt ganiatâd amhenodol i aros neu hawl i breswyllo, gan ei bod yn bosibl nad ydynt yn ymwybodol o'u gwir sefyllfa fewnfudo. Mae'r amgylchiadau hyn yn eu gwneud yn arbennig o agored i niwed.

Os darganfyddir y gall person fod yn torri rheolau mewnfudo (er enghraifft, os yw'n arosyn rhy hir), cofiwch y gallant hefyd fod yn ddiodefwr trosedd a chael eu trawmateiddio o ganlyniad. Dylai'r heddlu a gweithwyr diogelu proffesiynol bob amser drin diodefwr troseddu fel diodefwr yn gyntaf ac yn bennaf, waeth beth fo'u statws mewnfudo.

Gall dynion sy'n ddiodefwr priodas dan orfod gael anhawster i gael eu cymryd o ddifrif. Os ydynt wedyn yn dymuno gadael cartref y teulu, mae llety lloches yn tueddu i fod yn gyfyngedig ar gyfer dynion felly efallai mai defnyddio hosteli yw'r unig ddewis arall.

5.5 Cyswllt a chyfarfodydd yn y dyfodol

- Cytunwch lle gellir cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol os nad yw'r person am gyfarfod â'r ymarferydd yn ei swyddfa. Ystyriwch leoliadau amgen, er enghraifft llyfrgelloedd neu gaffis lleol - rhywle lle byddant yn teimlo'n gyfforddus ond lle na fyddant mewn perygl o gael eu gweld gan aelod o'r teulu. Cadarnhewch a oes modd cysylltu â nhw'n gyfrinachol yn y gwaith, yn yr ysgol neu drwy ffrind, brawd neu chwaer neu berthynas neu sefydliad arall y gellir ymddiried ynddo.
- Os ydych yn cadw mewn cysylltiad trwy ddefnyddio ffonau symudol, cadarnhewch a yw'r person neu aelod arall o'r teulu yn talu'r bil, oherwydd gallai'r cofnod o alwadau a wneir roi'r person mewn perygl o niwed. Sicrhewch fod gennych air cod yn ei le i sicrhau eich bod yn siarad â'r person cywir.
- Os ydych yn defnyddio negeseuon testun, e-bost neu bost, gwnewch yn siŵr nad oes modd rhyng-gipio negeseuon.
- Efallai y bydd adegau pan mai trydydd parti yw'r unig gyswllt â'r person. Gall y sefyllfa hon godi pan fydd person wedi'i gludo dramor.
- Os ydynt wedi symud, peidiwch â chwrdd â'r person yn eu cyfeiriad newydd, lloches neu dŷ ffrind, oherwydd efallai y cewch eich dilyn, a pheidiwch byth â siarad ag ef/hi ym mhresenoldeb "ffrindiau".

5.6 Asesu Galluedd

Efallai na fydd bob amser yn amlwg a oes gan berson y galluedd i gydsynio i briodas. Mae'n hanfodol bod adrannau penodol y canllawiau hyn sy'n ymwneud â phobl ag anableddau dysgu yn cael eu dilyn p'un a yw'r person yn meddu ar alluedd **ai peidio**. Mae hyn oherwydd y bydd angen cymorth mwy arbenigol ar berson ag anabledd dysgu â galluedd na rhywun heb anabledd dysgu. Gall peidio â dilyn y canllawiau penodol neu wneud rhagdybiaethau ynghylch sut mae'r person wedi penderfynu priodi mewn gwirionedd eu rhoi mewn mwy o berygl.

Gellir asesu'r gallu i gydsynio i briodas yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (gweler pennod 7 am ragor o fanylion). Mae'n ddefnyddiol cofio "Mewn rhai achosion gall pobl ag anableddau dysgu ymddangos yn fwy abl nag ydyn nhw. Gallant gyfathrebu mewn ffordd sy'n cuddio eu hanabledd. Mae'n bosibl felly na fydd eu hanabledd dysgu yn cael ei ystyried ac efallai na fydd y gwasanaethau cywir yn cael eu rhoi ar waith." (Partneriaeth Gwella Gwasanaethau Gofal (2007) 'Arferion

Cadarnhaol, Canlyniadau Cadarnhaol: llawlyfr i weithwyr proffesiynol yn y system cyfiawnder troseddol sy'n gweithio gyda throseddwyr ag anableddau dysgu.')

Gall ardaloedd lleol ddyfeisio offer ar gyfer asesu galluedd a gall fod yn fuddiol ymgorffori dull amlasiantaethol. Mae awgrymiadau ar gyfer cwestiynau i'w gofyn wrth asesu galluedd i briodi yn cynnwys:

- Beth yw gŵr/gwraig?
- Beth yw priodas?
- Beth sy'n wahanol am fod yn briod a di-briod?
- A all y person enwi rhannau o'r corff gan gynnwys rhannau personol o'r corff?
- Ydyn nhw'n gwybod ar gyfer beth mae gwahanol rannau'r corff yn cael eu defnyddio?
- Pa rai yw rhannau rhywiol neu anrhywiol?
- Beth allai ddigwydd pan fyddwch chi'n cael rhyw?
- Gyda phwy fyddwch chi'n byw ac ymhle?

5.7 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn ddiogel

Gall cyfyng-gyngor godi oherwydd y gallai rhywun sy'n wynebu priodas dan orfod fod yn bryderus, os bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri a bod ei deulu'n darganfod ei fod wedi ceisio cymorth, y bydd mewn perygl difrifol. Ar y llaw arall, mae'r rhai sy'n wynebu priodas dan orfod eisoes yn wynebu perygl difrifol yn aml oherwydd cam-drin domestig neu gam-drin ar sail 'anrhydedd', trais rhywiol, carcharu a throseddau eraill. Felly, er mwyn eu hamddiffyn efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill megis yr heddlu.

O ganlyniad, mae cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn hynod bwysig i unrhyw un sydd dan fygythiad, neu sydd eisoes mewn, priodas dan orfod. Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn glir ynghylch pryd y gellir addo cyfrinachedd a phryd y gall fod angen rhannu gwybodaeth.

Weithiau bydd amgylchiadau'n codi pan fydd plentyn, neu'n fwy na thebyg person ifanc, yn gofyn yn benodol i weithiwr proffesiynol beidio â rhoi gwybodaeth i'w rieni/gwarcheidwaid neu i eraill sydd â rhywfaint o awdurdod drostynt. Tybir bod gan y rhai 16 oed a hŷn y gallu i wneud penderfyniadau a dylid parchu eu penderfyniadau. Fodd bynnag, efallai y bydd gan y rhai dan 16 oed alluedd hefyd ac mae'n bwysig ceisio, lle bo modd, parchu'r ceisiadau a wnânt.

Os gwneir penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth i berson arall (gweithiwr proffesiynol arall fel arfer), dylai'r gweithiwr proffesiynol geisio caniatâd y person cyn y datgeliad. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn cydsynio i'r datgeliad os ydynt yn cael esboniad gofalus ynghylch pam y bydd y datgeliad yn cael ei wneud a'u bod yn cael sicrwydd ynghylch eu diogelwch (e.e. ni fydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'w teulu) ac am yr hyn a fydd yn digwydd yn dilyn datgeliad o'r fath. P'un a yw'r person yn cytuno i'r datgeliad ai peidio, dylid dweud wrtho os bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu.

Ystyriwch:

- tynnu ar brotocolau a gweithdrefnau cenedlaethol presennol ar gyfer rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a cham-drin domestig;
- ceisio cyngor gan gydlynnydd cam-drin domestig/diogelu plant/MARAC ar sut i rannu gwybodaeth ag ymarferwyr o asiantaethau eraill;
- ymgynghori ag asiantaethau eraill, yn arbennig yr heddlu a gofal cymdeithasol;
- ymgynghori â chanllawiau presennol gan y cyrff neu'r cymdeithasau proffesiynol perthnasol; ac
- eu hatgyfeirio, gyda'u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a (lle bo'n berthnasol) grwpiau menywod sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.

O bryd i'w gilydd, efallai y gofynnir i weithwyr proffesiynol wneud datgeliadau eithriadol, er enghraifft i gydweithwyr yn yr heddlu neu asiantaethau eraill i gynorthwyo ymchwiliad troseddol. Mae Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) yn darparu eithriad rhag gofynion penodol y Ddeddf honno mewn amgylchiadau penodol, gan gynnwys at ddibenion atal neu ganfod trosedd. Gall hyn alluogi datgeliadau i gael eu gwneud heb ganiatâd y gwrthrych.

Mae hyn yn bwysig oherwydd mewn rhai achosion efallai na fydd yn bosibl cael caniatâd rhywun - er enghraifft os ydynt dramor. Dylai gweithwyr proffesiynol geisio cyngor gan eu hadran gyfreithiol neu swyddog diogelu data.

Mewn achosion o briodas dan orfod, mae'n bwysig bod asiantaethau'n cydweithio i helpu dioddefwyr; yn anochel, bydd hyn yn golygu rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn gyfrinachol. Efallai y bydd adegau pan na fydd gweithiwr proffesiynol yn gallu cael caniatâd rhywun er mwyn rhannu gwybodaeth sensitif ag asiantaethau eraill, er enghraifft pan yw'r person dramor. Yn yr achosion hyn, dylid rhannu gwybodaeth os oes pryder y gallai trosedd gael ei chyflawni a'ch bod yn fodlon y gall y sefydliad yr ydych yn rhannu'r wybodaeth ag ef gadw'r wybodaeth yn ddiogel.

Efallai y bydd adegau pan fydd aelodau teulu'r person yn gofyn i drydydd parti, er enghraifft ffrind i'r teulu, cynghorydd, AS neu rywun â dylanwad yn y gymuned, ofyn am wybodaeth gan ymarferwyr. Mae'n bosibl bod y trydydd parti wedi cael rheswm credadwy iawn gan y teulu dros fod angen gwybod ble mae'r person, er enghraifft salwch perthynas agos, a gall y trydydd parti feddwl yn ddjarwybod ei fod yn ei helpu. Mae'r ceisiadau hyn yn aml yn cael eu gwneud dros y ffôn ac yn dibynnu ar y sawl sy'n gwneud y cais i berswadio gweithiwr proffesiynol bod ganddo awdurdod i dderbyn gwybodaeth. **Peidiwch â rhannu'r wybodaeth hon.**

Peidiwch â:

- **Diystyru achosion posibl o dorri cyfrinachedd gan gynnwys gollyngiadau o wybodaeth o fewn eich sefydliad, o gofnodion, o gyfieithwyr ar y pryd ac o gyfathrebu ag asiantaethau a sefydliadau allanol.**
 - **Rhannu gwybodaeth ag aelodau o deulu'r person, pobl eraill yn ei gymuned neu aelodau'r cyhoedd, heb ganiatâd penodol y person dan sylw.**
 - **Rhooi manylion yr achos i'r cyfryngau heb ganiatâd penodol y person dan sylw.**
-

5.8 Archwiliadau meddygol

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen trefnu archwiliad meddygol ar gyfer salwch seicolegol, emosiynol neu gorfforol fel rhan o orchymyn amddiffyn a gafwyd; mewn achosion eraill, efallai y bydd angen rhoi sylw i anafiadau ar berson at ddibenion triniaeth neu dystiolaeth. Efallai **na** fyddai'n ddoeth galw neu ymweld ag ymarferwr meddygol o'r gymuned leol gan y gallai hyn fygwth diogelwch y dioddefwr.

Gall adroddiad yr archwiliad meddygol, ynghyd â chofnodion gan asiantaethau eraill a datganiadau'r heddlu, roi tystiolaeth hanfodol i'r heddlu mewn achos person (yn arbennig os yw'n briod o dramor). Fe'ch cynghorir, ym mhob achos lle mae anafiadau'n amlwg, I annog yr unigolyn i gofnodi'r anafiadau hynny er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Dylid cynnal archwiliad o blentyn neu berson ifanc yn unol â gweithdrefnau diogelu plant ac fel arfer dylai gael ei gynnal gan weithiwr proffesiynol priodol.

5.9 Gwneud ymholiadau

Efallai y bydd adegau pan fydd angen gwneud ymholiadau am rywun, er enghraifft os ydynt yn cael eu cadw yn y cartref neu wedi mynd ar goll. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig gwneud ymholiadau cynnil cyn mynd at y teulu. Mae angen gofal i beidio â datgelu bod ymholiadau yn ymwneud â materion ynghylch priodas dan orfod. Os oes angen rhannu'r ffaith bod yr ymholiadau'n ymwneud â phriodas dan orfod, dim ond gyda gweithwyr proffesiynol sy'n ymwybodol o'r angen i drin gwybodaeth o'r fath yn briodol y dylid ei rhannu.

Gall fod yn anodd casglu gwybodaeth, mewn modd cyfrinachol, am y person a'r teuluoedd dan sylw. Yn gyffredinol, dylai swyddogion heddlu gynnal ymholiadau gyda chymorth gweithwyr cymdeithasol.

5.10 Os yw rhywun yn cael ei gadw dramor, mae risgiau a allai godi os cysylltir yn uniongyrchol â sefydliadau tramor:

- Cydgynllwynio rhwng sefydliadau tramor, gan gynnwys cyrff uchel eu parch - megis yr heddlu neu awdurdodau yn y wlad lle aed â'r person - a theulu'r person
- Trais tuag at y person sy'n cael ei gynnal a'r briodas dan orfod yn cael ei dwyn ymlaen o ran amser
- Symud y person i gyrchfan anhysbys
- Ymdrechion i gynorthwyo gan asiantaethau/awdurdodau tramor sydd ond yn peryglu diogelwch y person ymhellach

Wrth ymdrin â'r achosion hyn, mae angen i asiantaethau gysylltu'n agos â'r FMU ac yna casglu gwybodaeth am y teulu yn gynnil.

5.11 Perygl cwnsela, cyfryngu, cymodi a chyflafareddu teuluol

Oherwydd natur priodas dan orfod a cham-drin ar sail 'anrhydedd', mae'n bosibl y bydd rhai o'r egwyddorion a'r themâu yn y canllawiau diogelu presennol (nad ydynt yn benodol i gam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod) yn anfwriadol yn rhoi'r rhai sy'n wynebu priodas dan orfod mewn mwy o risg o niwed. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddor mai'r lle gorau i berson ifanc yw gyda'i deulu a'r arfer o geisio datrys achosion trwy gwnsela, cyfryngu, cyflafareddu a chymodi teuluol.

Mewn achosion o briodas dan orfod, mae'n bwysig nad yw asiantaethau'n mynd ati i gychwyn, annog neu hwyluso cwnsela, cyfryngu, cyflafareddu neu gymodi teuluol – boed yn cael ei gynnig gan gynghorau cymuned, grwpiau crefyddol neu grwpiau proffesiynol. Fe fu achosion o fenywod yn cael eu llofruddio gan eu teuluoedd yn ystod cyfryngu. Gall cyfryngu hefyd roi rhywun mewn perygl o gam-drin emosiynol a chorfforol pellach. Nid yw cynadleddau grŵp teulu fel arfer yn briodol mewn achosion o briodas dan orfod oherwydd y byddant yn aml yn rhoi'r plentyn neu'r person ifanc mewn mwy o berygl o niwed.

Efallai y bydd adegau pan fydd rhywun yn mynnu cyfarfod â'i deulu. Dylid cynnal unrhyw gyfarfodydd mewn lleoliad diogel, dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol hyfforddedig/arbenigol gyda chyfieithydd achrededig awdurdodedig yn bresennol, gan y bydd teuluoedd weithiau'n bygwth y person yn ei iaith frodorol.

Os yw rhywun wedi gadael cartref y teulu, gallai caniatáu iddynt gael cyswllt heb oruchwyliaeth â'u teulu fod yn hynod beryglus. Gall teuluoedd ddefnyddio'r cyfle i ddefnyddio gorfodaeth gorfforol neu feddyliol eithafol ar y dioddefwr neu fynd ag ef/hi dramor waeth beth fo'r mesurau diogelu a all fod ar waith.

5.12 Cyngor diogelwch personol a dyfeisio strategaeth ar gyfer gadael cartref

Mae ymchwil yn dangos mai gadael cartref yw'r amser mwyaf peryglus i fenywod sy'n profi cam-drin domestig ac mae hyn yn aml yn wir pan fydd rhywun yn ffoi rhag priodas dan orfod. Felly, os yw rhywun yn bwriadu gadael neu os yw'r cyflawnwyr yn

amau y gallent adael, dylai'r sawl sy'n bwriadu gadael gymryd camau i sicrhau eu diogelwch.

Hyd yn oed os nad yw rhywun yn barod neu'n fodlon gadael, dylid eu hysbysu o'u hopsiynau o hyd. Dylid eu helpu ynghylch cynllunio diogelwch fel y gallant gymryd camau i amddiffyn eu hunain gartref, gan gynnwys gwneud trefniadau i adael cartref mewn argyfwng os oes angen.

Atgyfeiriwch nhw, gyda'u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a (lle bo'n berthnasol) grwpiau menywod sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.

Gofynnwch i'r person feddwl am:

- At bwy gallen nhw fynd mewn argyfwng?
- Pwy fyddai'n gallu anfon arian atynt pe byddai angen?
- Yr holl bethau y gall fod eu hangen arnynt i ddechrau bywyd newydd
- Terfynoldeb posibl y penderfyniad hwn a'r diffyg cyswllt parhaus rhyngddynt hwy, eu teulu a'u teulu estynedig

Wrth ddyfeisio strategaeth i rywun 16 oed neu drosodd adael cartref, dylent:

- gael eu hymgyngori'n llawn ynghylch eu hanghenion yn y dyfodol a dylid sicrhau bod eu dymuniadau'n cael eu parchu;
- ystyried y risg iddynt hwy eu hunain ac a ddylent gynnwys yr heddlu;
- agor cyfrif banc neu gyfrif cynilo ar wahân/cyfrinachol yn eu henw;
- gadael copiâu o ddogfennau pwysig fel pasbort, rhif Yswiriant Gwladol a thystysgrif geni gyda'r heddlu, gwasanaethau gofal cymdeithasol neu ffrind y gellir ymddiried ynddo;
- gadael dillad sbâr ac arian parod ac ati gyda ffrind y gellir ymddiried ynddo;
- cadw rhifau llinellau cymorth wrth law;
- bod â ffôn ar wahân/cyfrinachol ar gyfer galwadau ffôn brys; a
- threfnu llety brys arall pe byddai'r angen yn codi.

Os yw'r person yn gadael cartref y teulu:

- Cwblhewch gynllun diogelwch cyn iddynt adael cartref y teulu.
- Trefnwch i oedolyn, er enghraifft gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gwasanaeth trais domestig arbenigol, ddod gyda nhw os ydynt yn mynnu dychwelyd i gartref y teulu i gasglu eu heiddo.

- Trefnwch i swyddog heddlu hebrwng y gweithiwr cymdeithasol/gweithiwr lloches a'r person i gasglu eu heiddo – er mwyn atal achos posibl o dorri'r heddwch.
- Sicrhewch fod cyfieithydd achrededig, sy'n siarad yr un dafodiaith â'r teulu, hefyd yn bresennol, rhag ofn i'r teulu wneud bygythiadau.
- Cynhaliwch asesiad risg cyn ymweld â chartref y teulu.
- Cynghorwch y dioddefwr sut y gall eu gweithredoedd beryglu eu diogelwch.
- Cymerwch ragofalon i sicrhau bod hunaniaeth, buddion a chofnodion eraill y person yn gyfrinachol.
- Anogwch nhw i newid manylion eu cyfrif banc a'u ffôn symudol fel nad oes modd dod o hyd iddynt.
- Defnyddiwch fesurau diogelwch cam-drin domestig presennol megis ffonau symudol a larymau.
- Atgyfeiriwch nhw, gyda'u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a (lle bo'n berthnasol) grwpiau menywod sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.

Peidiwch ag:

- **Ailgartrefu'n lleol oni bai y gofynnir yn benodol am hynny ar ôl i'r holl risgiau o niwed gael eu hesbonio i'r person.**
- **Caniatáu iddynt ddychwelyd i'w cartref oni bai bod asesiad risg wedi'i gynnal.**
- **Caniatáu i fenyw ddod gyda'i phlant pan fydd yn dychwelyd i gartref y teulu i gasglu eiddo.**

Dylai eiddo personol gynnwys:

- Prawf adnabod (rhywbeth gyda ffotograff a llofnod, er enghraifft pasbort neu ID myfyriwr)
- Cerdyn, trwydded yrru cerdyn-llun neu rif/cerdyn Yswiriant Gwladol
- Llyfrau budd-daliadau, arian, llyfrau siec, cardiau banc a chardiau credyd
- Meddyginiaeth a cherdyn meddygol
- Llyfr cyfeiriadau, ffotograffau, gemwaith a dillad
- Papurau priodas/ysgariad
- Dogfennau yn ymwneud â statws mewnfudo, gan gynnwys pob pasbort (weithiau mae dau basbort ar gyfer gwladolyn deul)

Gofynnwch iddynt a ydynt am i unrhyw un gael gwybod eu bod yn ddiogel ac yn iach - os felly, pwy? Pa wybodaeth maen nhw am ei rhannu?

Mae llawer o bobl sy'n parhau i fod mewn cysylltiad â'u teuluoedd ar ôl iddynt adael cartref yn parhau i fod dan bwysau emosiynol. Gall hyn gynnwys straeon am salwch neu farwolaeth rhieni, perthnasau neu frodyr a chwiorydd. Os derbynnir neges o'r fath, dylai'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol wirio dilysrwydd y wybodaeth os yw'r person yn dymuno ond dylid cynghori yn erbyn cyswllt â'r teulu.

Weithiau mae teuluoedd yn defnyddio rhwydweithiau trefnedig a fydd yn olrhain eu plant. Gall y rhwydweithiau hyn gynnwys aelodau teulu a chymuned, helwyr pobl a gyrwyr tacsis, ynghyd â phobl sydd â mynediad at gofnodion megis staff o swyddfeydd budd-daliadau, meddygfeydd teulu ac awdurdodau tai lleol. Efallai y bydd adegau pan fydd ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth gyfrinachol yn ddjarwybod i'r rhai sy'n chwilio am y person.

5.13 Pobl ar goll a'r rhai sy'n rhedeg i ffwrdd

Mae pobl, yn arbennig y rhai dan 18 oed, sy'n gadael cartref i ddianc rhag priodas dan orfod, neu fygythiad o un, yn aml yn peri anawsterau penodol i'r heddlu ac asiantaethau eraill megis gofal cymdeithasol plant. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu'n teimlo y dylent hysbysu teuluoedd os deuir o hyd i'r person ifanc. O bryd i'w gilydd, mae'r heddlu a gofal cymdeithasol plant wedi wynebu beirniadaeth am fethu â rhannu gwybodaeth am berson ifanc sydd wedi rhedeg i ffwrdd o gartref ac am roi cymorth ac amddiffyniad ymarferol iddynt. Yn y pen draw, fodd bynnag, lles y person ifanc ddylai fod y pryder cyntaf. Pan ddarganfyddir person, ni chaiff yr heddlu ac asiantaethau eraill ond hysbysu'r teulu bod y person yn ddiogel, ond nid ei leoliad a manylion eraill.

Mae rhywun sy'n wynebu priodas dan orfod mewn perygl o niwed sylweddol os caiff ei ddychwelyd at ei deulu. Fe fu digwyddiadau lle mae teuluoedd wedi lladd y fenyw neu berson ifanc ar ôl iddynt gael eu lleoli. Yn y sefyllfaoedd hyn, dylai'r heddlu a gofal cymdeithasol plant deimlo'n hyderus ynghylch cyfiawnhau eu gweithredoedd, oherwydd mae profiad yn dangos, os caiff gwybodaeth ei rhannu â'u teulu a'u ffrindiau, y gallai roi'r person mewn perygl.

Mae rhai teuluoedd yn mynd i gryn drafferthion i ddod o hyd i'w plant sy'n rhedeg i ffwrdd a gall rhai ddefnyddio ystryw i ddod o hyd iddynt a'u dychwelyd. Er enghraifft, gall rhai teuluoedd gyhuddo person coll ar gam o drosedd (er enghraifft lladrad) gan ddisgwyl y bydd yr heddlu yn dod o hyd i'r person ar eu rhan.

Efallai y bydd adegau pan fydd teulu rhywun yn gofyn i drydydd parti, megis ffrind i'r teulu, cynghorydd, meddyg teulu, AS neu rywun â dylanwad yn y gymuned i ofyn am wybodaeth gan ymarferwr. Mae'n bosibl bod y trydydd parti wedi cael rheswm credadwy iawn gan y teulu dros fod angen gwybod ble mae'r person (er enghraifft salwch perthynas agos) a gall y trydydd parti feddwl yn ddjarwybod ei fod yn helpu'r dioddefwr. Mae'r ceisiadau hyn yn aml yn cael eu gwneud dros y ffôn ac yn dibynnu ar y sawl sy'n gwneud y cais i berswadio ymarferydd bod ganddo awdurdod i dderbyn gwybodaeth. **Peidiwch â darparu'r wybodaeth hon.** Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch cais o'r fath, cysylltwch â chydweithiwr neu reolwr profiadol.

I gael rhagor o wybodaeth am bobl ar goll a phobl ifanc sy'n rhedeg i ffwrdd, cyfeiriwch at gyhoeddiad yr Adran Addysg 'Plant sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll o gartref neu ofal', 2014.²⁹ Yng Nghymru mae 'Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan,

²⁹ Plant sy'n rhedeg i ffwrdd neu'n mynd ar goll o gartref neu ofal - GOV.UK (www.gov.uk)

diogelu plant sydd ar goll o gartref neu ofal' ar gael i'w ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.³⁰

Mae'n bosibl y bydd y rhai sy'n ffoi rhag priodas dan orfod neu'r rhai sy'n rhedeg i ffwrdd i osgoi priodas dan orfod nad yw wedi digwydd eto yn cael eu hadrodd fel rhai ar goll gan eu teuluoedd. Mae'n bosibl na fydd agwedd priodas dan orfod yr achos yn amlwg pan wneir yr adroddiad.

Os bydd yr heddlu'n dod o hyd i berson ifanc o dan 18 oed, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu gyfweld â'r person ifanc (cyn ei ddychwelyd adref) i gadarnhau a fyddai dychwelyd adref er y budd gorau iddo.

Os bydd y teulu'n dod o hyd i'r person, ceisiwch gyfweld â'r person ar ei ben ei hun i ganfod pam y gadawodd y cartref, yr amgylchiadau pan ddaeth yn ôl a'r hyn y mae am ei wneud.

Os yw rhywun mewn perygl o gael ei orfodi i briodi neu o fathau eraill o gam-drin, efallai na fydd er eu lles gorau pe byddai'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn datgelu gwybodaeth i'w teulu, ffrindiau neu aelodau o'r gymuned. Gallai datgeliad o'r fath eu rhoi mewn perygl mawr.

Caiff awdurdod lleol ddarparu llety i bobl ifanc rhwng 16 a 21 oed os yw'n ystyried y byddai gwneud hynny'n diogelu neu'n hyrwyddo lles y person ifanc (adran 20(5) o Ddeddf Plant 1989).

Mae'n bosibl y bydd angen i'r rhai sy'n ffoi rhag priodas dan orfod, neu'r bygythiad o briodas dan orfod, gael eu hadleoli ag awdurdod lleol gwahanol, oherwydd efallai na fyddant yn dymuno byw yn yr un ardal â'u teulu.

Mae'n bosibl na fydd plentyn neu berson ifanc sy'n ffoi rhag priodas dan orfod, neu fygythiad o briodas dan orfod, yn dymuno cael ei faethu gyda theulu o'i gefndir neu gymuned ei hun.

Mae'n bosibl y bydd plentyn neu berson ifanc am gael ei faethu y tu allan i'r ardal ddaearyddol gyfagos.

Peidiwch â:

- **Rhoi gwybod i'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr neu gydnabod am ble mae'r person.**
 - **Datgelu gwybodaeth heb ganiatâd penodol y person, oni bai bod y datgeliad i asiantaethau eraill a'i fod yn angenrheidiol i amddiffyn y person.**
-

³⁰ [Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan \(diogelu.cymru\)](http://Canllaw.Ymarfer.Cymru.Gyfan(diogelu.cymru))

5.14 Ailwladoli

Weithiau gall y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) ofyn i'r heddlu neu ofal cymdeithasol am gymorth pan fydd gwladolyn Prydeinig yn cael ei ddychwelyd i'r DU o dramor.

Yn yr achosion hyn, gall y dioddefwr fod wedi'i drawmateiddio'n fawr ac yn ofnus iawn. Efallai eu bod wedi cael eu dal yn erbyn eu hewyllys am fisoedd neu flynyddoedd lawer. Efallai eu bod wedi dioddef cam-drin emosiynol a chorfforol. Os oes priodas eisoes wedi digwydd, efallai bod merch neu fenyw wedi cael ei threisio. Weithiau byddant wedi peryglu eu bywyd i ddianc a gallai eu teulu fynd i gryn drafferthion i ddod o hyd iddynt. Mae hyn yn gwneud pob dioddefwr, yn arbennig menywod, yn hynod agored i niwed pan fyddant yn dychwelyd i'r DU.

Pan fydd gwladolyn Prydeinig yn ceisio cymorth gan Lysgenhadaeth neu Uchel Gomisiwn Prydeinig, gall yr FCDO geisio eu helpu i ddychwelyd i'r DU, neu eu gwlad breswyl arferol, cyn gynted â phosibl os yw'n briodol. Yn anffodus, oherwydd natur frys y sefyllfa, mae'n bosibl na fydd yr FCDO yn gallu rhoi llawer o rybudd i'r heddlu neu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol bod y person yn cyrraedd.

Gall yr FMU hwyluso dychweliad gwladolyn Prydeinig i'r DU trwy ddarparu dogfennau teithio brys, helpu i drefnu hediadau a, lle bo modd, trwy drefnu llety dros dro tra bod y dioddefwr dramor. Rhaid i unrhyw gymorth a ddarperir fod yn unol â deddfau lleol, felly efallai y bydd adegau pan na fydd rhai mathau o gymorth ar gael. Gall yr FCDO neu'r gwasanaeth gofal cymdeithasol ofyn i'r heddlu gwrdd â'r person wrth iddo gyrraedd, rhag ofn i aelodau'r teulu geisio'u herwygio yn y maes awyr.

Mae asiantaethau cymorth sydd hefyd yn gallu cynnig cymorth arbenigol i ddiodefwyr priodas dan orfod sydd wedi dychwelyd. Maent yn rhoi cyngor neu gymorth i gasglu menywod a dynion o'r maes awyr, a chymorth pellach gyda'u hailsefydlu yn y DU. Cyfeiriwch at y sefydliadau cymorth a restrir ym mhennod 17 i weld rhagor o fanylion.

Lle bo angen, gall yr FMU helpu i sicrhau cyllid ar gyfer costau dychwelyd i ddiodefwyr priodas dan orfod. Lle bo modd, bydd yr Uned yn ceisio sicrhau, fel rhan o Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPO), mai'r cyflawnwyr sy'n gyfrifol am y costau dychwelyd. Lle nad yw hyn yn ddiogel, neu'n briodol, bydd yr FMU yn gweithio gyda theulu, ffrindiau, neu gyrff cyhoeddus eraill megis gofal cymdeithasol i dalu'r costau. Ni ddylai cost dychwelyd byth oedi dioddefwr wrth geisio, neu dderbyn, cymorth i wneud hynny.

5.15 Cadw cofnodion

Mae cadw cofnodion o briodasau dan orfod yn bwysig. Gellir defnyddio'r cofnodion mewn achos llys neu i gynorthwyo person (yn arbennig menywod sy'n dweud eu bod wedi profi cam-drin domestig) yn eu hachos mewnfudo. Dylai cofnodion roi disgrifiad manwl o'r hyn a drafodwyd gyda'r person. Hyd yn oed os na chaiff priodas dan orfod ei datgelu, gallai cofnod o'ch pryderon fod yn ddefnyddiol yn y dyfodol.

Dylid cadw'r holl gofnodion sy'n perthyn i bobl sy'n wynebu priodas dan orfod yn ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan y rheini yn y gymuned ehangach a allai o bosibl drosglwyddo gwybodaeth gyfrinachol i deulu'r dioddefwr. Dylai cofnodion fod ar gael i'r rhai sy'n trin yn uniongyrchol â'r achos yn unig – mae angen iddynt hefyd:

- bod yn gywir, yn fanwl ac yn glir, a chynnwys y dyddiad;
- defnyddio geiriau'r person ei hun mewn dyfynodau;
- dogfennu unrhyw anafiadau – cynnwys ffotograffau, mapiau corff neu luniau o'u hanafiadau; a
- dim ond bod ar gael i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag achos y person.

Mae rhai pobl sydd wedi ffoi rhag priodas dan orfod wedi cael eu holrhain trwy eu cofnodion meddygol neu fudd-daliadau. Pan fydd rhywun yn symud i ardal wahanol, mae'n bwysig cael systemau ar waith i atal eu cofnodion meddygol rhag cael eu holrhain i bractis meddyg teulu neu swyddfa budd-daliadau arall.

5.16 Amddiffyniad yr heddlu

Gall gwasanaethau gofal cymdeithasol fynd at yr heddlu a gofyn am eu cymorth i gynnal ymchwiliad ar y cyd. Dylai'r ffordd yr ymdrinnir â hyn yn Lloegr gael ei chynnwys yn y gweithdrefnau a baratowyd gan y partneriaid diogelu lleol (yr awdurdod lleol, y grŵp comisiynu clinigol a phrif swyddog yr heddlu) ac yn unol â Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, ac yng Nghymru â Gweithio Gyda'n Gilydd Cyfrol 5.³¹ Gall ymagwedd ar y cyd fod yn arbennig o ddefnyddiol os credir bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol o briodas dan orfod.

Pan fydd achos rhesymol i gredu bod plentyn neu berson ifanc, o dan 18 oed, mewn perygl o niwed sylweddol, gall swyddog heddlu (gyda neu heb gydweithrediad y gwasanaethau gofal cymdeithasol) eu tynnu o'r rhiant a'u rhoi dan amddiffyniad yr heddlu (a.46 Deddf Plant 1989) am hyd at 72 awr. Rhaid i'r heddlu hysbysu gofal cymdeithasol plant a gofyn iddynt gynorthwyo i ddod o hyd i lety diogel ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc. Dylai gofal cymdeithasol plant gychwyn ymholiadau amddiffyn plant o dan a.47 o Ddeddf Plant 1989. Ar ôl 72 awr, rhaid i'r heddlu ryddhau'r plentyn neu berson ifanc. Ar y pwynt hwn, fodd bynnag, gall gofal cymdeithasol plant wneud cais am EPO os ystyrir bod y plentyn neu'r person ifanc yn dal i fod mewn perygl o niwed sylweddol. Mae gan yr heddlu'r pŵer i wneud eu cais eu hunain am EPO, ond fel mater o arfer, gofal cymdeithasol plant sy'n gwneud hyn.

Dylai gwasanaethau gofal cymdeithasol gynorthwyo'r heddlu, os gofynnir iddynt wneud hynny, drwy drefnu lleoliad ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc mewn man diogel, gan ystyried rheoli risg a chynllunio diogelwch - boed hynny mewn llety awdurdod lleol a ddarperir gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant, ar eu rhan, neu mewn lloches.

Mae gan swyddogion heddlu'r pŵer, o dan a.17(1)(e) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE), i fynd i mewn i unrhyw eiddo a'i chwilio er mwyn amddiffyn bywyd neu amddiffyn rhag anafiadau.

³¹ Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant Llywodraeth EM, 2018 a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant Mewn Perygl.

Gall swyddogion heddlu hefyd atal plentyn neu berson ifanc rhag cael ei symud o ysbyty neu le diogel arall lle mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cael ei letya.

Gall y rhieni ofyn am gysylltiad â'r plentyn neu'r person ifanc, ond nid oes rhaid caniatáu hyn os nad yw hynny er budd pennaf y plentyn, h.y. pe byddai'n rhoi'r plentyn neu'r person ifanc mewn perygl.

Rhaid hysbysu Swyddog Amddiffyn Plant yr Heddlu lleol am unrhyw blentyn sydd dan amddiffyniad yr heddlu. Mae'n bosibl y bydd plentyn neu berson ifanc am weld swyddog heddlu o'r un rhyw. Efallai y bydd, neu efallai na fydd, am weld swyddog heddlu o'u cymuned eu hunain – ceisiwch roi'r dewis i'r plentyn neu'r person ifanc.

Efallai y cewch eich rhoi dan bwysau gan berthnasau, y rhai sydd â dylanwad o fewn y gymuned, cynghorwyr neu ASau i ddweud i ble mae'r plentyn neu berson ifanc wedi mynd. **Peidiwch â datgelu'r wybodaeth hon.**

Nid oes gan yr heddlu gyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â'r plentyn neu berson ifanc tra eu bod dan amddiffyniad yr heddlu ond gallant wneud yr hyn sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau at ddibenion diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn. Ni all yr heddlu wneud unrhyw benderfyniadau ar eu rhan y tu hwnt i 72 awr y gorchymyn.

6. Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol: Canllawiau

6.1 Cefndir

Nod y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yw creu “amgylchedd agored a diogel” lle gellir trafod priodas dan orfod a lle mae pobl yn gwybod y bydd rhywun yn gwrandio arnynt, yn cymryd eu pryderon o ddifrif, ac yn cynnig cymorth gofal iechyd. Mae gan y GIG ddyletswydd gymdeithasol ehangach i hyrwyddo cydraddoldeb drwy ei wasanaethau ac i ystyried yn ofalus y grwpiau neu'r adrannau hynny o gymdeithas lle mae angen gwella iechyd fwyaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Dylai helpu pobl a allai gael eu bygwth gan briodas dan orfod fod yn rhan o sicrhau bod pob gwasanaeth ac adran o fewn y gwasanaeth iechyd yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hefyd eu bod yn wasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n briodol i'w hoedran. Mae Cynllun Hirdymor y GIG yn nodi symud tuag at fodolau gwasanaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n cynnig gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n briodol i'r oedran ar gyfer anghenion iechyd meddwl a chorfforol, gan symud yn ddetholus i wasanaeth '0-25 mlynedd' i wella canlyniadau a pharhad gofal. Mae 'Cymru Iachach' hefyd yn nodi gweledigaeth hirdymor ar gyfer y dyfodol o 'ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol', sy'n canolbwyntio ar iechyd a llesiant, ac ar atal salwch.

Gall **pob** gwasanaeth iechyd - gan gynnwys gwasanaethau Gofal Sylfaenol, Nyrsys Practis, Deintyddion, Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ysgol, NHS England ac NHS Improvement, GIG Cymru, Grwpiau Comisiynu Clinigol, Systemau Gofal Integredig, Ymddiriedolaethau GIG, Byrddau Iechyd y GIG, Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau comisiynu arbenigol Practis Cyffredinol a gwasanaethau iechyd cymunedol helpu i greu amgylchedd “agored” a chefnogol drwy:

- Arddangos gwybodaeth berthnasol, er enghraifft manylion y Llinell Gymorth Rhadffôn Genedlaethol ar gyfer Cam-drin Domestig sy'n cael ei rhedeg gan Refuge, NSPCC, Child Line, a grwpiau cymorth priodol ar gyfer priodasau dan orfod lleol a chenedlaethol.
- Dosbarthu ac arddangos copiâu o daflenni a phosteri'r Uned Priodasau dan Orfod (FMU).
- Darparu hyfforddiant ac adnoddau i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar y materion sy'n ymwneud â phriodas dan orfod.

Dylai'r holl staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd allu nodi dangosyddion posibl cam-drin plant, gan gynnwys priodas dan orfod. Mae'r ddogfen ryng-golegol 'Diogelu Plant a Phobl Ifanc: Rolau a Chymwyseddau ar gyfer staff gofal iechyd' yn nodi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn seiliedig ar eu rôl.

Gallai dioddefwr ragdybio'n anghywir na all gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu helpu, ac felly beidio â datgelu i weithiwr iechyd proffesiynol ei fod yn dioddefwr priodas dan orfod. Fodd bynnag, os yw gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn

ymwybodol o'r materion sy'n ymwneud â phriodas dan orfod a'r ffyrdd y gellir cefnogi dioddefwyr, maent mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu ymyrraeth gynnar ac effeithiol. Gallant gynnig cymorth ymarferol trwy ddarparu gwybodaeth am hawliau a dewisiadau. Gallant hefyd gynorthwyo'r dioddefwr drwy fod yn effro i bryderon diogelu a'u hatgyfeirio'n briodol, er enghraifft i'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol os ydynt o dan 18 oed (neu'n 18 oed ac iau yng Nghymru), neu dros 18 oed gyda'u caniatâd, yn ogystal â'u hatgyfeirio i Sefydliadau Anllywodraethol Lleol a chenedlaethol neu elusennau a allai fod o gymorth.

Bydd achlysuron pan nad yw dioddefwyr (yn enwedig menywod) yn sôn naill ai am briodas dan orfod neu gam-drin domestig, ond yn cyflwyno ag arwyddion neu symptomau, a all, os nodir, ddangos i'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eu bod wedi dioddef cam-drin ar sail 'anrhydedd' a'u bod o fewn priodas dan orfod neu mewn perygl o fynd i mewn i un. Efallai fod ganddynt anafiadau anesboniadwy, fod yn isel, yn bryderus neu'n hunan-niweidio, neu'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau. Mae rhai unigolion yn mynychu am reswm hollol wahanol ac yn sôn wrth fynd heibio bod yna "broblemau teuluol"; gyda chwestiynu'n ofalus efallai y byddant yn datgelu mwy.

Mae angen chwilfrydedd proffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd sy'n arddangos cydymffurfiaeth gudd. Mae cydymffurfiaeth gudd yn cynnwys rhieni neu ofalwyr yn rhoi golwg o gydweithredu ag asiantaethau er mwyn osgoi codi amheuan a lleddfu pryderon. Yn yr achosion hyn, dylai anghenion a chyfrifon y plentyn neu'r oedolyn bregus gael blaenoriaeth bob amser.

Am ragor o wybodaeth:

[Professional curiosity & challenge – resources for practitioners : Manchester Safeguarding Boards \(manchestersafeguardingpartnership.co.uk\)](https://www.manchestersafeguardingpartnership.co.uk/)

[CANLLAWIAU NHSE - COVID-19 \(safelives.org.uk\)](https://www.safelives.org.uk/)

Mae llawer o wahanol ffyrdd y gall unigolion ddod i sylw gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Er enghraifft, gallant gyflwyno i:

- adrannau damweiniau ac achosion brys, canolfannau argyfwng trais rhywiol neu glinigau cenedlol-droethol ag anafiadau sy'n gyson â threisio neu fathau eraill o drais (neu gydag arwyddion nad ydynt yn gorfforol fel iselder neu ymddygiad hunan-niweidio fel anorecsia, torri, camddefnyddio sylweddau neu ymgais i gyflawni hunanladdiad);
- deintyddfeydd neu optegwyr, ag anafiadau i'r wyneb sy'n gyson â cham-drin domestig;
- gwasanaethau iechyd meddwl, gwasanaethau cwnsela, nyrsys ysgol, ymwelwyr iechyd, neu eu meddyg teulu, ag iselder o ganlyniad i briodas dan orfod. Gallant arddangos ymddygiad hunan-niweidiol megis anorecsia, torri, camddefnyddio sylweddau neu ymgais i gyflawni hunanladdiad;
- clinigau cynllunio teulu, fferyllwyr neu feddygon teulu am gyngor ar atal cenedlu neu derfynu gan nad yw llawer o fenywod am gael babi o fewn priodas dan orfod; a
- gwasanaethau bydwreigiaeth os bydd merch yn beichiogi.

Efallai mai cyfweliad gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yw'r unig gyfle sydd gan rai dioddefwyr i ddweud wrth unrhyw un beth sy'n digwydd iddynt. Er mwyn atal y math hwn o gam-drin domestig, mae'n hollbwysig bod pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn barod i ddefnyddio'r cyfleoedd cyfyngedig hyn i drafod yn agored y materion sy'n ymwneud â phriodas dan orfod. Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i nodi arwyddion rhybudd priodas dan orfod, deall y peryglon a wynebir ac ymateb i'w hanghenion yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae'n rhaid i lawer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud penderfyniadau anodd pan gyflwynir materion yn ymwneud â phriodas dan orfod iddynt, a nod y ddogfen hon yw mynd i'r afael â'r rhain ynghyd â rhai o'r ffyrdd ymarferol y gallant gefnogi unrhyw un sy'n wynebu priodas dan orfod.

6.2 Sut y gall gweithwyr gofal iechyd proffesiynol helpu

Fel gyda phob math o gam-drin domestig, gall y rhai sydd dan fygythiad o briodas dan orfod, neu sydd eisoes mewn priodas dan orfod, gyflwyno i weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn llawer o wahanol ffyrdd. Felly, dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol chwarae rhan ragweithiol i sefydlu a yw priodas dan orfod yn broblem. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol (gan wneud yn siŵr eu bod yn gwneud hynny mewn lleoliad preifat) i ofyn cwestiynau priodol i sefydlu a yw cleifion yn wynebu risg o niwed neu'n profi niwed, gan gynnwys priodas dan orfod. Ni fydd y rhan fwyaf o bobl yn cael eu tramgwyddo gan gwestiynau o'r fath os ydynt yn gwybod bod y cwestiynau'n rhai arferol.

Gallai cwestiynu gynnwys:

- “Sut mae eich perthynas?”
- “Ydych chi'n hapus gyda'r babi – ydy'ch gŵr/partner yn hapus?”
- “Ydych chi'n bondio gyda'ch babi?”
- “A yw eich partner neu deulu yn gadael i chi wneud yr hyn rydych am ei wneud, pryd rydych am ei wneud?”
- “Ydych chi erioed wedi bod ofn ymddygiad eich partner neu aelod o'r teulu – ydyn nhw'n sarhaus ar lafar?”
- “Ydych chi byth yn teimlo'n anniogel gartref?”
- “A yw eich priod/partner neu unrhyw un arall gartref wedi eich bygwth??”

Yn dibynnu ar yr ymateb a gaiff gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, efallai y bydd yn mynd ymlaen i ofyn:

- “Ydych chi erioed wedi cael eich brifo gan eich partner neu unrhyw un arall gartref – efallai trwy eich taro, cicio neu ddyrnu?”
- “Ydych chi erioed wedi cael eich gorfodi i gael rhyw pan nad oeddech chi eisiau?”

Gellir teilwra'r cwestiynau arferol hyn i unrhyw adran o fewn y gwasanaeth iechyd i adlewyrchu'r mathau o faterion y gall menywod eu hwynebu. Er enghraifft, mewn gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed, neu unrhyw adran lle mae plant neu bobl ifanc yn mynychu, gall y cwestiynau ganolbwyntio ar y berthynas deuluol – megis:

- “Sut mae pethau gartref – ydych chi'n dod ymlaen gyda'ch rhieni?”
- “Beth ydych chi'n ei wneud ar benwythnosau?”

Unwaith eto, yn dibynnu ar yr ateb, efallai y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn mynd ymlaen i ofyn cwestiynau manylach - er enghraifft ynghylch rolau rhyw o fewn y teulu neu gwestiynau am briodasau brodyr a chworydd hŷn ac amgylchiadau'r priodasau hynny.

- “Ydy'ch rhieni'n gefnogol i'ch dyheadau – beth maen nhw'n ei obeithio i chi?”
- “A oes gan eich rhieni ddyheadau tebyg ar gyfer eich holl frodyr a chworydd?”
- “Ar wahân i'r ysgol, ydych chi'n mynd allan llawer?”

Mae rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mwy o gyfleoedd nag eraill, gan ddibynnu ar eu maes gwaith, neu eu gallu i greu cyfleoedd i weld rhywun ar eu pen eu hunain, lle gallant deimlo'n fwy abl i siarad. Mae'r rhain yn cynnwys ymwelwyr iechyd, bydwagedd, meddygon teulu, nyrsys practis, nyrsys ysgol, staff iechyd meddwl a gweithwyr proffesiynol mewn clinigau cynllunio teulu, clinigau cenhedlol-wrinol a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol, ymhlith eraill. Os oes pryderon y gallai priodas dan orfod fod yn broblem, efallai y bydd y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn gofyn cwestiynau am fywyd teuluol ac a yw'r person yn wynebu cyfyngiadau gartref.

Mae rhai pobl sy'n gaeth mewn priodas dan orfod yn cael cyfyngiadau difrifol arnynt a osodir gan eu teulu eu hunain, eu priod neu eu teulu estynedig. Mae rhai yn cael eu hunain o dan “arestiad tŷ”, ac yn wynebu cyfyngiadau ariannol difrifol. Mae'n bosibl na fydd eraill yn cael mynd allan o'r tŷ ar eu pen eu hunain – a gall rhywun fynd gyda nhw i apwyntiadau'n aml. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol geisio gweld yr unigolyn ar ei ben ei hun pryd bynnag y bo modd, er enghraifft drwy egluro ei bod yn arfer safonol gwneud hyn fel nad yw dan orfodaeth pan siaredir ag ef.

Mae llawer o gwestiynau y gallai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol eu gofyn i sefydlu a yw rhywun yn gaeth mewn priodas dan orfod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- “Sut mae pethau gartref?”
- “Ydych chi'n mynd allan llawer?”
- “Allwch chi ddewis beth rydych chi am ei wneud a phryd rydych chi am ei wneud – megis gweld ffrindiau, gweithio neu efallai astudio?”
- “Oes gennych chi ffrindiau neu deulu yn lleol a all ddarparu cymorth?”

- “A yw eich teulu yn gefnogol?”

Efallai y bydd rhai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn pryderu bod rhywun dan fygythiad o briodas dan orfod oherwydd ei fod yn arddangos rhai o'r ymddygiadau a ddangosir yn y rhestrau o arwyddion neu ddangosyddion rhybudd posibl ym Mhennod 2.11. Gallant fod yn ynysig, yn isel neu'n encilgar; camddefnyddio alcohol a chyffuriau (rhagnodedig neu heb bresgripsiwn); neu wedi cael anafiadau anesboniadwy.

Yn yr achosion hyn, gall cwestiynu sensitif annog y person i ddatgelu priodas dan orfod. Hyd yn oed os na fyddant yn datgelu unrhyw beth y tro cyntaf y byddwch yn codi priodas dan orfod, bydd yn dangos iddynt eich bod yn deall y materion a gallai roi hyder iddynt ddatgelu'n ddiweddarach.

Os oes pryderon o hyd ynghylch priodas dan orfod ond nad yw'r person wedi datgelu unrhyw beth, rhwch wybod iddynt, os bydd eu hamgylchiadau'n newid a'u bod yn credu y byddant hwy neu unrhyw un y maent yn ei adnabod mewn perygl o briodas dan orfod, mae sefydliadau a all eu cynorthwyo, gan gynnwys yr FMU, y mae manylion amdano ar gael ar-lein. Peidiwch â rhoi taflen iddynt oherwydd gallai hyn eu rhoi mewn perygl, yn arbennig os oes rhywun gyda nhw. Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol bob amser fod yn effro i bryderon diogelu a dilyn gweithdrefnau diogelu lleol.

Dylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol gofio hefyd, yn dilyn cychwyn deddfwriaeth newydd ar 27 Chwefror 2023 (gweler Pennod 2), ei bod yn drosedd gwneud unrhyw beth gyda'r bwriad o achosi plentyn i briodi cyn iddo droi'n 18 oed, hyd yn oed os na ddefnyddir gorfodaeth. Mewn achosion lle na ddefnyddir unrhyw orfodaeth, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn dangos ofn y briodas arfaethedig, ac eto byddai'r briodas yn dal i fod yn briodas dan orfod.

Egwyddorion Allweddol:

- **Efallai na fydd rhai pobl, yn arbennig menywod, yn dymuno siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n wrywaidd neu'n dod o'u cymuned eu hunain.**
- **Ceisiwch siarad â rhywun ar eu pen eu hunain - mewn amgylchedd diogel, preifat - bob amser hyd yn oed os oes rhywun gyda nhw.**
- **Os oes angen cyfieithydd arnynt, peidiwch byth â defnyddio aelodau o'r teulu, ffrindiau, neu unigolion sy'n flaenllaw neu'n ddylanwadol yng nghymuned yr unigolyn. Dylech bob amser ddefnyddio cyfieithydd achrededig. Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn fwy tebygol o ddatgelu priodas dan orfod pan ddefnyddir gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn, gan y gallant siarad â'r cyfieithydd yn fwy dienw.**

6.3 Ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc

Gall nodi risgiau'n gynnar helpu plant a phobl ifanc i dderbyn y cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt i fod yn iach, yn ddiogel ac yn hapus.

Yn Lloegr, os oes gennych bryderon am ddiogelwch unigolyn o dan 18 oed, gweithredwch eich gweithdrefnau amddiffyn plant lleol a defnyddiwch brotocolau cenedlaethol a lleol presennol ar gyfer cyswllt amlasiantaethol gyda'r heddlu a gofal cymdeithasol plant.³²

Cyfeiriwch at uned amddiffyn plant yr heddlu lleol os oes unrhyw amheuaeth bod trosedd wedi'i chyflawni, neu y gallai gael ei chyflawni. Cysylltwch â'r heddlu os oes pryderon ynghylch diogelwch y person, eu brodyr a chwirydd neu eu plant.

Yng Nghymru, os daw gwybodaeth i law bod plentyn mewn perygl, rhaid adrodd am hyn, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae gwybodaeth ynghylch adrodd am bryder wedi'i nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru, sydd ar gael yma: [Gofal Cymdeithasol Cymru \(diogelu.cymru\)](http://diogelu.cymru). Mae canllawiau statudol ar ymdrin ag achosion unigol o blant mewn perygl hefyd wedi'u cyhoeddi yng Nghymru.³³

6.4 Cyfrinachedd

Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn bwysig er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel. Dylai ymarferwyr ddilyn eu gweithdrefnau diogelu lleol presennol yn unol ag egwyddorion rhannu gwybodaeth a diogelu data.

Dylai penderfyniadau ynghylch beth i'w rannu, a phryd, gael ei lywodraethu gan gyd-ddealltwriaeth glir o'r risgiau i ddiogelwch unrhyw unigolyn a'u teulu, a sut y gellir mynd i'r afael â'r risgiau hynny ac anghenion eraill o fewn y teulu hwnnw. Dylai rhannu gwybodaeth ddigwydd gyda'r bwriad penodol o leihau risg i un neu fwy o aelodau'r teulu.

Ar gyfer plant, mae'r hyn isod yn ddyfyniad o'r canllawiau statudol 'Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant':

* * * * *

- Mae rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng ymarferwyr a sefydliadau ac asiantaethau lleol yn hanfodol ar gyfer nodi angen yn gynnar, asesu a darparu gwasanaethau i gadw plant yn ddiogel.
- Dylai ymarferwyr fod yn rhagweithiol wrth rannu gwybodaeth cyn gynted â phosibl er mwyn helpu i nodi, asesu ac ymateb i risgiau neu bryderon ynghylch diogelwch a lles plant, boed hynny pan fydd problemau'n dod i'r amlwg gyntaf, neu pan fo plentyn eisoes yn hysbys i wasanaeth gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol (er enghraifft, eu bod yn cael eu cefnogi fel plentyn mewn angen neu fod ganddynt gynllun amddiffyn plant). Dylai ymarferwyr fod yn effro i rannu gwybodaeth bwysig am unrhyw oedolion y mae'r plentyn hwnnw mewn cysylltiad â nhw, a allai effeithio ar ddiogelwch neu les y plentyn.

³² www.gov.uk/government/publications/working-together-to-safeguard-children

³³ <https://gov.wales/safeguarding-children-risk-abuse-or-neglect>

- Ni ddylid caniatáu i ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth rwystro'r angen i hyrwyddo lles, a diogelu diogelwch, plant, a rhaid i hyn fod o'r pwys mwyaf bob amser. Er mwyn sicrhau trefniadau diogelu effeithiol:

- Dylai fod gan bob sefydliad ac asiantaeth drefniadau sy'n nodi'n glir y prosesau a'r egwyddorion ar gyfer rhannu gwybodaeth. Dylai'r trefniant gynnwys sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn eu sefydliad/asiantaeth eu hunain; a chydag eraill a all fod yn rhan o fywyd plentyn.

- Ni ddylai pob ymarferydd gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn trosglwyddo gwybodaeth y maent yn credu y gallai fod yn hanfodol i gadw plentyn yn ddiogel. Os oes gan ymarferydd bryderon am les plentyn ac os yw'n ystyried y gallai fod yn blentyn mewn angen neu fod y plentyn wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, yna dylai rannu'r wybodaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a/neu'r heddlu. Dylai pob ymarferydd fod yn arbennig o effro i bwysigrwydd rhannu gwybodaeth pan fydd plentyn yn symud o un ardal awdurdod lleol i un arall, oherwydd y risg y gallai gwybodaeth sy'n berthnasol i gadw plentyn yn ddiogel gael ei cholli.

- Dylai pob ymarferydd geisio cael caniatâd i rannu gwybodaeth, ond dylent fod yn ymwybodol o sefyllfaoedd lle byddai gwneud hynny'n rhoi plentyn mewn mwy o berygl o niwed. Gellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd os oes gan ymarferydd reswm i gredu bod rheswm da dros wneud hynny, ac y bydd rhannu gwybodaeth yn gwella diogelu plentyn mewn modd amserol. Pan wneir penderfyniadau i rannu neu ddal gwybodaeth yn ôl, dylai ymarferwyr gofnodi pwy sydd wedi cael y wybodaeth a pham.

- Rhaid i ymarferwyr roi sylw dyledus i'r egwyddorion diogelu data perthnasol sy'n caniatáu iddynt rannu gwybodaeth bersonol, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

O ran oedolion, dylai'r broses gael ei harwain gan ganiatâd. Os yw'r dioddefwr yn gwrthwynebu datgelu gwybodaeth bersonol a'u bod yn cael eu hystyried yn gymwys yn feddyliol i ddeall risgiau'r penderfyniad hwnnw iddynt eu hun yna dylid parchu ei wrthwynebiad yn gyffredinol. Fodd bynnag, os credir bod dal gwybodaeth yn ôl yn rhoi plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, neu oedolyn arall mewn perygl o niwed difrifol, yna gellir cyfiawnhau datgelu er budd y cyhoedd. Gallwch rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, neu'n cael ei gyfarwyddo gan lys, neu os yw'r buddion i blentyn neu berson ifanc a fydd yn deillio o rannu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd a budd yr unigolyn os cedwir y wybodaeth yn gyfrinachol. Rhaid i'r broses gydymffurfio â'r GDPR a'r Ddyletswydd Hyder Cyfraith Gyffredin. Rhaid cadw at y Protocol Rhannu Gwybodaeth ac Egwyddorion Caldicott a rhaid cofnodi'r penderfyniad i rannu fel un cymesur a pherthnasol mewn perthynas â'r risgiau.

Dylid defnyddio barn broffesiynol i helpu i asesu'r amgylchiadau a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Gall arweinwyr diogelu yn ogystal â rolau arbenigol eraill, megis Gwarcheidwaid Caldicott a gweithwyr proffesiynol dynodedig/a enwir, helpu i roi cyngor.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gyfrinachedd a rhannu gwybodaeth gan:

- NHS England
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

6.5 Os ydych yn amau bod rhywun yn cael ei orfodi i briodi:

- Ceisiwch siarad â'r person ar ei phen ei hun.
- Defnyddiwch wasanaeth cyfieithu achrededig (os oes angen) ac nid aelod o'r teulu neu'r gymuned.
- Os ydych yn rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill neu'n atgyfeirio i asiantaeth arall, gwnewch yn siŵr eich bod yn esbonio hyn yn gywir, gan gymryd gofal i weithredu yn unol â'ch cyfrifoldebau diogelu presennol ac egwyddorion rhannu gwybodaeth.
- Sicrhewch fod unrhyw gamau pellach yn cydymffurfio â'r holl gyfrifoldebau statudol a phroffesiynol mewn perthynas â diogelu.
- Sicrhewch yr ymdrinnir â phob trafodaeth yn uniongyrchol ond mewn modd sensitif ac anfeiriadol.
- Hysbyswch y claf bod priodas dan orfod yn anghyfreithlon.
- Cofiwch ystyriaethau diogelu ehangach a pharhau i fod yn effro i bob math o gam-drin, er enghraifft cam-drin ar sail 'anrhydedd', cam-drin domestig ac ati a risgiau posibl i blant eraill neu aelodau o'r teulu.
- Darparwch wybodaeth am gymorth ar gyfer priodas dan orfod (er enghraifft yr FMU, llinellau cymorth, gwasanaethau cymorth lleol).
- Cofiwch nad yw'r canllawiau hyn yn disodli'r angen am chwilfrydedd proffesiynol a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r amgylchiadau a gyflwynir.

7. Cefnogi Dioddefwyr ag Anableddau Dysgu

Egwyddorion Allweddol:

- **Weithiau mae pobl ag anableddau dysgu'n cael eu gorfodi i briodi. Mae'n bosibl y bydd gan rai y galluedd i gydsynio, ond efallai y byddant yn cael eu twyllo neu eu gorfodi'n haws i briodi, tra bod eraill heb y galluedd i gydsynio.**
- **Lle nad oes gan berson y galluedd i gydsynio i briodas, gellir cyflawni trosedd hefyd trwy unrhyw ymddygiad a gyflawnir gyda'r diben o achosi'r dioddefwr i briodi, p'un a yw'n gyfystyr â thrais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth ai peidio.**

Mae'r prosiect 'My Marriage, My Choice' (a arweiniwyd gan Dr Rachael Clawson ym Mhrifysgol Nottingham, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caint, RESPOND ac Ann Craft Trust), wedi datblygu ystod o adnoddau i helpu ymarferwyr, pobl ag anableddau dysgu ac aelodau'r teulu i ddeall priodas dan orfod yn well.³⁴ Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau ymarfer a pheycyn cymorth i gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i nodi a chymryd camau priodol pan fo risg o briodas dan orfod. Mae llawer o'r gwaith hwn wedi llywio'r canllawiau a nodir yn y bennod hon. Am ragor o wybodaeth ewch i'w gwefan yn:

[My Marriage My Choice - The University of Nottingham](#)

7.1 Materion penodol sy'n wynebu pobl ag anableddau dysgu

Mae ymchwil a thystiolaeth yn dweud wrthym bod plant ac oedolion ag anableddau dysgu yn cael eu cam-drin yn fwy a'u bod yn llai tebygol o gael eu hamddiffyn gan systemau diogelu na'u cyfoedion nad oes ganddynt anableddau dysgu.³⁵ Gellir tybio'n anghywir hefyd fod effaith cam-drin yn llai poenus yn gorfforol neu'n emosiynol oherwydd bod gan y dioddefwr anabledd dysgu.

Mae cyfraith hawliau dynol yr un mor berthnasol i bobl ag anableddau a phobl heb anableddau. Mae pobl ag anableddau dysgu yn aml yn cael eu gweld neu eu trin gan eraill mewn ffyrdd sy'n mynd yn groes i'w hawliau, er enghraifft trwy beidio â chael dewisiadau neu fod pobl heb wrando ar eu safbwyntiau. Gall effaith hyn olygu nad ydynt yn cael y cyfle i ddatblygu perthnasoedd boddhaus, nad ydynt yn cymryd rhan lawn mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a chyfyngiadau ar eu cyfranogiad mewn llawer o weithgareddau.

Mae unigolion ag anableddau dysgu'n dioddef mwy o gam-drin na'u cyfoedion nad oes ganddynt anabledd am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:

- Tebygolrwydd cynyddol o arwahanrwydd cymdeithasol

³⁴ [My Marriage My Choice - The University of Nottingham](#)

³⁵ Sullivan, P. a Knutson, J. (2000) 'Maltreatment and disabilities: a population-based epidemiological study', 'Child Abuse & Neglect', 24 (10), 1,257-73.

- Dibyniaeth ar rieni/aelodau o'r teulu a gofalwyr am gymorth ymarferol gyda bywyd bob dydd gan gynnwys gofal preifat a phersonol ac o bosibl diffyg mynediad at berson annibynnol sy'n gallu eirioli ar eu rhan.
- Gallu diffygiol i wrthsefyll neu osgoi cam-drin neu ddeall bod sefyllfa'n gamdriniol
- Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- Diffyg mynediad at berson y gellir ymddiried ynddo os yw am ddatgelu
- I blant ac oedolion sy'n byw mewn gofal preswyl, dibyniaeth ychwanegol ar staff ar gyfer gofal dyddiol ac o bosibl diffyg mynediad at berson annibynnol sy'n gallu eirioli ar eu rhan.
- Cael eu gorfodi'n haws neu'n awyddus i blesio
- Hawliau dynol ddim yn cael eu cydnabod na'u parchu

O ystyried y gall oedran dioddefwyr, y cyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu fod yn gyfnod arbennig o agored i niwed, gall hyn arwain at weithwyr proffesiynol weithiau'n methu â chydabod bod cam-drin yn digwydd am amrywiaeth o resymau gan gynnwys:

- Gor-uniaethu gyda'r rhiant neu ofalwr – gall hyn arwain at amharoddrwydd i dderbyn bod cam-drin yn digwydd neu ganfyddiad ei fod yn cael ei achosi gan y straen o ofalu am berson ag anableddau
- Diffyg gwybodaeth am effaith yr anabledd dysgu ar y plentyn neu'r oedolyn
- Diffyg gwybodaeth am ymddygiad arferol y plentyn neu oedolyn
- Drysu'r ymddygiadau hynny sy'n awgrymu y gallai person fod yn cael ei gam-drin gyda'r rhai sy'n gysylltiedig ag anabledd (e.e. ymddygiad sy'n herio)
- Derbyn yr hyn a ganfyddir yn "normau diwylliannol"
- Diffyg canllawiau clir ar bolisiâu a gweithdrefnau diogelu
- Peidio â chydabod priodas dan orfod am yr hyn ydyw
- Anafiadau corfforol, e.e. cleisio, a esbonnir gan anabledd y person yn hytrach na cham-drin
- Dibyniaeth ar rieni i siarad dros eu plentyn neu esbonio ymddygiad neu symptomau
- Peidio â cheisio cyfle i siarad â'r plentyn neu'r oedolyn ar ei ben ei hun
- Anhawster i aros yn hyderus yn ei arbenigedd ei hun pan fydd rhiant neu ofalwr yn herio
- Y gred na all plentyn neu oedolyn ag anabledd dysgu gyfathrebu eu dymuniadau a'u teimladau, neu ei bod yn rhy anodd cael eu safbwyntiau

Gall galluedd person i gydsynio hefyd newid. Er enghraifft, gyda'r gefnogaeth gywir ac addysg arbenigol, gall person ag anabledd dysgu symud o sefyllfa o ddiffyg galluedd i gydsynio i briodas, i sefyllfa o fod â galluedd. Fodd bynnag, nid yw rhai plant ac oedolion ag anableddau dysgu yn cael unrhyw ddewis a/neu nid oes ganddynt y gallu i roi caniatâd gwybodus i briodas a'r cyfan y mae'n ei olygu. Gall hyn gynnwys cymryd rhan mewn perthynas rywiol, cael plant a phenderfynu ble i fyw.

7.2 Ysgogwyr

Gall cyflawnwyr sy'n gorfodi eu plant neu aelodau eraill o'r teulu ag anableddau dysgu i briodi wneud hynny am sawl rheswm. Rhai o'r cymhellion allweddol sydd wedi'u nodi yw³⁶:

- Cael gofalwr i'w mab/merch/aelod o'r teulu.
- Cael cymorth corfforol i rieni sy'n heneiddio.
- Cael sicrwydd ariannol.
- Credu y bydd priodas yn 'gwella' yr anabledd dysgu.
- Cred bod priodas yn 'ddefod newid byd' i bob person ifanc.
- Diffyg ymddiriedaeth yn y 'system', gan gynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol ac iechyd allanol.
- Pryder ynghylch lefel y stigma sy'n gysylltiedig â bod yn anabl a/neu fod yn ddibriod.
- Dim gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael.
- Ofn y gallai brodyr a chwirydd iau gael eu hystyried yn annymunol os nad yw brodyr a chwirydd hŷn eisoes wedi priodi.
- Yn aml yn cael ei weld fel yr unig opsiwn neu'r opsiwn cywir (neu'r ddau) - dim dewis arall.

Mae'n bwysig nodi y gall person heb anabledd dysgu fod yn ddiodefwr hefyd. Efallai na fyddant yn gwybod bod gan eu priod anabledd dysgu a/neu anghenion gofal, a gallant eu hunain gael eu cam-drin gan deulu estynedig os nad ydynt yn cyflawni eu rôl fel gofalwr. Gallant hefyd wynebu anawsterau os ydynt yn dewis gadael y briodas.

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod dynion ag anableddau dysgu yr un mor debygol o gael eu gorfodi i briodi â menywod, ac mae pobl ag anableddau dysgu yn tueddu i fod yn hŷn na'r boblogaeth gyffredinol pan gynhelir y priodasau hyn³⁷.

³⁶ Ann Craft Trust (2012) Forced Marriage of People with Learning Disabilities: Adroddiad Terfynol My Marriage, My Choice (2018) Crynodeb o Ganfyddiadau

³⁷ Rachael Clawson et al, 2019.

7.3 Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r galluedd i gydsynio i briodas

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn berthnasol i bawb 16 oed a throsodd³⁸. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniad statudol o'r hyn yw diffyg galluedd meddyliol a fframwaith ar gyfer sut y gellir gwneud penderfyniadau ar gyfer y rhai sydd heb alluedd, ac ar gyfer y rhai sydd â'r galluedd i baratoi ar gyfer cyfnod pan fydd diffyg galluedd yn y dyfodol. Mae'n nodi pwy all wneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent wneud hyn. Mae'r Ddeddf yn cychwyn ar y sail y tybir bod gan bawb y galluedd i wneud penderfyniadau.

Nid oes gan berson alluedd meddyliol os nad yw'n gallu gwneud penderfyniad oherwydd nam neu aflonyddwch yn y meddwl neu'r ymennydd. Mae methu â gwneud penderfyniad yn golygu methu â:

- Deall gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad a roddir iddynt.
- Cadw'r wybodaeth honno am ddigon o amser i allu gwneud y penderfyniad.
- Pwysu a mesur y wybodaeth sydd ar gael i wneud y penderfyniad.
- Cyfathrebu eu penderfyniad i eraill.

Lle canfyddir nad oes gan rywun alluedd i wneud penderfyniad penodol, mae'r Ddeddf yn nodi'r amgylchiadau lle caniateir i bobl eraill wneud y penderfyniadau hynny ar ran y person hwnnw. Rhaid i unrhyw benderfyniad o'r fath gael ei wneud er lles gorau'r person sydd heb alluedd. Er enghraifft, efallai y bydd teulu a gweithwyr proffesiynol yn penderfynu ei bod er lles gorau rhywun i fyw mewn lle penodol, er nad oes gan y person ei hun y galluedd i gydsynio i benderfyniad o'r fath.

Fodd bynnag, mae rhai penderfyniadau na ellir eu gwneud ar ran person arall ac mae'r rhain yn cynnwys y penderfyniad i briodi neu i gael cysylltiadau rhywiol. Felly nid oes unrhyw sail gyfreithiol i rywun gytuno i briodas, partneriaeth sifil neu berthynas rhywiol ar ran rhywun sydd heb alluedd i wneud y penderfyniadau hyn eu hunain. Fodd bynnag, mae teuluoedd weithiau'n credu bod ganddynt yr "hawl" i wneud penderfyniadau ynghylch unrhyw briodas ar gyfer eu perthynas, yn arbennig os ydynt yn ceisio sicrhau gofal hirdymor. Mae ymchwil wedi canfod, er bod llawer o deuluoedd yn gwybod beth yw priodas dan orfod, ni fyddent yn ystyried 'trefnu' priodas ar gyfer eu mab neu ferch yn briodas dan orfod os na allant gydsynio (My Marriage, My Choice (2018) Crynodeb Canfyddiadau).

(Fe'ch cynghorir i gyfeirio at God Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol am ganllawiau manylach [[Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)]; amlinelliad yn unig y mae'r adran hon yn ei ddarparu.)

Y pum egwyddor statudol sy'n sail i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yw:

1. Rhaid cymryd bod gan berson alluedd oni sefydlir nad oes ganddo alluedd.

³⁸ Fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio). 2019.

2. Nid yw person i'w drin fel pe na byddai'n gallu gwneud penderfyniad oni bai bod pob cam ymarferol wedi'i gymryd i'w helpu i wneud hynny heb lwyddiant.
3. Nid yw person i'w drin fel pe na byddai'n gallu gwneud penderfyniad dim ond oherwydd ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth.
4. Rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir o dan y Ddeddf hon dros neu ar ran person sydd heb alluedd gael ei wneud, neu ei lunio, er ei les gorau.
5. Cyn i'r weithred gael ei chyflawni, neu i'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a ellir cyflawni'r diben y mae ei angen ar ei gyfer mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau a rhyddid gweithredu'r person

Nid yw pob un o'r egwyddorion yn berthnasol i benderfyniad i briodi. "Yng nghyfraith Lloegr, nid yw'r llys a/neu unrhyw unigolyn (gan gynnwys rhiant) yn gallu cydsynio i briodas ar ran oedolyn sydd heb y galluedd i roi ei gydsyniad ei hun" (bargyfreithiwr, cyfraith teulu). Felly ni all egwyddorion 4 a 5 fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch priodas.

Beth mae "diffyg galluedd" yn ei olygu?

Mae Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn egluro bod y term "person sydd heb alluedd" yn golygu person sydd heb alluedd i wneud penderfyniad penodol neu gymryd camau penodol drosto'i hun ar yr adeg y mae angen cymryd y penderfyniad neu'r camau gweithredu. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y gall fod gan berson alluedd i wneud rhai penderfyniadau ond nid eraill, ac y gall galluedd meddyliol amrywio, dirywio neu wella; efallai y bydd person sydd heb alluedd i wneud penderfyniad drosto'i hun ar adeg benodol yn gallu gwneud y penderfyniad hwnnw yn ddiweddarach, oherwydd ei fod wedi adennill galluedd meddyliol ar y mater dan sylw, ac i'r gwrthwyneb.

Gall galluedd meddyliol amrywio neu newid oherwydd natur salwch neu gyflwr penodol a all fod dros dro, a allai wella neu ddirywio. Yn yr un modd, er y gall rhai pobl fod heb alluedd bob amser i wneud rhai penderfyniadau, er enghraifft oherwydd bod ganddynt gyflwr neu anabledd dysgu difrifol sydd wedi effeithio arnynt ers eu geni, gall eraill ddysgu sgiliau newydd sy'n eu galluogi i ennill galluedd a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, dylai person gael pob cymorth ymarferol (megis defnyddio iaith seml neu ddewis amser o'r dydd sy'n gweithio iddo) i'w alluogi i wneud penderfyniad, gan gynnwys y penderfyniad i briodi, ac, yn bwysig, yn y cyd-destun hwn, penderfyniad nad ydynt am briodi. Mae'n bwysig cydnabod penderfyniad a wneir o ganlyniad i dderbyn cymorth priodol a pharchu galluedd y person i'w wneud.

Dylid nodi, fodd bynnag, y gall pobl ag anableddau dysgu sydd â galluedd fod mewn perygl o hyd. Dylid dal i ymdrin â phobl ag anableddau dysgu sydd â galluedd o dan ganllawiau 'anabledd dysgu', oherwydd gallai peidio â gwneud hynny eu gadael yn agored i niwed. Felly, am resymau diogelu, mae'n bwysig peidio â chymryd yn ganiataol nad oes gan berson alluedd dim ond oherwydd bod ganddo anabledd

dysgu. Bydd angen asesiad gofalus o’u hamgylchiadau er mwyn hwyluso eu hawl i ddewis a’u hamddiffyn rhag priodas dan orfod.

Nid dim ond y bobl hynny ag anableddau dysgu y gellir effeithio ar eu galluedd. Mae rhesymau eraill gan gynnwys anaf i’r ymennydd, dementia, Alzheimer’s a salwch meddwl a all effeithio ar alluedd person y dylid eu hystyried.

Os nad yw person yn cydsynio neu os nad oes ganddo’r galluedd i gydsynio i briodas, rhaid ystyried y briodas honno fel priodas dan orfod ni waeth beth yw’r rheswm dros gynnal y briodas. Gellir asesu'r gallu i gydsynio ond mae'n benodol i amser a phenderfyniad. Dylid rhoi cymorth i alluogi’r person i wneud y penderfyniad os yw hyn yn bosibl.

* * * * *

Stori Mandeep

“Neithiwr clywais fy rhieni’n sôn am ein taith i India’r haf yma a’u cynllun i’r brawd Mandeep briodi tra byddwn ni yno. Dywedodd fy mam eu bod yn mynd yn rhy hen i ofalu amdano, felly roeddent yn credu y byddai’n well iddo gael gwraig i wneud hynny. Mae gan Mandeep anabledd dysgu ac mae angen cymorth gan fam a thad ar gyfer hyd yn oed y tasgau mwyaf sylfaenol. Dw i wir ddim yn meddwl ei fod yn deall dim am fod mewn priodas”

Cysylltodd chwaer Mandeep â’r Uned Priodasau dan Orfod a dweud wrthynt am ei phryderon ynghylch sefyllfa ei brawd a’i allu i ddeall beth oedd ar fin digwydd iddo. Gwnaeth yr FMU atgyfeiriad i’r tîm gofal cymdeithasol oedolion lleol yn egluro’r sefyllfa ac yn gofyn iddynt gynnal Asesiad Galluedd Meddyliol ar gyfer Mandeep, gan sicrhau bod ffynhonnell y wybodaeth yn aros yn ddiennw. Roedd Mandeep eisoes yn hysbys i’r tîm anabledd dysgu, a oedd eisoes yn rhoi cymorth iddo ond nid oeddent yn ymwybodol o'r briodas a oedd ar ddod. Trwy'r asesiad, canfuwyd nad oedd ganddo'r gallu i gydsynio i ryw a phriodas. Trwy gyngor yr Uned Priodasau dan Orfod, roedd modd iddynt gael cynllun diogelu yn ei le, gan gynnwys cael Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod. Yna buont yn gweithio gyda’r teulu i egluro’r risg o briodas i Mandeep ac archwilio opsiynau eraill ar gyfer ei anghenion hirdymor.

* * * * *

8. Ysgolion, Colegau a Phrifysgolion: Canllawiau

Er bod y bennod hon wedi'i hanelu'n benodol at athrawon, darlithwyr ac aelodau eraill o staff mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion, bydd llawer o'r canllawiau a'r wybodaeth isod yn berthnasol i staff sy'n gweithio mewn sefydliadau addysgol eraill.

Rhaid i ysgolion a cholegau roi sylw i ganllawiau statudol ar ddiogelu, 'Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg'³⁹, neu ar gyfer Cymru, 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'⁴⁰.

8.1 Cefndir

Mae pobl ifanc, yn arbennig merched, sy'n cael eu gorfodi i briodi, neu'r rhai sy'n ofni y cânt eu gorfodi i briodi, yn aml yn cael eu tynnu allan o addysg, gan gyfyngu ar eu datblygiad addysgol a phersonol. Efallai y byddant yn teimlo na allant fynd yn groes i ddymuniadau eu rhieni ac o ganlyniad gallant ddioddef yn emosiynol, gan arwain yn aml at iselder a hunan-niweidio. Gall y ffactorau hyn gyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol diffygiol, cyfleoedd gyrfa ac addysgol cyfyngedig, dibyniaeth ariannol a chyfyngiadau ar ffordd o fyw.

Gall staff ddod yn ymwybodol o fyfyrwr oherwydd eu bod yn ymddangos yn bryderus, yn isel ac yn encilgar yn emosiynol gyda hunan-barch isel. Gallant ddangos arwyddion o anhwylderau iechyd meddwl ac arddangos ymddygiadau megis hunan-niweidio, hunan-dorri neu anorecsia. Weithiau gall myfyrwr ddod i sylw'r heddlu ar ôl cael ei ddarganfod yn dwyn o siopau neu'n cymryd cyffuriau neu alcohol. Yn aml, gall symptomau myfyrwr waethgu yn y cyfnodau cyn y tymhorau gwyliau. Efallai y bydd staff am fod yn arbennig o wylidwrs yn ystod yr amseroedd hyn.

Gall myfyrwr gyflwyno dirywiad sydyn yn eu perfformiad, eu dyheadau neu eu cymhelliant, gyda rhai myfyrwr benywaidd yn teimlo bod astudio yn ddibwrpas os ydynt am gael eu gorfodi i briodi ac felly'n methu â pharhau â'u haddysg. Fodd bynnag, gall cyflawnwyr uchel hefyd fod mewn perygl o briodas dan orfod ac efallai na fu unrhyw broblemau blaenorol yn yr ysgol na phryderon am y teulu.

Efallai y bydd adegau hefyd pan fydd myfyrwr yn dod i'r ysgol neu'r coleg ond wedyn byddant yn absennol o wersi. Yn aml mae pobl ifanc sydd mewn perygl o briodas dan orfod yn byw mewn carchar rhithwir. Gallant fod yn destun cyfyngiadau a rheolaeth ormodol gartref. Efallai na fydd rhai myfyrwr yn cael mynychu unrhyw weithgareddau allgyrsiol neu ar ôl ysgol. Gall merched a menywod ifanc yn arbennig gael eu hebrwng i ac o'r ysgol/coleg, hyd yn oed yn ystod amser cinio. Felly, amser ysgol yw eu hunig amser "rhydd" i wneud gweithgareddau glasoed cyffredin y mae myfyrwr eraill yn eu gwneud ar benwythnosau gyda'u ffrindiau. Gall rhai myfyrwr roi'r gorau i fynychu'r ysgol neu'r coleg yn gyfan gwbl a gallai ymweliadau â'r cartref gan swyddogion lles neu aelodau eraill o staff arwain at ddweud wrth y gweithiwr

³⁹ [Cadw plant yn ddiogel mewn addysg - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁴⁰ [Cadw dysgwyr yn ddiogel | GOV.WALES](http://gov.wales)

proffesiynol fod y myfyriwr allan o'r wlad. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y myfyriwr wedi cael ei gloi mewn ystafell yn y tŷ ac na chaniateir iddo gyfathrebu ag unrhyw un y tu allan.

Gall myfyrwyr eraill ddangos dirywiad mewn prydlondeb, yn arbennig os ydynt wedi cyrraedd oedran addysg orfodol, a all fod o ganlyniad i orfod "negodi" eu ffordd allan o'r tŷ. Ychydig iawn o amser a roddir i rai myfyrwyr, yn arbennig merched, i gyrraedd yr ysgol er mwyn sicrhau nad oes ganddynt amser i gwrdd â chariad neu siarad â ffrindiau. Mae adegau pan fydd siblingiaid hŷn (brodyr fel arfer) a chefnodyd yn cadw llygad barcud ar ferched i wneud yn siŵr nad ydynt yn cwrdd â neb nac yn siarad â ffrindiau.

Gall rhai myfyrwyr ddod i sylw'r staff addysgu oherwydd bod eu gwaith cartref yn anghyflawn neu'n ymddangos yn frysiog. Gall hyn fod o ganlyniad i gael eu hannog i beidio â'i wneud gan aelodau'r teulu. Gall y myfyrwyr hyn wneud eu gwaith cartref yn hwyr yn y nos a gallant ymddangos yn aml yn yr ysgol yn teimlo'n swrth, heb allu canolbwyntio ac yn teimlo'n flinedig yn gyffredinol.

Gall staff ddod yn ymwybodol o wrthdaro rhwng y myfyriwr a'i rieni, yn arbennig ynghylch a fydd y myfyriwr yn cael parhau â'i addysg. Weithiau gall fod anghydfodau teuluol ynghylch a all y myfyriwr wneud ceisiadau i golegau neu brifysgolion, ac ynghylch pellter y coleg neu'r brifysgol o gartref y teulu.

Gallai arwydd rhybudd arall fod yn hanes teuluol siblingiaid hŷn yn gadael addysg yn gynnar ac yn priodi'n gynnar. Efallai y bydd eu rhieni'n teimlo ei bod yn ddyletsydd arnynt i sicrhau bod plant yn priodi yn fuan ar ôl y glasoed er mwyn eu hamddiffyn rhag rhyw y tu allan i briodas. Yn yr achosion hyn, gall fod hanes o absenoldeb sylweddol sydd wedi'i awdurdodi gan rieni'r myfyriwr. Gall yr absenoldebau hyn fod oherwydd salwch, neu wyliau teuluol estynedig dramor, yn aml yn torri ar draws y tymor ysgol.

Mae myfyrwyr sy'n ofni y cânt eu gorfodi i briodi yn aml yn dod i sylw athro, darlithydd neu aelod arall o staff, neu gallant droi atynt, cyn ceisio cymorth gan yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Weithiau bydd ffrindiau'r myfyriwr yn adrodd amdano i'r staff. Mae athrawon, darlithwyr ac aelodau eraill o staff mewn sefyllfa ddelfrydol i nodi ac ymateb i anghenion dioddefwr yn gynnar. Gallant gynnig cymorth ymarferol megis atgyfeirio'r myfyriwr i'r gwasanaethau cymdeithasol neu at grwpiau cymorth lleol neu genedlaethol, ond gallant hefyd helpu drwy roi gwybodaeth iddynt am eu hawliau a'u dewisiadau. Mae'r canllawiau statudol, 'Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg' yn Lloegr a *Chadw Dysgwyr yn Ddiogel* yng Nghymru, yn nodi'n glir yr hyn y mae angen i staff ysgolion a cholegau ei wybod am wahanol fathau o gam-drin a'r hyn y mae angen iddynt gadw llygad amdano i nodi plentyn sydd angen help.

Dylai sefydliadau addysgol anelu at greu "amgylchedd agored" lle mae myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel i drafod y problemau y maent yn eu hwynebu - amgylchedd lle mae priodas dan orfod yn cael ei drafod yn agored o fewn y cwricwlwm, a lle darperir cefnogaeth a chwnsela fel mater o drefn. Mae angen i fyfyrwyr wybod y gwrandewir arnynt a bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif. Mae angen i staff mewn ysgolion arbennig fod yn ymwybodol o arwyddion rhybudd posibl i ddisgyblion.

Dylai gweithwyr addysg proffesiynol gofio hefyd, yn dilyn cychwyn deddfwriaeth newydd ar 27 Chwefror 2023 (gweler Pennod 2), ei bod yn drosedd gwneud unrhyw beth gyda'r bwriad o achosi plentyn i briodi cyn iddo droi'n 18 oed, hyd yn oed os na ddefnyddir gorfodaeth. Mewn achosion lle na ddefnyddir unrhyw orfodaeth, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn dangos ofn y briodas arfaethedig, ac eto byddai'r briodas yn parhau i fod yn un dan orfod, a dylai staff gymryd yr achosion hynny mor ddifrifol ag unrhyw un arall.

Sut y gall gweithwyr addysg proffesiynol helpu:

- Ystyried defnyddio dull 'ysgol gyfan' o addysgu am briodas dan orfod yng nghwricwlwm ac amgylchedd yr ysgol.
- Addysgu athrawon, darlithwyr a staff eraill am y materion sy'n ymwneud â phriodas dan orfod a'r arwyddion i gadw llygad amdanynt. Gellir cynnwys hyfforddiant priodol mewn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).
- Addysgu am arwyddion priodas dan orfod a sut i gael cymorth mewn RSE.
- Cyfeirio at ddeunyddiau priodol a ffynonellau cymorth a chyngor pellach ynghylch priodas dan orfod.
- Arddangos gwybodaeth berthnasol e.e. manylion Llinell Gymorth yr NSPCC, Child Line, a grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol ar briodas dan orfod.
- Sicrhau bod ffôn preifat ar gael os bydd angen i fyfyrwyr geisio cyngor yn gynnil.
- Cyfeirio myfyrwyr at swyddog lles addysg, tiwtor bugeiliol, mentor dysgu neu gwnselydd ysgol fel y bo'n briodol.
- Annog pobl ifanc i gyrchu cyngor, gwybodaeth a chymorth priodol.

Os ydych yn amau bod myfyriwr yn cael ei orfodi i briodi:

- Siaradwch â'r arweinydd bugeiliol, y pennaeth neu'r arweinydd/person diogelu dynodedig i wneud yn siŵr bod y person mwyaf priodol yn gallu siarad â'r myfyriwr a chymryd camau pellach.
- Sicrhewch fod y person hwn yn siarad â'r myfyriwr yn breifat am y pryderon hyn.
- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.
- Cyfeiriwch at arwyddion rhybudd ym mhennod 2.11.
- Parhewch i gysylltu â'r arweinydd bugeiliol/pennaeth/arweinydd diogelu/person dynodedig fel y bo'n briodol.
- Os oes gennych bryderon am ddiogelwch myfyriwr dan 18 oed, gweithredwch weithdrefnau diogelu plant lleol a defnyddiwch brotocolau cenedlaethol a lleol

presennol ar gyfer cyswllt amlasiantaethol gyda'r heddlu a gofal cymdeithasol plant.⁴¹.

- Sefydlwch a oes gan y myfyriwr genedligrwydd deuol oherwydd efallai fod ganddo ddau basbort.
- Gofynnwch am gyngor gan yr FMU.

Peidiwch â:

- **Thrin honiadau o'r fath fel mater domestig yn unig ac anfon y myfyriwr yn ôl i gartref y teulu.**
 - **Anwybyddu'r hyn y mae'r myfyriwr wedi'i ddweud wrthyhch na diystyrru'r angen am amddiffyniad ar unwaith.**
 - **Penderfynu nad eich cyfrifoldeb chi yw mynd ar drywydd yr honiad.**
 - **Mynd at deulu'r myfyriwr neu'r rhai sydd â dylanwad o fewn y gymuned, heb ganiatâd penodol y myfyriwr, gan y bydd hyn yn tynnu sylw at eich pryderon a gallai roi'r myfyriwr mewn perygl.**
 - **Cysylltu â'r teulu cyn unrhyw ymholiadau gan yr heddlu, yr FMU, neu ofal cymdeithasol oedolion neu blant, naill ai dros y ffôn neu drwy lythyr.**
 - **Rhannu gwybodaeth y tu allan i'r hyn a ganiateir gan brotocolau rhannu gwybodaeth heb ganiatâd penodol y myfyriwr.**
 - **Ceisio bod yn gyfryngwr neu annog cyfryngu, cymodi, cyflafareddu neu gwnsela teuluol.**
-

8.2 Os bydd myfyriwr yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol

Mae gan awdurdodau lleol yn Lloegr ddyletswydd i nodi pob plentyn nad yw'n cael addysg addas.⁴² Mae hyn yn ymwneud â phlant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas heblaw am fod yn yr ysgol (gallai hyn gynnwys, er enghraifft, addysg gartref, addysg breifat neu ddarpariaeth amgen). Disgrifir manylion y camau y mae angen i awdurdodau lleol eu cymryd i ddiwallu'r ddyletswydd hon yn y Canllawiau Statudol i awdurdodau lleol yn Lloegr i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas".⁴³

Mae adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i nodi plant yn eu hardal sydd o oedran ysgol gorfodol ac nad ydynt yn cael addysg addas.⁴⁴ Nid yw'r ddyletswydd hon yn berthnasol i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol nad ydynt yn mynychu'n rheolaidd. Mewn achosion o'r fath dylai plentyn neu berson ifanc fod yn destun ymyriad trwy strategaethau presenoldeb a gweithdrefnau lles addysg presennol.

⁴¹ [Cydwethio i ddiogelu plant - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁴² Gweler Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg 2021, paragraffau164-168.

⁴³ Gweler - [Children missing education - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁴⁴ Deddf Addysg 1996 (legislation.gov.uk)

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyntaf “Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg. Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg”. Diwygiwyd y canllawiau hyn yn 2017⁴⁵. Mae'n darparu cyngor ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut i gyrraedd ac ymwreiddio safonau ac yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswydd i nodi plant a phobl ifanc yn eu hardal nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas, ac yn lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc yn mynd ar goll o'r system addysg, drwy nodi a chefnogi grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed a sicrhau ymyriadau effeithiol yn gynnar.

Efallai y bydd adegau pan na fydd myfyriwr yn dychwelyd i addysg ar ôl gwyliau neu efallai y bydd yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol yn ystod y tymor. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai y bydd staff yn amau bod priodas dan orfod yn broblem. Os bydd athro, darlithydd neu aelod arall o staff yn amau bod myfyriwr wedi'i dynnu o addysg, neu wedi'i atal rhag mynychu, addysg o ganlyniad i briodas dan orfod, dylid atgyfeirio'r achos at wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion neu blant yr awdurdod lleol ac at y heddlu.

- Cydgysylltwch ag uned cam-drin domestig yr heddlu lleol.
- Cysylltwch â'r FMU.
- Ceisiwch gael cymaint o wybodaeth â phosibl am y myfyriwr.
- Sefydlwch a oes hanes o siblingiaid yn cael eu gorfodi i briodi.
- Ystyriwch siarad â ffrindiau'r myfyriwr.

Efallai y bydd achlysuron pan fydd Swyddog Lles Addysg (SLIA) neu athro yn ymweld â'r teulu i ganfod pam nad yw'r myfyriwr yn mynychu'r ysgol neu goleg. Gall y teulu ddweud wrth yr SLIA neu'r athro bod y myfyriwr yn cael ei addysgu dramor. Weithiau, mae'r teulu'n awgrymu bod yr SLIA neu'r athro yn siarad â'r myfyriwr dros y ffôn. Os bydd hyn yn digwydd, ystyriwch i ba raddau y gellir dibynnu ar y wybodaeth a geir trwy alwad ffôn. Fe fu achlysuron pan nad yw myfyriwr wedi gallu siarad yn rhydd dros y ffôn neu pan fo unigolyn gwahanol wedi siarad â'r SLIA neu'r athro. Os yw'r myfyriwr yn ddinesydd Prydeinig, dewis arall fyddai awgrymu bod y myfyriwr yn dod i'r Llysgenhadaeth Brydeinig neu'r Uchel Gomisiwn agosaf i siarad â swyddog consylaidd. Yn y rhan fwyaf o achosion, gall staff consylaidd wirio hunaniaeth y myfyriwr a hwyluso sgwrs breifat gyda nhw. Fodd bynnag, mae angen cynllunio a pharatoi ar gyfer ymweliadau consylaidd felly ymgynghorwch â'r FMU cyn awgrymu ymweliad consylaidd i fyfyriwr â Llysgenhadaeth neu Uchel Gomisiwn. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeiriwch at y canllawiau statudol ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas.⁴⁶

⁴⁵ [statutory-guidance-help-prevent-children-young-people-missing-education.pdf \(gov.wales\)](#)

⁴⁶ [Templed canllawiau statudol \(publishing.service.gov.uk\)](#)

Peidiwch â:

- **Thynnu'r myfyriwr oddi ar y gofrestr heb wneud ymholiadau yn gyntaf a chyfeirio'r achos at yr heddlu ac at ofal cymdeithasol oedolion neu blant yr awdurdod lleol.**
 - **Diystyru'r myfyriwr fel un sy'n cymryd absenoldeb anawdurdodedig.**
-

8.3 Gwneud Atgyfeiriadau

Nid rôl athrawon, darlithwyr a staff yw ymchwilio i honiadau o gam-drin myfyriwr. Os yw'r myfyriwr o dan 18 oed, dylid gwneud pob atgyfeiriad sy'n ymwneud â cham-drin posibl yn unol â "Gweithio Gyda'n Gilydd"⁴⁷ a rhan un o Gadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg – "Beth ddylai staff ysgolion a cholegau ei wneud os oes ganddynt bryderon am blentyn"⁴⁸. Bydd yr atgyfeiriadau hyn fel arfer i ofal cymdeithasol plant neu'r heddlu. Gellir cysylltu â'r FMU hefyd am gyngor a chymorth i wneud yr atgyfeiriad hwnnw.

Os yw'r myfyriwr yn oedolyn ag anableddau, dylid gwneud atgyfeiriadau yn unol â gweithdrefnau a phrotocolau'r Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Amlasiantaethol lleol i amddiffyn oedolion agored i niwed rhag cael eu cam-drin.

Mae'n bosibl na fydd y myfyriwr yn dymuno cael ei atgyfeirio i weithiwr cymdeithasol, swyddog heddlu neu arweinydd/athro bugeiliol/pennaeth o'i gymuned ei hun. Ymgynghorwch â gweithwyr proffesiynol eraill, yn arbennig rheolwr/cydweithiwr profiadol, neu uned amddiffyn plant neu gam-drin domestig yr heddlu lleol. Gellir ceisio cyngor heb ddatgelu pwy yw'r myfyriwr.

Gall siarad â rhieni'r myfyriwr am y camau yr ydych yn eu cymryd roi'r myfyriwr mewn perygl o niwed. Felly, **peidiwch** â mynd at y teulu oherwydd gallent wadu bod y myfyriwr yn cael ei orfodi i briodi, symud y myfyriwr, neu gyflymu unrhyw drefniadau teithio a dwyn ymlaen y briodas dan orfod.

Adroddwch am fanylion yr achos, gyda hanes teulu llawn, i'r Uned Priodasau dan Orfod. Anogwch y myfyriwr i gysylltu â'r Uned Priodasau dan Orfod. Mae'r Uned yn darparu cyngor a chefnogaeth i unigolion sy'n ofni y gallent gael eu gorfodi i briodi.

* * * * *

Stori Mariam

"Ychydig ar ôl i mi droi'n un ar bymtheg, penderfynodd fy rhieni ei bod hi'n bryd i mi briodi. Fe wnaethon nhw ofyn i fy ysgol am amser i ffwrdd, gan ddweud ein bod yn teithio ar gyfer angladd fy nain. Ni fyddai neb yn dweud wrthyf beth oedd yn digwydd, ond clywais fy mam yn siarad amdano ar y ffôn. Roedd un o'r athrawon yn gofyn i mi am yr amser i ffwrdd a gwelodd fy mod yn ofidus."

⁴⁷ Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu plant - GOV.UK (www.gov.uk)

⁴⁸ Cadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg, 2021

Siaradodd athrawes Mariam â'r arweinydd diogelu dynodedig am y sefyllfa, a gofynnodd ragor o gwestiynau i Mariam. Eglurodd na fyddai'n dweud wrth rieni Mariam beth roeddent wedi siarad amdano, ond y byddai'n rhaid iddi gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Daeth gweithiwr cymdeithasol i weld Mariam yn yr ysgol. Yn seiliedig ar yr hyn a ddywedodd, gwnaeth yr awdurdod lleol gais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod er mwyn iddi allu byw'n ddiogel gartref a pharhau i astudio. Roedd staff yn yr ysgol yn siarad â hi'n rheolaidd am sut roedd pethau'n mynd ac a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol arni. Pasiodd ei harholiadau ac aeth ymlaen i'r coleg.

* * * * *

9. Swyddogion Heddlu: Canllawiau

9.1 Cefndir

Mae gan yr heddlu nifer o gyfrifoldebau allweddol mewn perthynas â phriodas dan orfod. Mae'r rhain yn cynnwys cadw dioddefwyr yn ddiogel, ymchwilio i droseddau sy'n gysylltiedig â gorfodi rhywun i briodi a chefnogi unrhyw dystion. Mae'r heddlu'n gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i erlyn achosion.

Mae priodas dan orfod yn drosedd (gweler y diffiniad ym Mhennod 1 o'r canllawiau statudol). Mae hyn yn cynnwys:

- Mynd â rhywun dramor i'w orfodi i briodi (p'un a yw'r briodas dan orfod yn digwydd ai peidio).
- Achos person i briodi rhywun sydd heb y galluedd meddyliol i gydsynio i briodas (p'un a yw dan bwysau i wneud hynny ai peidio).
- Gwneud unrhyw beth gyda'r bwriad o achosi i rywun briodi cyn troi'n 18 oed, p'un a ddefnyddir unrhyw fath o orfodaeth ai peidio.
- Torri telerau Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod.

Er bod y bennod hon yn canolbwyntio'n bennaf ar fenywod a merched, mae dynion a bechgyn hefyd yn cael eu gorfodi i briodi ag oddeutu 20% o alwadau i'r FMU yn ymwneud â dioddefwyr gwrywaidd. Dylid rhoi'r un cymorth a pharch i ddioddefwyr gwrywaidd pan fyddant yn ceisio cymorth, yn arbennig gan y gallent ei chael yn anoddach cyfaddef iddynt gael eu gorfodi i briodi ac felly, y gallent fod yn llai tebygol o geisio'r cymorth sydd ei angen arnynt. Gall hyn fod yn bryder arbennig i ddynion sy'n cael eu gorfodi i briodi mewn ymgais i guddio neu newid eu rhywioldeb.

9.2 Sut y gall swyddogion heddlu helpu

Er mwyn ennill ymddiriedaeth dioddefwr neu ddioddefwr posibl, rhaid i'r heddlu feddu ar ddealltwriaeth dda o'r materion sy'n ymwneud â phriodas dan orfod a'r camau y gallant eu cymryd i amddiffyn dioddefwr. Rhaid hefyd ystyried risgiau i eraill sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr, megis sibliogiaid neu bartneriaid. Mae angen iddynt fod yn ymwybodol y gall pobl sydd wedi cael eu gorfodi i briodi, neu'r rhai sydd dan fygythiad o orfod priodi, wynebu niwed sylweddol os daw eu teuluoedd yn ymwybodol eu bod wedi ceisio cymorth gan asiantaeth, boed hynny'n heddlu, gofal cymdeithasol neu fudiad gwirfoddol neu gymunedol. Rhaid i ddiogelwch y person ddod yn gyntaf. Mewn llawer o achosion, efallai na fydd er lles gorau iddynt aros gyda'r teulu neu hyd yn oed yn y cyffiniau. Os yw'n bosibl, dim ond swyddog sydd wedi'i enwebu gan ei heddlu i fod yn gymwys, yn ôl profiad perthnasol a hyfforddiant arbenigol, i ymdrin ag achosion o'r fath, a ddylai ymdrin ag achosion o briodas dan orfod, boed yn wirioneddol neu'n un a amheuir. Nid oes gan bob heddlu swyddog neu adran arbenigol i ymdrin â'r materion hyn, ond dylai'r swyddog mwyaf priodol ymdrin â'r achos. Lle bo modd, dylech gael barn y dioddefwr am swyddogion mewn iwnifform yn mynychu, oni bai bod brys i achub bywyd/atal anafiadau ac ati. Dylai'r

heddlu hefyd ystyried cyngor Gwasanaeth Personau Gwarchoddedig yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol lle mae'r risg yn arbennig o uchel neu'n barhaus.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan na fydd y dioddefwr yn dymuno cymryd rhan mewn unrhyw achos erlyn neu lle byddant yn lleihau eu pryderon/rôl oherwydd ofn siarad i fyny a'r cariad y mae'n ei deimlo tuag at ei deulu. Fodd bynnag, mae gan yr heddlu ddyletswydd o hyd i ddiogelu dioddefwyr o'r fath ac, mewn rhai achosion, dylent ddal i erlyn a dod â throeddwy'r o flaen eu gwell. Bydd hon yn sefyllfa anodd i'w rheoli os yw'r dioddefwr wedi ymddieithrio a gall fod yn anodd i'r heddlu fonitro eu diogelwch. Dylid ystyried pob achos risg uchel ar gyfer Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) ac FMPO.

9.3 Os bydd rhywun yn ofni ei fod yn cael ei orfodi i briodi

- Dilynwch y camau cyffredinol i'w cymryd fel y nodir ym **mhennod 3**.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.
- Trafodwch yr achos gyda'r FMU, yn arbennig os yw'r dioddefwr dramor. Sylwch nad yw'r FMU yn dîm ymchwilio, nac yn gorff diogelu, ac nid yw'n gwneud cais am FMPOs ond gallant roi cyngor i'r heddlu a chyfeirio'r heddlu at asiantaethau eraill a all ddarparu cymorth.
- Atgyfeiriwch y dioddefwr, gyda'i ganiatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a cham-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Mewn achosion risg uchel, ystyriwch atgyfeirio heb ganiatâd. Dylid cymryd y penderfyniad hwn yn ofalus a dim ond os bydd yn lleihau'r risg i ddioddefwr y dylid ei wneud.
- Ystyriwch atgyfeirio it MARAC mewn achosion risg uchel.
- Ystyriwch a oes angen arbenigwr cyfathrebu os yw'r dioddefwr yn fyddar, â nam ar ei olwg neu ag anabledau dysgu.
- Gwiriwch gofnodion yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol am atgyfeiriadau blaenorol o aelodau'r teulu gan gynnwys siblingiaid – e.e. cam-drin domestig neu bobl ar goll o fewn y teulu. Dylai hyn gynnwys Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu a gwiriadau ACRO ar gyfer unrhyw bryderon y tu allan i ffiniau'r heddlu neu dramor. Lle mae risg i blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, ystyriwch atgyfeirio'r mater ar gyfer trafodaeth strategaeth amlasiantaethol.
- Ystyriwch efallai na fydd rhywun sydd heb alluedd i gydsynio i briodas yn ofni cael ei orfodi i briodi a gallai hyd yn oed ddweud ei fod yn dymuno hynny. Ystyriwch a oes angen asesiad galluedd a mesurau diogelu eraill.
- Cofiwch ei bod hefyd yn cyfrif fel priodas dan orfod i wneud unrhyw beth a fwriedir i achosi plentyn i briodi cyn troi'n 18 oed, hyd yn oed os na ddefnyddir unrhyw orfodaeth o unrhyw fath.
- Mynnwch fanylion unrhyw fygythiadau, cam-drin neu weithredoedd gelyniaethus yn erbyn y dioddefwr. Cynhaliwch asesiad risg a gweithredwch yn briodol.

- Crëwch gofnod yn system gudd-wybodaeth yr heddlu a chyflwyno adroddiad trosedd os yw'n berthnasol (cyfeiriwch at y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Adrodd am Droseddau a chael cyngor gan Gofrestrydd Troseddau eich Heddlu os yw'n briodol). Ystyriwch gyfyngu ar hyn yn unol â pholisi'r llw.
- Eglurwch yr holl opsiynau sydd ar gael i'r dioddefwr
- Rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y dioddefwr. Peidiwch â diystyru'r risgiau y mae dioddefwyr o'r fath yn eu hwynebu. Dylid ystyried siblingiaid y dioddefwr a chymryd camau cadarnhaol lle bo angen. Mae'n hynod bwysig gwrando ar ddioddefwyr a chymryd y risgiau y maent yn eu hwynebu o ddifrif.
- Os na ellir osgoi teithio dramor gyda'r teulu, cymerwch y rhagofalon a nodir ym **mhennod 4**. Gellir defnyddio FMPO i atal teithio neu i roi amodau ar waith sy'n gwneud teithio'n fwy diogel.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd yn ofynnol i'r heddlu sefydlu a yw rhywun yn ddiogel tra eu bod yn dal yn y DU. Yn y sefyllfaoedd hyn, mae'n bwysig bod yr heddlu'n eu cyfweld yn gyfrinachol i ffwrdd o'u cartref teuluol, mewn man niwtral, lle na all aelodau o'r teulu ddylanwadu arnynt na rhoi pwysau arnynt. Weithiau mae'n briodol sefydlu llwybrau cyfathrebu diogel, gyda chyfrineiriau, fel eich bod yn gwybod bod y dioddefwr yn ddiogel, os yw'n dewis aros yn y cartref teuluol.

Os yw'r person yn teithio dramor, dylai'r heddlu gael holl enwau a chyfeiriadau (neu leoliad daearyddol adnabyddadwy arall) aelodau o'r teulu estynedig lle gallent fod yn aros. Mae'n arfer da ym mhob achos i gael manylion coeden achau

9.4 Os bydd trydydd parti'n adrodd bod rhywun wedi'i gymryd dramor at ddiben priodas dan orfod

Weithiau gall person gael ei gludo dramor ar esgus gwyliau teuluol neu briodas, salwch neu angladd aelod arall o'r teulu. Wrth gyrraedd, efallai y bydd eu ffôn symudol, dogfennau a phasbortau yn cael eu cymryd oddi arnynt. Mae rhai dioddefwyr hefyd wedi dweud bod eu rhieni wedi rhoi cyffuriau iddynt. Yn yr achosion hyn, gall fod yn "drydydd parti" ar ffurf ffrind, perthynas, partner neu asiantaeth bryderus sy'n dweud eu bod ar goll. Gall yr achosion hyn gael eu hadrodd i ddechrau i'r FMU, gofal cymdeithasol, yr heddlu, addysg neu grŵp gwirfoddol.

Fel gyda phob achos o briodas dan orfod, mae cyfrinachedd a disgrisiwn yn hollbwysig. **Nid** yw'n ddoeth cysylltu â gwasanaeth neu sefydliad heddlu tramor i wneud ymholiadau. Gall risgiau godi os cysylltir yn uniongyrchol â'r heddlu neu sefydliadau tramor. Os daw'r teulu, trwy weithredoedd heddlu tramor, yn ymwybodol bod ymholiadau'n cael eu gwneud, gallant symud y dioddefwr i leoliad arall, ceisio cyflymu'r briodas dan orfod a/neu niweidio'r dioddefwr.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.

- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.
- Cyfeiriwch at arwyddion rhybudd ym mhennod 2.11.
- Atgyfeiriwch i swyddog amddiffyn plant, os yw'r person dan 18 oed.
- Atgyfeiriwch i'r awdurdod lleol cyfrifol yn y DU, naill ai os yw'r person o dan 18 oed neu os yw dros 18 oed a bod ganddo anabledd sy'n golygu ei fod yn gymwys i gael cymorth.
- Gwiriwch adroddiadau presennol am bobl sydd ar goll.
- Mynnwch fanylion a chadw cysylltiad â'r trydydd parti rhag ofn i'r person gysylltu â nhw tra'u bod dramor neu ar ôl dychwelyd.
- Ystyriwch ofyn i Swyddog Lles Addysg wneud ymholiadau gofalus.
- Defnyddiwch brotocolau cenedlaethol a lleol presennol ar gyfer cyswllt rhyngasiantaethol e.e. cysylltu â'r Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) a'r FMU.
- Cynhaliwch asesiad risg

Hysbyswch y trydydd parti, os yw'r person sy'n cael ei gadw dramor yn dymuno dychwelyd i'r DU (os yw'n ddinesydd Prydeinig), efallai y bydd yr FCDO yn gallu eu helpu, gan gynnwys drwy helpu i drefnu hediadau neu amnewid dogfennau teithio coll. Mewn rhai lleoliadau, efallai y bydd yr FCDO wedi ymddiried mewn partneriaid i helpu dioddefwyr i ddod o hyd i lety brys diogel os oes angen. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, y bydd angen teilwra'r cymorth a ddarperir, o reidrwydd, i amgylchiadau pob achos. Gall cyfraith leol atal rhai mathau o gymorth. Er enghraifft, mewn rhai gwledydd mae'n bosibl y bydd angen caniatâd rhieni cyn y caniateir i ferch dan oed, neu fenyw ar ei phen ei hun, adael trwy'r system fewnfudo. Mewn amgylchiadau o'r fath gall FMPO fod yn arf pwerus i geisio cael unrhyw ganiatâd angenrheidiol (gweler pennod 16 am fanylion pellach).

Lle bo angen, gall yr FMU helpu i sicrhau cyllid ar gyfer costau dychwelyd dioddefwyr priodas dan orfod. Cyn belled ag y bo modd, bydd yr Uned Rheoli Troseddwyr yn gweithio gyda'r awdurdod perthnasol yn y DU sy'n gwneud cais am FMPO, i geisio sicrhau bod costau dychwelyd yn disgyn ar y troseddwyr. Lle nad yw'r awdurdod perthnasol o'r farn bod hyn yn ddiogel, neu'n briodol, bydd yr FMU yn nodi ffynonellau cymorth posibl eraill. Ni ddylai cost dychwelyd achosi oedi i ddioddefwr sy'n ceisio, neu'n derbyn, cymorth i wneud hynny.

Arferion Gorau:

- Canfod a oes unrhyw un arall yn ymwybodol o'r sefyllfa a sefydlu a oes unrhyw ymholiadau wedi eu gwneud eisoes. A oes tystiolaeth i gefnogi priodas dan orfod (wedi'i chynllunio neu wedi'i chynnal) a chamdriniaethau neu droseddau eraill?
- Perswadio'r trydydd parti ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r achos i beidio rhag gwneud ymholiadau a gweithredu'n annibynnol ar yr heddlu neu (os yw dramor) yr FMU.

- Darganfod a dogfennu unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r bygythiad o briodas dan orfod ac unrhyw droseddau cysylltiedig megis treisio. Peidiwch â rhoi'r dioddefwr mewn perygl o niwed i wneud hyn.
- Os oes angen cymorth ar y trydydd parti, cyfeiriwch ef at sefydliad sydd â hanes o gynorthwyo mewn achosion o briodas dan orfod a cham-drin domestig. Bydd angen i'r unigolion hyn gael asesiad risg a'u trin fel "canolbwynt" o wybodaeth ond ni fydd angen eu diweddarau o ran y camau a gymerwyd oni bai bod yr Uwch Swyddog Ymchwilio neu'r Swyddog â Chyfrifoldeb wedi awdurdodi hyn.

Peidiwch â:

- **Chyfathrebu'n uniongyrchol â theulu'r person, ei ffrindiau neu'r rhai sydd â dylanwad yn y gymuned, gan y gallai hyn dynnu sylw'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd at yr ymholiadau sy'n cael eu cynnal a gallai roi'r dioddefwr mewn perygl pellach.**
 - **Cysylltu'n uniongyrchol â Llysgenhadaeth Prydain, yr Uchel Gomisiwn neu heddlu tramor heb yn gyntaf gysylltu â'r FMU a/neu Gynghorydd Gorfodi'r Gyfraith yr FCDO.**
 - **Cymryd yn ganiataol y gall yr unigolyn siarad yn rhydd ar y ffôn; ystyriwch hefyd a allai rhywun arall fod yn dynwared y dioddefwr.**
 - **Cysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith dramor heb gyfeirio at oruchwyliwr arbenigol sydd â phrofiad o reoli achosion o'r fath a'r FMU.**
 - **Ceisio cyfryngu rhwng partïon neu rhwng unigolyn a'i deulu. Gall cyfryngu fod yn hynod beryglus a gall roi'r unigolyn mewn perygl.**
-

9.5 Beth i'w wneud pan fydd rhywun eisoes wedi'i orfodi i briodi

Mae llawer o achosion o briodas dan orfod yn dod i'r amlwg pan adroddir bod person ar goll neu pan fydd honiadau o gam-drin domestig a mathau eraill o gam-drin, ond mae rhai achosion yn cael eu dwyn i sylw'r heddlu neu ofal cymdeithasol pan fydd dioddefwr yn cael ei orfodi i weithredu fel noddwr am fewnfudo eu priod i'r DU. Cyfeirir at y rhain fel achosion 'noddwr amharod'. Mae noddwyr amharod yn aml yn amharod i ddweud wrth Fisâu a Mewnfudo'r DU mai priodas dan orfod oedd hi oherwydd bygythiadau ac ofn dial gan y teulu. Mae gan berson y gwrthodir ei gais i ddod i mewn i'r DU fel priod hawl i wybod y rhesymau pam – a'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Gall hyn roi'r dioddefwr mewn sefyllfa anodd. Fodd bynnag, gall yr FMU roi cyngor cyfrinachol mewn achosion o'r fath.

Gall priodau sy'n cael eu gorfodi i briodi ddioddef blynyddoedd o gam-drin domestig ond gallent deimlo na allant adael oherwydd ofn colli eu plant, diffyg cymorth teuluol, pwysau economaidd a ffactorau cymdeithasol eraill. Efallai mai dim ond blynyddoedd ar ôl i'r briodas ddigwydd y daw'r ffaith yn amlwg iddynt gael eu gorfodi i briodi.

Ym mhob achos, mae angen i swyddogion heddlu drafod yr opsiynau sydd ar gael i'r person a chanlyniadau posibl, neu ddeilliannau posibl, y dull gweithredu o'u dewis. Lle mae achosion yn ymwneud â pherson(au) o dan 18 oed, bydd angen cymryd camau cadarnhaol yn unol â deddfwriaeth gyfredol a throseddau eraill a allai fod wedi'u cyflawni⁴⁹.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.
- Atgyfeiriwch i Swyddog Amddiffyn Plant, os yw'r person dan 18 oed.
- Atgyfeiriwch i'r awdurdod lleol cyfrifol, os yw'r person o dan 18 oed neu os yw dros 18 oed a bod ganddo anabledd sy'n golygu ei fod yn gymwys i gael cymorth.
- Cofnodwch fanylion llawn y person ynghyd â manylion y briodas gan gynnwys dyddiad a lleoliad.
- Cofnodwch enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r priod ynghyd â dyddiadau cyfweld ar gyfer ei fisa (os yw'n hysbys).
- Cyfeiriwch nhw, gyda'u caniatâd, at grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a cham-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Mewn achosion risg uchel, ystyriwch atgyfeirio'r achos heb ganiatâd. Dylid cymryd y penderfyniad hwn yn ofalus a dim ond os bydd yn lleihau'r risg i ddioddefwr y dylid ei wneud.
- Ystyriwch atgyfeiriad i MARAC mewn achosion risg uchel.
- Cyfeiriwch at yr FMU os oes gan y briodas ddimensiwn tramor neu os oes ganddynt bryderon y bydd eu priod yn cael fisa.
- Ystyriwch atgyfeirio'r achos i broses herwgipio a chribddeiliaeth eich heddlu.
- Os oes angen cyngor cyfreithiol penodol ar berson, awgrymwch eu bod yn ymgynghori â chyfreithiwr teulu.
- Os nad ydynt am ddychwelyd i gartref y teulu, dylid dyfeisio strategaeth ar gyfer gadael cartref, trafod cyngor diogelwch personol a dogfennu strategaeth asesu a rheoli risg (gan ddefnyddio model DASH neu asesiad risg cam-drin domestig arall a ddefnyddir gan eich heddlu) .
- Os ydynt yn dymuno aros yn y cartref teuluol, ceisiwch gadw mewn cysylltiad heb eu rhoi mewn perygl. Bydd angen llunio a chofnodi cynllun rheoli risg o hyd.
- Ystyriwch FMPO.

⁴⁹ Efallai y bydd swyddogion am gyfeirio at Arfer Proffesiynol Awdurdodedig ar Gam-drin Plant: Cam-drin Plant (college.police.uk)

9.6 Beth i'w wneud pan fydd priod wedi dod i'r DU o dramor

Gall priod ddod i'r DU o dramor a dweud ei fod wedi cael ei orfodi i briodi dramor. Mewn rhai achosion efallai na fyddant yn siarad Saesneg ac efallai na fyddant yn ymwybodol o'r cymorth y gallai fod ganddynt hawl iddo. Unwaith eto, gellir adrodd am yr achosion hyn i ddechrau fel achosion o gam-drin domestig, pobl ar goll neu faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Os nad oes gan y priod ganiatâd amhenodol i ddod i mewn (ILE), caniatâd amhenodol i aros (ILR), caniatâd a roddir o dan y Consesiwn Trais Domestig Amddifadedd, amddiffyniad dyngarol, caniatâd yn ôl disgresiwn neu hawl i breswyllo yn y DU, yna maent yn debygol o gael cyfyngiad ar dderbyn arian cyhoeddus. Mae cronfeydd cyhoeddus yn cynnwys cymhorthdal incwm a budd-dal tai. Mae hyn yn golygu y gall fod yn anodd cael mynediad i loches (er weithiau gall llochesi gynnig lleoedd). O ganlyniad, gall unigolion brofi anhawster wrth ddod o hyd i lety arall a modd byw. Gall hyn arwain unigolion i deimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond i aros yn y briodas ac i fethu â chydweithredu â'r heddlu neu unrhyw un y maent yn ystyried eu bod mewn sefyllfa o "awdurdod". Gall peidio â defnyddio arian cyhoeddus, tra'n dibynnu ar fisa priod, weithiau olygu nad yw dioddefwyr nad ydynt yn dod o'r DU yn riportio troseddoldeb i'r heddlu. Gellir camfanteisio ar bobl yn y sefyllfa hon oherwydd eu bregusrwydd, a gallant ddioddef amrywiaeth o droseddau, gan gynnwys caethwasanaeth domestig.

Arferion Gorau:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.
- Atgyfeiriwch i Swyddog Amddiffyn Plant, os yw'r dioddefwr o dan 18 oed.
- Os yw'r dioddefwr yn 18 oed neu drosodd, atgyfeiriwch ef i uned diogelwch cymunedol/cam-drin domestig leol.
- Sicrhewch fod dymuniadau, diwylliant a gwerthoedd y dioddefwr yn cael eu cydnabod, eu parchu a'u rheoli mewn ffordd sensitif. Sylwch y gall neu na all dioddefwyr deimlo'n gyfforddus yn siarad â rhywun o gefndir diwylliannol tebyg oherwydd efallai eu bod yn ofni y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu o fewn y gymuned. Dogfennwch unrhyw benderfyniad a wneir gan y person.
- Atgyfeiriwch y dioddefwr i'r awdurdod lleol cyfrifol, os yw'r person o dan 18 oed neu os yw dros 18 oed a bod ganddo anabledd sy'n golygu ei fod yn gymwys i gael cymorth o dan adran 17 Deddf Plant 1989. Eglurwch fod hyn yn gosod dyletswydd gyffredinol ar pob awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant mewn angen yn eu hardal; ac i'r graddau y mae'n rhesymol gyson â'r ddyletswydd honno, hyrwyddo modd magu plant o'r fath gan eu teuluoedd, drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy'n briodol i anghenion y plant hynny.
- Os yw'r dioddefwr i aros yn yr un cartref â'r cyflawnwr(wyr), dyfeisiwch asesiad risg a strategaeth reoli (gan ddefnyddio'r model DASH neu asesiad risg cam-drin domestig arall a ddefnyddir gan eich llw).
- Os yw'r dioddefwr yn bwriadu gadael cartref, cefnogwch nhw gyda chyngor ar gynllunio diogelwch ar gyfer aros gartref neu adael.
- Ystyriwch GMBO.

- Trefnwch fod cyfieithydd awdurdodedig sy'n siarad eu hiaith a'u tafodiaith yn cael ei ddewis yn ofalus. Os oes angen, mynnwch ganiatâd ganddynt trwy Language Line. Sefydlwch unrhyw hoffterau o ran rhyw y cyfieithydd. Ystyriwch ofyn am ddehonglydd o sir arall os oes angen iddynt fynychu'n bersonol.
- Atgyfeiriwch y dioddefwr, gyda'i ganiatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a grwpiau arbenigol (megis grwpiau menywod, neu grwpiau LGBT) sydd â hanes o weithio gyda goroewyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.
- Os credwch fod angen cyngor ar fewnfudo, atgyfeiriwch y dioddefwr i asiantaeth cymorth priodol, cynghorydd mewnfudo a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo neu gyfreithiwr.
- Rhowch fanylion cyswllt ysgrifenedig y swyddog hyfforddedig/arbenigol sy'n trin yr achos i'r dioddefwr i'w rhoi i'w cyfreithiwr, ynghyd â chyfeirnod y drosedd, lle bo'n briodol.
- Cofnodwch unrhyw anafiadau i'r dioddefwr, a, gyda chaniatâd, tynnwch lun. Ystyriwch drefnu archwiliad meddygol.
- Crëwch gofnod yn system gudd-wybodaeth yr heddlu a chyflwyno adroddiad trosedd os yw'n berthnasol (cyfeiriwch at y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Adrodd am Droseddau a chael cyngor gan Gofrestrydd Troseddau eich Llu os yw'n briodol). Ystyriwch gyfyngu ar hyn yn unol â pholisi'r llu

Peidiwch â:

- **Defnyddio perthynas, ffrind, cymydog, plentyn neu rai sydd â dylanwad yn y gymuned fel cyfieithydd er gwaethaf unrhyw sicrwydd gan y person hysbys hwn. Gall gwybodaeth yn y cyfweiliad gael ei rhoi i aelodau eraill o'r gymuned a gallai roi'r dioddefwr mewn perygl o niwed pellach. Dylech bob amser ddefnyddio cyfieithydd achrededig.**
 - **Ceisio rhoi cyngor mewnfudo i'r dioddefwr. Mae'n drosedd i unrhyw berson anghymwys roi'r cyngor hwn.⁵⁰**
-

9.7 Y sefyllfa gyfreithiol

Unwaith y bydd person wedi gadael y wlad, mae'r opsiynau cyfreithiol sydd ar gael i'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau eraill neu berson arall i adennill person ifanc a dod â nhw yn ôl i'r DU yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'n bosibl ceisio dychwelyd y person ifanc i awdurdodaeth Cymru a Lloegr drwy ei wneud yn ward llys a/neu drefnu Gorchymyn Amddiffyn Priodi dan Orfod (gweler pennod 16 am ragor o fanylion).

Gall priod sy'n ddiodeffwr priodas dan orfod gychwyn achos dirymu neu ysgariad i ddod â'r briodas i ben. Gorchymyn diogelu arall sydd ar gael o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yw gorchymyn peidio ag ymyrryd. Mae Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 hefyd yn cynnig amddiffyniad trwy orchymyn atal. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y rhain isod.

⁵⁰ S.84 & s.91 Immigration and Asylum Act, 1999

Os yw'r person ifanc o dan 18 oed, yn bresennol yn y DU heb ei deulu ac yn datgan iddo gael ei orfodi i briodi ac nad yw'n dymuno aros gyda'i briod, dylai gwasanaethau cymdeithasol ystyried y person ifanc yn yr un modd â phlentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches, a dylai letya'r person ifanc o dan (yn Lloegr) a.20 Deddf Plant 1989 neu (yng Nghymru) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Cylchlythyr Awdurdodau Lleol (LAC) 2003, 13 yn nodi, pan nad oes gan blentyn riant neu warcheidwad yn y wlad hon, y dylid rhagdybio y byddai'r plentyn yn dod o fewn cwmpas a.20 ac yn dod yn blentyn sy'n "derbyn gofal" gan awdurdod lleol, oni bai bod yr asesiad o anghenion yn datgelu ffactorau penodol a fyddai'n awgrymu nad yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal. Os yw'r person ifanc o dan 18 oed a bod ganddo blant, dylid ei ystyried yn blentyn heb ei hebrwng o hyd.

Mae gan unrhyw un sydd wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros, caniatâd ffoadur, amddiffyniad dyngarol, caniatâd dewisol neu sydd â hawl i breswyllo yn y DU yr un hawliau i gael arian cyhoeddus â dinesydd Prydeinig. Nid yw cyllid ar gyfer cyngor cyfreithiol ('cymorth cyfreithiol') yn cael ei gyfrif fel arian cyhoeddus, a gall unigolion fod â hawl i gymorth cyfreithiol beth bynnag fo'u statws mewnfudo. Efallai y bydd gan ofal cymdeithasol plant y pŵer i wneud taliadau dewisol. Nid yw'r taliadau hyn yn cyfrif fel arian cyhoeddus.

Os ydynt yn ddiodefwr cam-drin domestig, gall y darpariaethau trais domestig o dan y Rheolau Mewnfudo fod yn berthnasol. O dan y darpariaethau hyn, gall yr heddlu ddarparu tystiolaeth o gam-drin domestig ar ffurf adroddiad yn cadarnhau eu bod wedi mynychu cartref yr ymgeisydd oherwydd cam-drin domestig. Gall cofnodion a datganiadau yr heddlu fod yn dystiolaeth hanfodol yn eu hachos mewnfudo. Gellir gosod y dystiolaeth hon gerbron gwrandawriad mewnfudo a gellir galw swyddog heddlu fel tyst. Ystyriwch gysylltu â'r Swyddfa Gartref i gael cyllid i'r rhai nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus o dan y Consesiwn Trais yn y Cartref ar gyfer Amddifadedd – dim ond ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais o dan y rheol trais domestig o dan y fisa priod os yw'r person yn amddifad y byddai hyn. Dylai pobl bob amser geisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud hyn. Ystyriwch hefyd gysylltu â sefydliad menywod sy'n arbenigo mewn cam-drin domestig, mewnfudo ac os nad oes hawl i arian cyhoeddus.

I gael rhagor o wybodaeth am geisiadau am wardiaeth, FMPOs a rhwymedïau cyfreithiol eraill, gweler yr adran arfer da ym **mhennod 16**.

Cyfeiriwch at y dogfennau isod:

Protocol Trais ar Sail Anrhydedd a Phriodas dan Orfod (NPCC a CPS), 2016.

[Cam-drin ar sail Anrhydedd, Priodas dan Orfod ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod: Strategaeth Blismona ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon \(NPCC\), 2015.](#)

[Crynodeb o Arferion Cam-drin ar Sail Anrhydedd \(Coleg Plismona\), 2020.](#)

Cyngor ar Gam-drin ar Sail Anrhydedd i Ymatebwyr Cyntaf (Coleg Plismona), 2021

[Arferion Proffesiynol Awdurdodedig ar Gam-drin Domestig – Coleg Plismona, 2015.](#)
[Canllawiau ar sut i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod,](#)
[Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM, 2017.](#)

[Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant 2018](#)

[Diogelu plant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso |](#)
[LLYW.CYMRU.](#)

[Diogelu oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso |](#)
[LLYW.CYMRU.](#)

[Gweithdrefnau Diogelu Cymru \(diogelu.cymru\)](#)

10. Gwybodaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).

Mae'r CPS wedi ymrwymo i erlyn yn deg ac effeithiol y rhai y canfyddir eu bod yn niweidio eraill yn enw 'anrhydedd'.

Mae rôl y CPS yn wahanol ac ar wahân i'r heddlu, sy'n ymchwilio i achos unwaith yr adroddir am drosedd. Bydd yr heddlu'n casglu'r dystiolaeth ac yn cyflwyno ffeil i'r CPS, a fydd wedyn yn penderfynu a ddylid erlyn ai peidio. Mae'n ofynnol i erlynyddion adolygu pob achos yn unol â'r prawf dau gam fel y nodir yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, wrth benderfynu a ddylid dwyn erlyniad ai peidio.

Yn gyntaf rhaid i erlynyddion fod yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn yn erbyn pob un a ddrwgdybir ar bob cyhuddiad (y cam tystiolaethol). Os na fydd yr achos yn pasio'r cam tystiolaethol, ni ddylai fynd yn ei flaen, ni waeth pa mor ddifrifol neu bwysig ydyw.

Os bydd yr achos yn pasio'r cam tystiolaethol, rhaid i erlynwyr wedyn fynd ymlaen i benderfynu a oes angen erlyniad er budd y cyhoedd (cam budd y cyhoedd). Fel arfer bydd erlyniad yn digwydd oni bai bod ffactorau lles y cyhoedd yn tueddu yn erbyn yr erlyniad sy'n gorbwyso'r rhai sy'n tueddu o blaid.

I gael rhagor o wybodaeth am yr amddiffyniadau cyfreithiol sydd ar gael mewn achosion priodas dan orfod gweler pennod 16.

Egwyddor Allweddol:

Bydd y rhwymedi sifil yn parhau i fodoli ochr yn ochr â'r sancsiynau troseddol, sy'n golygu y gallai dioddefwr ddewis dilyn y llwybr sifil (h.y. trwy gymryd FMPO), y llwybr troseddol (ei riportio i'r heddlu a dilyn erlyniad, neu'r ddau).

11. Cofrestryddion: Canllawiau

Gall cofrestryddion chwarae rhan hanfodol wrth atal priodasau dan orfod a phartneriaethau sifil rhag digwydd. Mae gan unigolyn sydd eisoes wedi'i orfodi i briodi neu gael partneriaeth sifil ddewisiadau mwy cyfyng, felly rhaid cymryd pob cam i atal y briodas dan orfod neu bartneriaeth sifil rhag digwydd. Mae'r bennod hon wedi'i dylunio i'w defnyddio gan gofrestryddion ac mae'n darparu gwybodaeth ar sut i nodi ac ymdrin ag achosion o briodas dan orfod a phartneriaeth sifil.

Dylai cofrestryddion fod yn ymwybodol o'r rheol "un cyfle" (gweler Pennod 3 am fanylion pellach). Hynny yw, efallai mai dim ond un cyfle y byddant yn ei gael i siarad â dioddefwr neu ddiodeffwr posibl ac efallai mai dim ond un cyfle sydd ganddynt i achub bywyd. Os caniateir i'r dioddefwr adael heb i'r cymorth a'r cyngor priodol gael eu cynnig, gallai'r un cyfle hwnnw gael ei wastraffu.

Mae partneriaethau sifil yn y DU yn fath o undeb sifil a roddir o dan Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, sy'n caniatáu i barau, beth bynnag fo'u rhyw, gael yr un hawliau a chyfrifoldebau â phriodas sifil. Mae'r canllawiau yn y bennod hon yn ymdrin â'r holl ragofynion sifil i briodas a phartneriaeth sifil, yn ogystal â chofrestriadau priodas sifil ac unrhyw gofrestriadau priodasau crefyddol lle mae'n ofynnol i gofrestrydd fod yn bresennol.

11.1 Priodas dan Orfod/Partneriaeth Sifil, Hawliau Dynol a'r Gyfraith

Mae Deddf Achosion Priodasol 1973, adran 12(1)(c) yn nodi y bydd priodas yn **ddirywiadwy** os "na chydysniodd y naill barti na'r llall yn ddilys iddi, boed hynny o ganlyniad i orfodaeth, camgymeriad, diffyg cadernid meddwl, neu fel arall." Mae adran 50 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 yn cynnwys darpariaeth gyfatebol ar gyfer partneriaethau sifil. Mae'r Cofrestrydd Cyffredinol o'r farn y **gall cofrestryddion atal priodas neu bartneriaeth sifil** rhag digwydd os yw'n ymddangos bod un parti i'r briodas neu bartneriaeth sifil heb gydsyniad neu alluedd ac y byddai modd cyfiawnhau hyn ar sail polisi cyhoeddus.

Mae adrannau 1 a 3 o Ddeddf Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Isafswm Oedran) 2022 ('Deddf 2022'), a ddaeth i rym ar 27 Chwefror 2023, yn darparu mai'r oedran lleiaf y caiff rhywun ymrwymo i briodas gyfreithiol neu briodas sifil. partneriaeth yng Nghymru a Lloegr yw 18.

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014, adran 121, yn datgan bod person yn cyflawni trosedd os yw'n "defnyddio trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth at ddiben achosi i berson arall ymrwymo i briodas ac yn credu y gall yr ymddygiad achosi i'r person arall fynd i mewn i'r briodas heb gydsyniad rhydd a llawn." Mae hefyd yn nodi y gellir cyflawni priodas dan orfod os nad oes gan berson alluedd, os yw bygythiadau neu orfodaeth yn chwarae rhan ai peidio. Os ceir y person yn euog, y gosb uchaf yw dedfryd o saith mlynedd o garchar. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn drosedd i ddenu rhywun dramor at ddiben priodas dan orfod. Yn olaf, mae adran 121(3A) o'r Ddeddf, fel y'i mewnosodwyd gan adran 2 o Ddeddf 2022, a ddaeth i rym ar 27 Chwefror 2023, yn datgan bod trosedd wedi'i chyflawni yng Nghymru a Lloegr os yw "person yn cyflawni unrhyw ymddygiad ar gyfer y diben peri i blentyn ymrwymo i briodas cyn pen-blwydd y plentyn yn

ddeunaw oed (pa un a yw'r ymddygiad yn gyfystyr â thrais, bygythiadau, unrhyw fath arall o orfodaeth neu ddichell, a ph'un a yw'n cael ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr ai peidio)". Gan na all priodasau cyfreithiol unrhyw un o dan 18 oed fynd rhagddynt o ganlyniad i adran 1 o Ddeddf 2022, mae'r drosedd is-adran (3A) newydd yn ymarferol yn berthnasol i 'briodasau' traddodiadol nad ydynt yn rhwymol na fyddai cofrestryddion yn eu gweld.

Mae adran 63A o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 yn rhoi'r pŵer i lysoedd teulu wneud Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPO), at ddibenion amddiffyn person rhag cael ei orfodi i briodi neu amddiffyn person sydd wedi'i orfodi i briodi. Mae'n drosedd os yw person, heb esgus rhesymol, yn gwneud unrhyw beth y mae wedi'i wahardd rhag ei wneud gan Orchymyn Amddiffyn Priodi dan Orfod (adran 63CA o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996). Y gosb uchaf yw dedfryd o bum mlynedd o garchar.

Nid yw partneriaeth sifil dan orfod yn drosedd yng Nghymru a Lloegr, ac nid yw FMPOs yn berthnasol i bartneriaethau sifil ychwaith. Ond nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn atal cofrestryddion rhag cymryd y camau priodol o dan Ddeddf 2004, fel yr hyn uchod, ac mae'r cyfeiriadau at bartneriaethau sifil yng ngweddill y bennod hon yn ymwneud â'r cyfrifoldebau hynny.

11.2 Rhoi rhybudd am Briodi neu ffurfio Partneriaeth Sifil

Rhaid i'r ddau barti roi rhybudd yn bersonol, i Gofrestrydd Arolygol yr ardal berthnasol (ar gyfer priodas) neu i'r awdurdod cofrestru perthnasol (ar gyfer partneriaeth sifil) yn yr ardal lle mae'r naill barti neu'r llall yn preswyllo.

Ar y pwynt hwn gall cofrestryddion wneud ymholiadau i ganfod a allai'r briodas neu'r bartneriaeth sifil fod wedi'i gorfodi. Argymhellir y dylai'r ddau barti sy'n bwriadu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil gael eu cyfweld yn breifat, yn annibynnol ar ei gilydd, heb i aelodau o'u teuluoedd neu gymunedau fod yn bresennol. Mae hyn yn rhoi cyfle i swyddogion cofrestru nodi a yw unigolyn dan orfodaeth i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil, h.y. nad yw'n ymrwymo i briodas neu bartneriaeth sifil o'i ewyllys rydd ei hun. Lle bo modd, dylai cofrestryddion drefnu cyfieithydd annibynnol, yn arbennig os oes ganddynt unrhyw bryderon.

11.3 Pryderon ynghylch Galluedd

Mae'r gyfraith yn datgan os nad oes gan berson y galluedd i gydsynio i briodas caiff y briodas honno ei dosbarthu fel un dan orfod. Mae hefyd yn sail i briodas fod yn ddirym. Os bydd swyddog cofrestru, drwy gwestiynu safonol, yn pryderu ynghylch galluedd y naill barti neu'r llall i gydsynio i briodas, dylai'r mater gael ei uwchgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'n bwysig nodi efallai na fydd pobl sydd heb alluedd yn dangos unrhyw arwyddion o orfodaeth neu ofid. Gallant ddweud eu bod am briodi neu ffurfio partneriaeth sifil ac ymddangos yn hapus, ond efallai nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio.

Bydd angen i swyddogion cofrestru ymddwyn yn sensitif a phenderfynu, trwy ddefnyddio cwestiynu agored, a yw'r unigolyn yn deall:

- eu bod yn cymryd rhan mewn seremoni briodas ac yn deall y geiriau a ddefnyddir;
- natur y contract priodas neu bartneriaeth sifil, sy'n golygu bod rhaid i'r person allu deall y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd fel arfer yn gysylltiedig â phriodas neu bartneriaeth sifil.

Os bernir nad oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio i briodas neu bartneriaeth sifil, gellir gosod cafeat i sicrhau nad yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn mynd rhagddi.

Gall yr Uned Priodasau dan Orfod roi cymorth i unigolyn os bydd yn datgelu ei fod yn cael ei orfodi i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil. Gall yr heddlu helpu os yw unigolyn mewn ofn uniongyrchol am ei ddiogelwch. Gall Tîm Gwaith Achos y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol hefyd gynnig cyngor ac arweiniad pellach i swyddogion cofrestru. Cofiwch y gall y naill barti neu'r llall, neu'r ddau, fod yn ddiodefwr. Mewn rhai achosion lle mae gan unigolyn anabledd dysgu, gallai priodas neu bartneriaeth sifil fod wedi'i threfnu er mwyn diwallu anghenion gofal.

11.4 Y Seremoni Briodas

Mae'r gyfraith yn gofyn am gydsyniad y ddau barti i briodas neu bartneriaeth sifil, a rhaid atal neu ohirio priodas neu bartneriaeth sifil os oes pryderon nad yw un neu'r ddau o'r partion yn ymrwmo i briodas o'u gwirfodd neu os oes unrhyw bryderon nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio. Dylai cofrestryddion gyfeirio at eu canllawiau eu hunain ar ohirio neu atal seremonïau.

Os yw Cofrestrydd Arolygol o'r farn bod y naill barti neu'r llall yn gweithredu dan orfodaeth, mae'n ddyletswydd arnynt i ohirio neu atal y digwyddiad a thrafod eu pryderon, yn breifat, gyda'r unigolyn, neu, os oes pryderon ynghylch galluedd, gwneud atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Os yw'r unigolyn yn poeni am ei ddiogelwch, ni ddylai gael ei adael ar ei ben ei hun gydag aelodau o'r teulu neu'r gymuned a dylai Cofrestrwyr geisio sicrhau nad ydynt yn gadael y safle ar eu pen eu hunain neu gyda'u teulu. Yn hytrach, dylid galw'r heddlu/gwasanaethau cymdeithasol.

Nid oes angen seremoni yn achos partneriaeth sifil, felly byddai'n arfer gorau parhau i ddilyn y canllawiau uchod cyn ffurfio partneriaeth sifil. Byddai hyn yn cynnwys gwirio bod yr holl wybodaeth yn gywir o'r amser y rhoddod y cwpl rhybudd a chael sgwrs gyda nhw cyn i'r datganiad partneriaeth sifil gael ei lofnodi.

Arwyddion i chwilio amdanynt:

Mae llawer o'r arwyddion i chwilio amdanynt yr un rhai â'r arwyddion y gall swyddogion cofrestru eu cymryd i ystyriaeth wrth adrodd am briodas neu bartneriaeth sifil ffug. Mae priodas ffug neu bartneriaeth sifil yn un lle nad yw'r berthynas yn ddilys ond mae un parti'n gobeithio cael mantais mewn fudo ohoni. Nid oes perthynas na dibyniaeth yn bodoli. Mae'n bosibl hefyd y caiff un parti ei orfodi neu ei gymell i'r briodas neu bartneriaeth sifil ffug yn erbyn ei ewyllys, er y gallai un neu'r ddau fod yn cydsynio hefyd. Dyma rai ystyriaethau ychwanegol ar gyfer priodasau dan orfod:

- Ydy'r naill barti neu'r llall yn dangos arwyddion o ofid emosiynol?

- Ydy'r naill barti neu'r llall yn dangos arwyddion o niwed corfforol neu ymosodiad?
- A yw'r partiön yng nghwmni aelodau o'r teulu neu'r gymuned wrth roi rhybudd am briodas/partneriaeth sifil?
- Wrth roi rhybudd am briodas/partneriaeth sifil, a yw un parti'n gwneud yr holl siarad neu'n amharod i adael i bobol siarad â'r parti arall ar ei ben ei hun?
- A yw'r partiön heb y gallu i sgwrsio yn yr un iaith?
- A yw un parti yn methu â darparu ffeithiau am y person arall y byddech yn disgwyl iddynt eu gwybod, megis dyddiad geni, galwedigaeth a chyfeiriad?
- A yw honiadau o briodas dan orfod/partneriaeth sifil wedi'u gwneud gan drydydd parti?
- A oes cafeat ar waith ar y system i atal y briodas neu'r bartneriaeth sifil rhag mynd rhagddi?
- A oes unrhyw dystiolaeth o Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPO)? (gweler pennod 16 am ragor o wybodaeth am FMPOs).
- A oes gan y person ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n mynd i ddiwydd?
- A oes dibyniaeth ar y parti arall neu ar aelodau'r teulu ar gyfer tasgau syml yn ymwneud â rhoi rhybudd am briodas neu bartneriaeth sifil?
- A yw'r priod arfaethedig neu aelod arall o'r teulu yn ateb cwestiynau ar ran y parti arall?

Arferion Gorau:

- Tawelwch feddwl yr unigolyn ynghylch cyfrinachedd.
- Siaradwch â'r unigolyn ar ei ben ei hun mewn lle diogel a phreifat os ydych yn bryderus.
- Parchwch a chydabod dymuniadau'r unigolyn.
- Sicrhewch yr ymdrinnir â'r unigolyn mewn modd sensitif a bod eu diwylliant a'u gwerthoedd yn cael eu cydnabod a'u parchu.
- Trefnwch gyfieithydd awdurdodedig a diduedd sy'n siarad iaith yr unigolyn os oes angen. Peidiwch â defnyddio perthynas, ffrind, arweinydd cymunedol neu gymydog fel dehonglydd.
- Ystyriwch unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherson ag anableddau dysgu/salwch meddwl/dementia neu nam gwybyddol.

- Cwestiynwch a oes gennych reswm i gredu nad oes gan y person alluedd i gydsynio neu fod pryderon diogelu.
- Gofynnwch gwestiynau sy'n caniatáu i'r unigolyn ystyried ei anghenion a'i ddewisiadau ei hun ac nid yn unig rhai ei deulu.
- Archwiliwch gyda nhw beth maent yn ei ddeall am briodi neu ffurfio partneriaeth sifil.
- Trafodwch gyda nhw eu rhesymau dros gytuno i'r briodas neu ffurfio partneriaeth sifil.
- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym mhennod 3.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym mhennod 4.
- Ystyriwch roi cafeat ar waith os amheuir priodas dan orfod neu bartneriaeth sifil/mae gorchymyn amddiffyn priodas dan orfod (FMPO) yn ei le neu a oes materion yn ymwneud â galluedd.
- Ystyriwch atgyfeirio i drydydd parti perthnasol (FMU neu'r heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol) am ragor o wybodaeth neu gymorth.
- Rhowch fanylion cyswllt yr FMU a/neu'r heddlu i'r unigolyn.
- Os yw'r unigolyn yn ceisio gadael y safle gydag aelodau o'i deulu a'i gymuned a'ch bod yn credu y gallent fod mewn perygl, ceisiwch atal hyn lle bo modd.

Peidiwch â:

- **Siarad â theulu neu gymuned yr unigolyn os oes gennych bryderon – gallai hyn roi'r unigolyn mewn perygl sylweddol o niwed.**
- **Dibynnu ar aelodau'r teulu neu'r gymuned i weithredu fel cyfieithydd ar eich rhan.**
- **Rhannu gwybodaeth ag unrhyw un, oni bai bod gennych ganiatâd yr unigolyn neu borth cyfreithiol ar gyfer rhannu'r wybodaeth honno (gweler 11.5 isod).**
- **Ceisio cyfryngu rhwng partiön neu rhwng unigolyn a'i deulu. Gall cyfryngu fod yn hynod beryglus a gall roi'r unigolyn mewn perygl difrifol.**
- **Rhagdybio eu bod yn deall goblygiadau'r hyn y maent yn ei wneud.**
- **Rhagdybio caniatâd dim ond oherwydd eu bod yn cytuno i'r dull hwn o weithredu neu'n ymddangos yn falch yn ei gylch, oherwydd efallai nad ydynt yn deall beth yw priodas neu bartneriaeth sifil mewn gwirionedd, neu efallai eu bod wedi cael eu hyfforddi gan drydydd parti.**

11.5 Cyfrinachedd

Mae sicrhau cyfrinachedd yn fater hynod bwysig i unrhyw un sy'n wynebu priodas dan orfod/partneriaeth sifil. Yn ystod cyfweiliad neu seremoni briodas gall cofrestrydd amau bod unigolyn mewn perygl uniongyrchol neu nad oes ganddo'r galluedd meddyliol i gydsynio i'r briodas neu bartneriaeth sifil. Mae'n ddyletswydd ar y cofrestrydd i sicrhau ei fod yn fodlon y gall y briodas neu'r bartneriaeth sifil fynd rhagddi. Yn yr achosion hyn, dylid codi pryderon gyda'r FMU, yr heddlu neu dîm diogelu'r awdurdod lleol.

Lle mae cofrestryddion yn datgelu gwybodaeth, bydd angen iddynt sicrhau ei fod trwy borth cyfreithiol priodol ac mai dim ond gwybodaeth berthnasol sy'n cael ei rhannu. Bydd angen barnu pob achos yn ôl ei amgylchiadau unigol. Bydd angen i gofrestryddion ystyried hefyd, mewn rhai achosion o briodas dan orfod neu bartneriaeth sifil, y gallai datgelu olygu bod yr unigolyn mewn mwy fyth o risg o niwed sylweddol.

Gall yr FMU eich helpu os ydych yn pryderu am faterion cyfrinachedd mewn achosion o briodas dan orfod neu bartneriaeth sifil. Gall Tîm Gwaith Achos y GRO hefyd gynnig cyngor ac arweiniad.

Mae 'My Marriage My Choice' wedi cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau sy'n ddefnyddiol o ran deall priodasau gorfodol pobl ag anableddau dysgu yn well, a materion cydsynio. Gellir dod o hyd iddynt yma:

[My Marriage My Choice – Prifysgol Nottingham](#)

Mae'r FMU hefyd yn darparu cwrs ar-lein am ddim ar ymwybyddiaeth o briodas dan orfod, sydd i'w weld yma:

[Forced Marriage Awareness –Free Course | Virtual College \(virtual-college.co.uk\)](#)

12. Gofal Cymdeithasol Plant: Canllawiau

Sylwch fod y trefniadau ar gyfer diwallu anghenion plant ag anghenion gofal a chymorth yng Nghymru wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mewn rheoliadau a chanllawiau a wneir oddi tani (gweler isod). Yn benodol, mae'r Ddeddf yn cryfhau trefniadau diogelu ar gyfer plant drwy osod "dyletswydd i adrodd" ar bartneriaid perthnasol pan fo ganddynt achos rhesymol i amau bod plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Bydd yn ofynnol i bartneriaid gan gynnwys iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thimau troseddau ieuencid hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddynt achos rhesymol i gredu bod plentyn mewn perygl.

Mae'r Ddeddf yn cyflwyno darpariaethau cyfochrog i bartneriaid perthnasol hysbysu'r awdurdod lleol am rywun yr amheuir ei fod yn oedolyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Ategir hyn gan ddyletswydd newydd i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau i benderfynu a oes angen unrhyw gamau i ddiogelu pobl sy'n wynebu risg. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan yn darparu gwybodaeth am beth y mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

Yng ngweddill y bennod hon, dim ond i Loegr y mae'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol oni nodir yn wahanol.

12.1 Cefndir

Mae gofal cymdeithasol plant yn chwarae rhan hollbwysig wrth amddiffyn buddiannau'r plentyn neu'r person ifanc mewn achosion o briodasau dan orfod. Maent yn darparu cefnogaeth nid yn unig trwy drefnu cymorth ymarferol megis llety a chymorth ariannol, ond hefyd trwy gydweithredu a gweithio ag asiantaethau eraill megis yr heddlu, gweithwyr gofal iechyd ac addysg.

12.2 Sut y gall gofal cymdeithasol plant wneud gwahaniaeth

Gall unrhyw honiad o briodas dan orfod achosi i blentyn ddod o fewn y categori o blentyn mewn angen yn unol ag adran 17 o Ddeddf Plant 1989.⁵¹ Gall honiad o briodas dan orfod hefyd arwain at gynnal ymchwiliad o dan adran 47 o'r Ddeddf. O dan adran 47, pan fydd gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau bod plentyn (sy'n byw yn ei ardal neu a ganfyddir ynddi) yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, mae ganddo ddyletswydd i wneud unrhyw ymholiadau y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol i penderfynu a ddylid cymryd unrhyw gamau i ddiogelu neu hybu lles y plentyn.

⁵¹ Mae Adran 17 Ddeddf Plant 1989 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar bob awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau i blant sydd mewn angen yn eu hardal..

Mae priodas dan orfod yn fath o gam-drin plant sy'n rhoi plant a phobl ifanc mewn perygl o gael eu hesgeuluso, yn gorfforol, yn emosiynol (gan gynnwys yn seicolegol) ac yn rhywiol. Mae gan ofal cymdeithasol plant ddyletswydd i nodi plant sy'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, ac i roi'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i ddiogelu plant. Rhaid i ddiogelwch personol y plentyn neu berson ifanc fod yn hollbwysig.

Dylai awdurdodau lleol, ynghyd â'u partneriaid, ddatblygu a chyhoeddi protocolau lleol ar gyfer asesu plant lle mae pryder ynghylch diogelu. Dylai protocol lleol nodi trefniadau clir ar gyfer rheoli achosion unwaith y caiff plentyn ei atgyfeirio i ofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a dylai fod yn gyson â gofynion canllawiau statudol. Bydd manylion pob protocol yn cael eu harwain gan yr awdurdod lleol wrth drafod a chytuno gyda'r partneriaid diogelu ac asiantaethau perthnasol lle bo'n briodol.

Mae'r awdurdod lleol yn atebol yn gyhoeddus am y protocol hwn ac mae gan bob sefydliad ac asiantaeth gyfrifoldeb i ddeall eu protocol lleol.

Dylai'r protocol lleol adlewyrchu lle bydd asesiadau ar gyfer rhai plant yn galw am ofal penodol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer achosion sy'n ymwneud â phlant sy'n ymwneud â phriodasau dan orfod.

Gellir defnyddio opsiynau diogelu statudol presennol i amddiffyn plentyn sydd mewn perygl o briodas dan orfod, megis Cynlluniau Plentyn mewn Angen, Cynlluniau Amddiffyn Plant, yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus neu achosion gofal. Dylai partneriaid diogelu lleol bob amser ystyried yr amddiffyniad ychwanegol a roddir gan Orchymyn Amddiffyn Priodas Dan Orfod (FMPO), y gellir ei geisio er mwyn amddiffyn plant sydd wedi teithio dramor yn ogystal â'r rheini yn y DU.

12.3 Opsiynau cyfreithiol

Mae amrywiaeth o orchmynion llys y gellir eu defnyddio i amddiffyn plant a phobl ifanc. Os yw'r risg o briodas dan orfod yn uniongyrchol, efallai y bydd angen cymryd camau brys i symud y plentyn neu'r person ifanc o'r cartref er mwyn ei amddiffyn. Mae nifer o ymagweddau at amddiffyn brys, ac efallai y bydd staff yn dymuno cael cyngor gan eu hadran gyfreithiol.

Gall plentyn neu berson ifanc gael ei gynorthwyo gan ofal cymdeithasol plant i gael amddiffyniad o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 a Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997. O dan y Deddfau hyn gellir ceisio'r gorchmynion dilynol:

- FMPO
- Gorchymyn peidio ag ymyrryd
- Gwaharddeb yn erbyn aflonyddu

Unwaith y bydd plentyn neu berson ifanc wedi gadael y wlad, mae'r opsiynau cyfreithiol sydd ar gael i ofal cymdeithasol plant, asiantaethau eraill neu berson arall i adennill y plentyn neu berson ifanc a dod ag ef/hi yn ôl i'r DU yn fwy cyfyngedig. Yn aml, gwneud cais am FMPO yw'r ffordd orau o weithredu.

Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau ac oedran y plentyn gall fod yn briodol i'r awdurdod lleol wneud cais am orchymyn gofal, o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989. Dim ond pan fydd plentyn o dan 17 oed y gellir cael gorchymyn gofal, neu 16 os yw'r plentyn yn briod.

Os na all y person ifanc fod yn destun gorchymyn gofal, gall yr awdurdod lleol, serch hynny, gynorthwyo: naill ai drwy letya'r person ifanc o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989 neu drwy ddarparu gwasanaethau o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu yng Nghymru fel plentyn sydd angen gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae person ifanc sydd wedi bod yn destun priodas dan orfod ac sydd mewn perygl o niwed gan ei deulu yn debygol o ddod o fewn diffiniad a.20 Deddf Plant 1989. Gall y person ifanc, ei hun, ofyn i'r awdurdod lleol am lety. Nid oes angen i'r cais ddod oddi wrth y rhieni.

12.4 Beth i'w wneud pan yw plentyn neu berson ifanc yn ofni y cânt eu gorfodi i briodi

Gall plentyn neu berson ifanc fynd at ofal cymdeithasol plant oherwydd eu bod yn mynd ar wyliau teuluol dramor a'u bod yn pryderu am hyn. Efallai eu bod wedi cael gwybod mai'r pwrpas yw ymweld â pherthnasau, mynychu priodas neu oherwydd salwch taid neu nain neu berthynas agos. Gall y plentyn neu'r person ifanc amau mai ffug yw hwn a bod yna gymhelliad cudd, sef ei orfodi i briodi. Neu efallai bod plant wedi mynegi pryderon i'r ysgol neu weithwyr proffesiynol eraill ynghylch trefniadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu priodas neu eu dyweddiad yn y DU. Gall plant gael eu tynnu allan o'r ysgol neu eu hatal rhag cael mynediad i addysg uwch. Gallant hefyd hunan-niweidio neu geisio lladd eu hunain. Gall fod hanes hefyd o briodas dan orfod o fewn y teulu, ymddygiad sy'n rheoli ymddygiad rhieni neu frodyr a chwiorydd neu fygythiadau o gam-drin domestig a cham-drin ar sail 'anrhydedd'. Dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu ffeithiau llawn yr achos cyn gynted â phosibl. Gweler pennod 2.11 am restr lawn o ddangosyddion rhybuddio.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael ei orfodi i briodi dim ond ar y sail ei fod yn cael ei gymryd ar wyliau teulu estynedig.

Dylai gweithwyr gofal cymdeithasol plant proffesiynol gofio hefyd, yn dilyn cychwyn deddfwriaeth newydd ar 27 Chwefror 2023 (gweler Pennod 2), ei bod yn drosedd gwneud unrhyw beth y bwriedir iddo achosi i blentyn briodi cyn iddo droi'n 18 oed, hyd yn oed os na ddefnyddir gorfodaeth. . Mewn achosion lle na ddefnyddir unrhyw orfodaeth, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn dangos ofn y briodas arfaethedig, ac eto

byddai'r briodas yn parhau i fod yn un dan orfod, a dylai staff gymryd yr achosion hynny mor ddifrifol ag unrhyw un arall.

Ymateb:

- Dilynwch y canllawiau arfer gorau ym **mhennod 3** y dylid eu dilyn ar gyfer pob achos o briodas dan orfod.
- Casglwch wybodaeth fel y nodir ym **mhennod 4**.
- Gwiriwch gofnodion yr heddlu a gofal cymdeithasol am atgyfeiriadau aelodau teulu yn y gorffennol, yn ymwneud er enghraifft â cham-drin domestig, pobl sydd ar goll o fewn y teulu, siblingiaid yn cael eu gorfodi i briodi neu gyfyngiadau afresymol ar blant. Gwiriwch ag ysgolion/colegau am unrhyw bryderon hysbys o fewn y teulu.
- Canfyddwch a oes gan y plentyn genedligrwydd deuol, oherwydd gallai hyn effeithio ar y cymorth y gellir ei gynnig os caiff ei dynnu allan o'r DU.
- Ystyriwch geisio cyngor gan adran gyfreithiol yr awdurdod lleol.
- Ystyriwch gael gorchymyn llys megis FMPO i amddiffyn y plentyn neu berson ifanc neu i'w atal rhag cael ei gymryd dramor.
- Atgyfeiriwch nhw, gyda'u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.

Peidiwch â:

- **Mynd yn uniongyrchol at deulu'r person ifanc, ei ffrindiau, neu'r bobl hynny sydd â dylanwad o fewn y gymuned, gan y bydd hyn yn eu rhybuddio am eich ymholiadau a gallai roi'r person ifanc mewn mwy o berygl.**
- **Awgrymu cyfryngu ar unwaith ar gyfer y teulu neu gynadleddau grŵp teulu mewn ymateb i bryderon ynghylch priodas dan orfod oherwydd y gallai hyn gynyddu'r risg i'r plentyn.**

12.5 Beth i'w wneud pan yw trydydd parti'n adrodd bod plentyn neu berson ifanc wedi'i gludo dramor at ddiben priodas dan orfod

Unwaith y bydd y plentyn dramor, mae'r risgiau i'w diogelwch a'u lles yn cynyddu. Fel gyda phob achos o briodas dan orfod, mae cyfrinachedd a disgresiwn yn hollbwysig. Nid yw'n ddoeth cysylltu â sefydliad tramor ar unwaith i wneud ymholiadau. Os bydd y teulu, drwy eich gweithredoedd, yn dod yn ymwybodol bod ymholiadau'n cael eu gwneud, gallant symud y plentyn neu'r person ifanc i leoliad arall neu symud y briodas dan orfod ymlaen. Er na fydd y plentyn bellach o dan awdurdodaeth Cymru a Lloegr, mae camau y gall gofal cymdeithasol plant eu cymryd, ochr yn ochr â'r heddlu a llysoedd y DU, i amddiffyn a dychwelyd plentyn sydd mewn perygl o briodas dan orfod. Gellir gwneud cais am FMPOs pan yw'r plentyn eisoes allan o'r DU a gellir eu defnyddio'n llwyddiannus i dychwelyd y plentyn. Mae gan ofal cymdeithasol plant hawl awtomatig i wneud cais am FMPO; nid oes angen caniatâd y llys arnynt i wneud hynny. Mae'n bosibl y bydd gofal cymdeithasol plant hefyd yn gallu gweithio gyda sefydliadau lleol i hwyluso cymorth i'r plentyn a'i dychwelyd pan nad yw FMPO yn ymarferol.

* * * * *

Stori Samera

Clywodd Samera, 15 oed o Gaerdydd, fod rhaid iddi fynd i Somalia i ymweld â'i nain a oedd yn sâl. Pan gyrhaeddodd Samera Somalia gollyngodd ei mam hi mewn ysgol breswyl a chymerodd ei phasbort oddi yno. Dywedodd hi wrth Samera nad oedd ganddi hawl i adael nes iddi gytuno i briodi dyn hŷn yr oedd hi wedi cael ei dyweddïo iddo. Roedd y gwarchodwyr yn yr ysgol breswyl yn ymosodol yn gorfforol arni. Roedd Samera wedi cadw ffôn cyfrinachol yn gudd ac wedi llwyddo i ffonio ei ffrind yn y DU. Galwodd ei ffrind ar ofal cymdeithasol plant i adrodd beth oedd wedi digwydd. Gwnaeth gofal cymdeithasol plant gais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod a chyflwynwyd hwn i fam Samera, gan ei gorchymyn i wneud yr holl drefniadau i ddod â Samera yn ôl i'r DU.

* * * * *

Ymateb:

Yn ogystal â'r camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3 ac uchod**:

- Cydgysylltwch â'r heddlu a gwirio adroddiadau presennol ar gyfer personau sydd ar goll. Efallai y byddai'n werth ystyried gwneud adroddiad person ar goll os nad ydych yn gallu canfod ble mae'r plentyn.
- Mynnwch fanylion a chadw cysylltiad â'r trydydd parti rhag ofn i'r person ifanc gysylltu â nhw tra dramor neu ar ôl dychwelyd.
- Ystyriwch ofyn i Swyddog Lles Addysg/Swyddog Presenoldeb Ysgol wneud ymholiadau am absenoldeb y plentyn neu am iddo/iddi dynnu'n ôl o'r ysgol.
- Dylid cymryd gofal mawr i beidio â datgelu gwybodaeth i'r heddlu tramor neu unrhyw sefydliad tramor arall a allai roi'r person ifanc mewn mwy o berygl, er enghraifft datgeliad am gariadon blaenorol/presennol neu bartneriaid yn y DU.
- Rhowch sicrwydd i'r trydydd parti, os yw'r plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei gadw dramor yn dymuno dychwelyd i'r DU (os yw'n ddinesydd Prydeinig), efallai y bydd y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu yn gallu eu cynorthwyo i dychwelyd ac y bydd yn ceisio gwneud hynny cyn gynted â phosibl.
- Perswadiwch y trydydd parti ac eraill i beidio â gwneud ymholiadau a gweithredu'n annibynnol ar ofal cymdeithasol plant a'r heddlu.

12.6 Os yw plentyn neu berson ifanc eisoes wedi cael ei orfodi i briodi

Efallai y bydd adegau pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd at ofal cymdeithasol plant neu'r heddlu oherwydd eu bod eisoes wedi'u gorfodi i briodi. Gall eu priod fod yn y DU neu beidio.

Os yw'r priod eisoes yn y DU yna dylid dilyn y gweithdrefnau diogelu presennol i sicrhau nad yw'r plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin gan ei briod. Gall plant fod mewn perygl arbennig o gael eu cam-drin yn rhywiol gan y gellir disgwyl iddynt gyflawni'r briodas y maent wedi'u gorfodi iddi.

Os nad yw'r priod eisoes yn y DU, efallai y bydd y plentyn yn pryderu y bydd yn cael ei orfodi i weithredu fel noddwr i'w briod fewnfudo i'r DU unwaith y bydd yn 18 oed.

Gall wynebu'r teulu fod yn hynod beryglus i'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai na fyddant yn cael y gefnogaeth y maent yn gobeithio amdano ac efallai y bydd pwysau pellach yn cael ei roi arnynt i gefnogi'r cais am fisa. Trafodwch risgiau o'r fath gyda'r plentyn neu'r person ifanc er mwyn eu diogelu.

Gall priod sy'n ddioddefwr priodas dan orfod gychwyn achos dirymu unrhyw bryd, neu achos ysgariad pan fydd mwy na blwyddyn wedi mynd heibio ers y briodas. Dylid hysbysu'r plentyn neu berson ifanc na fyddai ysgariad crefyddol yn dod â'r briodas i ben o dan gyfraith y DU.

Os yw'r person ifanc o dan 18 oed, yn bresennol yn y DU heb ei deulu, ac yn datgan iddo gael ei orfodi i briodi ac nad yw'n dymuno aros gyda'i briod, yna dylai gofal cymdeithasol plant ystyried y plentyn neu'r person ifanc yn yr un modd â phlentyn dan oed sy'n ceisio lloches ar ei ben ei hun, a dylai letya'r person ifanc o dan a.20 Deddf Plant 1989 neu Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Cylchlythyr Awdurdodau Lleol (LAC) 2003 (13) yn nodi, pan nad oes gan blentyn riant neu warcheidwad yn y wlad hon, y dylid rhagdybio y byddai'r plentyn yn dod o fewn cwmpas a.20 Deddf Plant 1989 ac yn dod yn blentyn sy'n "derbyn gofal" gan awdurdod lleol, oni bai bod yr asesiad o anghenion yn datgelu ffactorau penodol a fyddai'n awgrymu nad yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal.

Os yw'r person ifanc o dan 18 oed a bod ganddo blant, dylid ei ystyried yn blentyn ar ei Ben ei Hun o hyd. Mae gan unrhyw un sydd wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros, absenoldeb ffoadur, amddiffyniad dyngarol, caniatâd yn ôl disgrisiwn neu sydd â hawl i breswyllo yn y DU yr un hawliau i arian cyhoeddus â dinesydd Prydeinig.

Nid yw cyllid ar gyfer cyngor cyfreithiol ('cymorth cyfreithiol') yn cael ei gyfrif fel arian cyhoeddus, a gall fod gan blant a phobl ifanc hawl i gael cymorth cyfreithiol beth bynnag fo'u statws mewnfudo.

Efallai y bydd gan ofal cymdeithasol plant y pŵer i wneud taliadau yn ôl disgrisiwn. Nid yw'r taliadau hyn yn cyfrif fel arian cyhoeddus.

Gall cofnodion a datganiadau gofal cymdeithasol plant fod yn dystiolaeth hanfodol mewn achos mewnfudo plentyn neu berson ifanc. Gellir gosod y dystiolaeth hon gerbron gwrandawriad mewnfudo a gellir galw gofal cymdeithasol plant fel tyst.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.

- Cofnodwch fanylion llawn y person ifanc ynghyd â manylion y briodas gan gynnwys dyddiad a lleoliad.
- Cofnodwch enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r priod ynghyd â dyddiadau cyfweld ar gyfer ei fisa (os yw'n hysbys).
- Cyfeiriwch at yr FMU os oes gan y briodas ddimensiwn tramor neu os oes gan y plentyn neu'r person ifanc bryderon bod eu priod yn cael fisa.
- Os oes angen cyngor cyfreithiol penodol arnynt, awgrymwch eu bod yn ymgynghori'n annibynnol â chyfreithiwr panel teulu.
- Os nad yw'r plentyn neu berson ifanc am ddychwelyd i gartref y teulu, yna dylid llunio strategaeth ar gyfer gadael cartref a thrafod cyngor diogelwch personol.
- Os yw'r plentyn neu'r person ifanc yn dymuno aros yn y cartref teuluol, ceisiwch gadw mewn cysylltiad heb ei roi mewn perygl ac ystyriwch a oes angen FMPO neu orchymyn amddiffyn arall i helpu i fonitro'r sefyllfa.
- Defnyddiwch rwymediâu cyfreithiol (gweler pennod 16) i amddiffyn y plentyn neu berson ifanc rhag aelodau o'r teulu os yw'n penderfynu gadael cartref y teulu neu'n dymuno i'r priod adael cartref y teulu.

12.7 Pan yw plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddychwelyd

Weithiau gall yr FMU ofyn i ofal cymdeithasol plant am gymorth pan yw plentyn neu berson ifanc yn cael ei ddychwelyd i'r DU o dramor.

Yn yr achosion hyn, gall y plentyn neu'r person ifanc fod wedi'i drawmateiddio ac yn ofnus iawn. Efallai eu bod wedi cael eu dal yn erbyn eu hewyllys am fisoedd lawer ac efallai eu bod wedi dioddef cam-drin emosiynol a chorfforol gan gynnwys treisio, weithiau dro ar ôl tro neu hyd nes iddynt feichiogi. Weithiau bydd plentyn neu berson ifanc wedi peryglu eu bywyd i ddianc a gall eu teulu fynd i gryn drafferthion i ddod o hyd iddynt. Mae hyn yn gwneud pob dioddefwr yn arbennig o agored i niwed pan ydynt yn dychwelyd i'r DU.

Pan yw plentyn neu berson ifanc sy'n ddinesydd Prydeinig yn cyrraedd, neu'n cysylltu â Llysgenhadaeth neu Uchel Gomisiwn Prydain, gall yr FCDO geisio eu dychwelyd ar y cyfle cyntaf os yn bosibl. Bydd yr FCDO bob amser yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i ofal cymdeithasol pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn cyrraedd, er weithiau, oherwydd brys y sefyllfa, mae'r rhybudd yn gyfyngedig.

Cyn belled ag y bo modd, bydd yr Uned Rheoli Troseddwy'r yn gweithio gyda'r awdurdod perthnasol yn y DU sy'n gwneud cais am FMPO, i geisio sicrhau bod costau dychwelyd yn disgyn ar y troseddwy'r. Lle nad yw'r awdurdod perthnasol o'r farn bod hyn yn ddiogel, neu'n briodol, bydd yr FMU yn nodi ffynonellau cymorth posibl eraill. Ni ddylai cost dychwelyd achosi oedi i ddioddefwr sy'n ceisio, neu'n derbyn, cymorth i wneud hynny.

Efallai y bydd angen cymorth ymarferol ar y plentyn neu'r person ifanc, er enghraifft arian parod brys, dillad a deunydd ymolchi. O dan adran 17 Deddf Plant 1989, gall gwasanaethau gofal cymdeithasol wneud taliad ar gyfer plentyn mewn angen, gan

gynnwys cost llety. Dylai'r awdurdod lleol y bu'r plentyn neu'r person ifanc yn byw ynddo'n barhaol ddiwethaf ddarparu cyllid adran 17.

Ymateb

- Trefnwch i rywun hebrwng y plentyn drwy'r maes awyr ymadael, er enghraifft heddlu'r maes awyr, staff y cwmni hedfan neu staff y maes awyr.
- Trefnwch i rywun gwrdd â'r plentyn neu berson ifanc yn y neuadd gyrraedd, er enghraifft gweithiwr cymdeithasol, swyddog heddlu neu oedolyn dibynadwy, cydymdeimladol. Lle bo angen, cysylltwch ag asiantaeth gymorth genedlaethol briodol am gyngor pellach ar gynorthwyo dioddefwyr priodas dan orfod sydd wedi dychwelyd.
- Rhwng wybod i'r heddlu os oes risg y bydd aelodau'r teulu yn ceisio cipio'r person ifanc yn y maes awyr.
- Ystyriwch ddefnyddio cyllid adran 17, Deddf Plant 1989 ar gyfer eitemau hanfodol a gofal personol
- Ystyriwch a yw'n briodol gwneud cais am EPO neu orchymyn gofal interim.
- Trefnwch lety diogel a sicr.

12.8 Pan nad yw'n ddiogel i blentyn ddychwelyd at ei deulu

Pan yw asesiad o anghenion y plentyn yn nodi bod posibilrwydd bod plentyn yn dioddef niwed sylweddol y gellir ei briodoli i ofal rhiant – sy'n aml yn wir pan yw rhieni'n gorfodi plentyn i briodi – yna rhaid i'r awdurdod lleol ystyried cymryd camau cyfreithiol i amddiffyn y plentyn. Gallai hyn gynnwys cais am EPO a/neu gais am orchymyn gofal fel bod y plentyn yn dod yn blentyn sy'n "derbyn gofal" gan yr awdurdod lleol. Mae hyn i bob pwrpas yn golygu y bydd yr awdurdod lleol yn rhannu cyfrifoldeb rhiant ac yn nodi lle gallai'r plentyn fyw'n ddiogel.

Fel arall, os na all y person ifanc fod yn destun gorchymyn gofal, caiff yr awdurdod lleol gynorthwyo drwy roi llety i'r person ifanc o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989.

Gall unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn symud y plentyn ar unrhyw adeg o lety a ddarperir gan neu ar ran yr awdurdod lleol o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989.

Os yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant yn ceisio symud y plentyn neu'r person ifanc o'r llety a ddarperir gan yr awdurdod lleol, efallai y bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried cymryd camau cyfreithiol brys i sicrhau bod y plentyn yn cael ei ddiogelu.

Cynllunio Gofal

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gorfodi i briodi a'r rhai sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd oherwydd eu bod yn gwrthod derbyn priodas dan orfod yn aml angen llety tymor hir i'w helpu i fyw i ffwrdd o'u teuluoedd a dechrau bywyd newydd.

Rhaid i bob plentyn sy'n derbyn gofal gael cynllun gofal, sy'n cynnwys gwybodaeth am ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol y plentyn a pha gymorth sydd ar gael drwy leoliad gofal i ddiwallu anghenion y plentyn. Mae'n bwysig sicrhau bod cynllun

gofal y plentyn yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r niwed penodol y mae'r plentyn wedi'i ddioddef o ganlyniad i ymdrechion i'w orfodi i briodi.

Os gwneir penderfyniad i leoli plentyn neu berson ifanc gyda theulu maeth, efallai na fydd yn briodol iddo fyw gyda gofalwr maeth o'r un gymuned â'i deulu biolegol. Mae'r rheoliadau presennol⁵² yn ei gwneud yn glir, er y dylid gofalu am blant mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn parchu eu hunaniaeth unigol, mai dim ond ffactorau i'w hystyried wrth nodi'r teulu maeth gorau ar gyfer plentyn yw eu hethnigrwydd, diwylliant, crefydd a chefnidir ieithyddol. Mae'n bosibl y bydd plentyn neu berson ifanc sy'n dod i ofal angen, ac eisiau, cael ei leoli y tu allan i'w ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau ei fod yn teimlo'n ddiogel a'i fod yn cael ei amddiffyn rhag niwed, yn arbennig pan fo risg o briodas dan orfod wedi'i nodi. Mae lleoliadau o'r fath yn galw am gynllunio effeithiol, ymgysylltu a rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdod lleol sy'n lleoli a'r gwasanaethau sy'n lleol i'r lleoliad, gan gynnwys, er enghraifft, y Penaethiaid Ysgol Rhithwir lleol neu'r cydlynnydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE), a all helpu i nodi darpariaeth ysgol briodol.

Mae gan Swyddog Adolygu Annibynnol (IRO) penodedig y plentyn rôl hanfodol mewn penderfyniadau lleoli. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod trafodaethau sy'n briodol i'w hoedran yn cael eu cynnal gyda'r plentyn am ei ofal a'i gefnogi i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth, os oes angen. Mae'n hanfodol bod eu barn yn cael ei cheisio a bod rhywun yn gwrando arni fel rhan o'r broses benderfynu honno.

Efallai na fydd yn briodol trafod y lleoliad gyda pherthnasau neu rieni'r plentyn, yn arbennig pan yw'r plentyn wedi'i nodi fel un sydd mewn perygl o briodas dan orfod. Bydd eu rôl wrth wneud penderfyniadau yn cael ei phennu i raddau helaeth gan y gorchymyn gofal sydd ar waith yn ogystal â'r ffordd y mae'r plentyn yn parhau i ddod i gysylltiad â'i deulu.

Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn neu'r person ifanc wrth gynllunio ar gyfer ei ofal ac, unwaith y bydd yn teimlo'n ddiogel, efallai y bydd am symud i lety mwy annibynnol. Bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am helpu i nodi opsiynau ar gyfer llety'r person ifanc yn y dyfodol a'i gefnogi yn ystod y cyfnod pontio hwn. Yn dibynnu ar faint o amser y bydd wedi bod yn "derbyn gofal", efallai y bydd gan y person ifanc hawl i gefnogaeth barhaus gan wasanaethau gadael gofal. Mae hyn yn golygu os yw person ifanc wedi bod yn "derbyn gofal" gan yr awdurdod lleol am 13 wythnos neu fwy, hyd yn oed os yw'r person ifanc yn peidio â bod yn "derbyn gofal", mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd o hyd i'w gefnogi.

Dylai Ymgynghorwyr Personol sicrhau bod Cynlluniau Llwybr yn eu lle ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn mynd i'r afael yn ddigonol ag unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cymunedol neu deuluol sy'n weddill wrth iddynt symud tuag at annibyniaeth. Efallai y bydd angen iddynt gynorthwyo pobl ifanc i gymryd camau iarios yn ddienw, megis trwy newid eu henw neu rif Yswiriant Gwladol.

Ystyriwch Bob Amser:

- Ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (gyda chyfraniad y plentyn neu'r person ifanc), ai lleoliad y tu allan i'r ardal fyddai'r lleoliad mwyaf addas.

⁵² [Deddf Plant 1989: cynllunio gofal, lleoli ac adolygu achosion - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk), ac ar gyfer Cymru gweler Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

- Ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, sicrhau bod gan Benaethiaid Ysgol Rhithwir, Arweinwyr Diogelu Dynodedig, LACEs ac IROs fynediad at y canllawiau hyn.
- Ar gyfer plant sy'n cael eu lletya o dan a.20, gyda chaniatâd y plentyn neu'r person ifanc, eu lletya neu eu hadleoli o fewn awdurdod lleol gwahanol os mai dyma'r lleoliad mwyaf addas. Efallai y bydd hyn yn galw am gyfnod pontio pan fydd angen negodi cyllid a chymorth.
- Atgyfeirio nhw, gyda'u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a (lle bo'n berthnasol) grwpiau menywod sydd â hanes o weithio gyda goroewyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.
- Cymryd camau gweithredol i sicrhau bod hunaniaeth y plentyn neu'r person ifanc, ynghyd â'i fudd-daliadau a chofnodion eraill, yn cael eu cadw'n gyfrinachol a bod y plentyn yn cael ei ddiogelu rhag unrhyw droseddwy'r o fewn y teulu. Gall hyn olygu⁴⁷ ceisio cyngor cyfreithiol i blentyn neu berson ifanc newid ei enw a'i rif Yswiriant Gwladol.

12.9 Pan yw priod wedi dod i'r DU o dramor

Gall priod ddod i'r DU o dramor a dweud ei fod wedi cael ei orfodi i briodi dramor. O ganlyniad, efallai eu bod yn dioddef cam-drin domestig neu efallai eu bod wedi rhedeg i ffwrdd. Mae'n bosibl na fydd y plentyn neu'r person ifanc yn siarad Saesneg ac efallai nad yw'n ymwybodol o'r cymorth y gallai fod ganddo hawl iddo. Unwaith eto, gellir adrodd am yr achosion hyn i ymarferwyr i ddechrau fel achosion o gam-drin domestig, pobl ar goll neu amddiffyn plant.

Os nad oes gan berson ifanc ganiatâd mynediad amhenodol (ILE), caniatâd amhenodol i aros (ILR), amddiffyniad dyngarol, caniatâd dewisol neu hawl i breswyllo yn y DU, yna mae'n debygol o fod yn destun cyfyngiad mynediad. i arian cyhoeddus.

Mae'n bosibl na fydd ymarferwyr yn ymwybodol bod gan berson ifanc sy'n briod hawl i gymorth ac y dylid ei ystyried yn blentyn ar ei ben ei hun o hyd – felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau penodol i ddarparu cymorth a lletya ar eu cyfer (gweler y sefyllfa gyfreithiol isod).

Ymateb

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.
- Casglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sy'n ofynnol ym **mhennod 4**.
- Sicrhewch yr ymdrinnir â'r plentyn neu berson ifanc mewn modd sensitif a bod eu dymuniadau, diwylliant a gwerthoedd yn cael eu cydnabod a'u parchu.
- Cofnodwch unrhyw anafiadau a threfnu archwiliad meddygol.
- Trefnwch fod cyfieithydd awdurdodedig yn siarad tafodiaith y plentyn neu'r person ifanc. Os oes angen, mynnwch ganiatâd gan y plentyn neu berson ifanc trwy Language Line. Sefydlwch unrhyw hoffterau o ran rhyw y cyfieithydd.

- Atgyfeiriwch nhw, gyda’u caniatâd, i grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol priodol, gwasanaethau cwnsela a (lle bo’n berthnasol) grwpiau menywod sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.
- Os credwch fod angen cyngor ar fewnfudo, atgyfeiriwch nhw i asiantaeth cymorth priodol, cynghorydd mewnfudo a gymeradwyir gan OISC neu gyfreithiwr.
- Rhowch fanylion cyswllt ysgrifenedig y gweithiwr cymdeithasol sy'n trin eu hachos i'r plentyn neu'r person ifanc i'w rhoi i'w cyfreithiwr.
- Os oes gan y plentyn neu berson ifanc anabledd bydd ganddo hawl i asesiad o'i anghenion.
- Ystyriwch atgyfeiriad Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol os yw'r plentyn wedi'i ddwyn i'r DU yn benodol at ddiben priodas dan orfod neu fathau eraill o fasnachu mewn pobl.

Peidiwch â:

- **Defnyddio perthynas, ffrind, arweinydd cymunedol neu gymydog fel dehonglydd - er gwaethaf unrhyw sicrwydd gan y person hysbys hwn. Gall gwybodaeth yn y cyfweiliad gael ei rhoi i aelodau eraill o'r gymuned a rhoi'r person ifanc mewn perygl o niwed.**
 - **Ceisio rhoi cyngor ar fewnfudo i'r plentyn neu'r person ifanc. Mae'n drosedd i unrhyw berson anghymwys roi'r cyngor hwn.**
-

12.10 Diogelu plant a phobl ifanc anabl

Fe fu adroddiadau bod plant a phobl ifanc ag afiechyd meddwl, neu anableddau dysgu a chorfforol, yn cael eu gorfodi i briodi. Er mwyn dod o hyd i briod, gall rhieni dderbyn priod y byddent fel arfer yn ei ystyried yn annerbyniol - megis rhywun o gast neu grŵp cymdeithasol is. Weithiau, er mwyn sicrhau nad yw darpar briod yn cael ei ddigalonni, gall teuluoedd geisio cuddio, peidio â phwysleisio neu fychanu anabledd plentyn neu berson ifanc. Cymhelliad arall dros orfodi plentyn neu berson ifanc ag anabledd i briodi yw gwneud yn siŵr y bydd ganddynt rywun i ofalu amdanynt ar ôl i'w rhieni farw.⁵³

Ni fydd gan rai plant a phobl ifanc ag anabledd y galluedd i gydsynio i briodas. Yn wir, ni all plant dan 18 oed yng Nghymru a Lloegr yn gyfreithiol yn y DU gydsynio i briodas (yr oedran yw 16 yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn yr achos olaf os oes caniatâd rhiant neu farnwrol) Efallai y bydd gan eraill alluedd ond eu bod yn hawdd eu gorfodi neu eu twyllo i briodas. Mae'n bosibl na fydd rhai'n gallu cydsynio i gyflawni'r briodas – mae cyfathrach rywiol heb ganiatâd yn drosedd rywiol ddifrifol, er enghraifft treisio. Mae amrywiaeth o droseddau o fewn Deddf Troseddau Rhywiol 2003 i gipio gweithgaredd rhywiol nad yw'n gydsyniol, gan gynnwys achosi i berson gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd, a cham-drin rhywiol neu

⁵³Ymddiriedolaeth Ann Craft (2012) Forced Marriage of People with Learning Disabilities: Adroddiad Terfynol My Marriage, My Choice (2018) Crynodeb o Ganfyddiadau

ecsbloetio'r rhai ag anhwylder meddwl, a'r rhai ag anhwylder meddwl sy'n rhwystro dewis.

Mae plant a phobl ifanc anabl yn arbennig o agored i briodas dan orfod oherwydd eu bod yn aml yn dibynnu ar eu teuluoedd am ofal. Efallai fod ganddynt anawsterau cyfathrebu ac efallai y byddant yn cael llai o gyfleoedd i ddweud wrth unrhyw un y tu allan i'r teulu beth sy'n digwydd iddynt.

Mae'r holl fesurau diogelu sydd ar waith i amddiffyn plant nad ydynt yn anabl rhag priodas dan orfod yn berthnasol i blant anabl. Fodd bynnag, mae arfer da yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau roi sylw penodol i ffactorau a all sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anabledau yn cael eu cefnogi i helpu eu hunain, ac i nodi lle na allant wneud hynny.

Dylai arfer da gynnwys:

- Gwrando ar blant a phobl ifanc anabl a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i fynegi pryderon – ystyriwch bob amser a oes angen arbenigwr cyfathrebu os yw plentyn neu berson ifanc yn fyddar, â nam ar ei olwg neu â nam cyfathrebu.
- Sicrhau bod gan blant a phobl ifanc anabl fynediad at oedolion y tu allan i'r teulu y gallant droi atynt am gymorth.
- Cynnal asesiadau galluedd meddyliol pan fo pryderon nad oes gan rywun 18 oed neu hŷn y galluedd i gydsynio i briodas (neu, os yw'n 16 oed neu'n hŷn, i gydsynio i berthnasoedd rhywiol.
- Darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am briodasau dan orfod ymhlith staff sy'n gofalu am blant a phobl ifanc anabl.

Diffinnir plant a phobl ifanc anabl fel “plant mewn angen” o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989. Mae adolygiad 2018 o'r canllawiau statudol, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant', yn rhoi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer dyletswyddau awdurdodau lleol ar gyfer diogelupob plentyn, gan gynnwys plant anabl.

Mae deddfwriaeth a chanllawiau allweddol eraill yn cynnwys:

- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant – Llywodraeth EM, 2018
- 'Beth i'w wneud os ydych yn poeni bod plentyn yn cael ei gam-drin' – Llywodraeth EM, 2006
- Deddf Plant (1989)
- Deddf Plant (2004)
- Deddf Digartrefedd (2002)
- Deddfau Troseddau Rhyw (1956 a 2003)
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Yng Nghymru:

- [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant Mewn Perygl](#)
- [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#)

- [Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan - Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n gysylltiedig â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoeliaeth](#)

13. Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Canllawiau

Sylwch fod y trefniadau ar gyfer diwallu anghenion oedolion ag anghenion gofal a chymorth yng Nghymru wedi'u nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mewn rheoliadau a chanllawiau a wneir oddi tani (gweler isod). Yn benodol, mae'r Ddeddf yn cryfhau trefniadau diogelu ar gyfer oedolion drwy osod "dyletswydd i adrodd" ar bartneriaid perthnasol pan fo ganddynt achos rhesymol i amau bod oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio. Bydd yn ofynnol i bartneriaid gan gynnwys iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a thimau troseddau ieuencid hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddynt achos rhesymol i gredu bod oedolyn mewn perygl.

Ategir hyn gan ddyletswydd newydd i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau i benderfynu a oes angen unrhyw gamau i ddiogelu pobl sy'n wynebu risg.

Yng ngweddill y bennod hon, dim ond i Loegr y mae'r wybodaeth a ddarperir yn berthnasol oni nodir yn wahanol.

13.1 Cefndir

Gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth fod yn arbennig o agored i briodas dan orfod.⁵⁴

Er mwyn dod o hyd i briod ar gyfer oedolyn ag anghenion gofal a chymorth, gallai rhieni dderbyn priod y byddent fel arfer yn ei ystyried yn annerbyniol - megis person o gast neu grŵp cymdeithasol is. Weithiau, er mwyn sicrhau nad yw darpar briod yn cael ei ddigalonni, gall teuluoedd geisio cuddio, peidio â phwysleisio neu fychanu anabledd person. Cymhelliad arall dros orfodi oedolyn y mae angen gofal a chymorth arno i briodi yw gwneud yn siŵr y bydd ganddo rywun i ofalu amdano pan na fydd ei rieni'n gallu gwneud hynny mwyach. Weithiau nid yw teuluoedd yn ystyried bod 'trefnu' priodas ar gyfer mab neu ferch sydd heb alluedd i gydsynio yn briodas dan orfod. Maent yn aml yn credu eu bod yn gwneud y peth 'cywir', yn arbennig os nad yw 'grym' yn nodwedd o'r briodas.

⁵⁴Yn flaenorol, mae'r term "oedolyn agored i niwed" wedi cael ei ddefnyddio weithiau i ddisgrifio person dros 18 oed "sydd, neu a allai fod, angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddwl neu anabledd arall, oedran neu salwch ac sydd, neu a allai fod, yn methu â gofalu amdano'i hun, neu'n methu ag amddiffyn ei hun rhag niwed sylweddol neu ecsbloetio." (No Secrets: Guidance on developing and implementing multi-agency policies and procedures to protect vulnerable adults from abuse, HO a DH, 2000; ac Mewn Dwylo Diogel: Gweithredu Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion yng Nghymru, Gorffennaf 2000 (LIC)) Cydnabyddir bod y term "oedolyn agored i niwed" yn annerbyniol i rai pobl ag anableddau gan mai pobl eraill, yr amgylchedd ac amgylchiadau cymdeithasol yn aml sy'n gwneud pobl ag anableddau yn agored i niwed ac nid eu hanabledd fel y cyfryw. Felly, defnyddir y term "oedolyn ag anghenion gofal a chymorth" drwy gydol y ddogfen hon i gyfeirio at y rhai sy'n dod o fewn y diffiniad a dderbynnir yn gyffredin o "oedolyn agored i niwed".

Efallai na fydd gan rai oedolion ag anghenion gofal a chymorth y galluedd meddyliol i gydsynio i briodas (gweler pennod 7: Cefnogi Dioddefwyr ag Anableddau Dysgu). Mae'n bosibl na fydd rhai'n gallu cydsynio i gyflawni'r briodas – mae cyfathrach rywiol heb ganiatâd yn drosedd rywiol ddifrifol. Mae gorfodi, cymell neu hwyluso person â nam ar ei alluedd i ddewis cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol heb ganiatâd hefyd yn drosedd o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Yn ogystal, gall y priod hefyd ddod yn ddioddefwr niwed corfforol, rhywiol neu emosiynol.

Gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth fod yn arbennig o agored i niwed os ydynt yn dibynnu ar eu teuluoedd am ofal – efallai fod ganddynt anawsterau cyfathrebu, efallai fod ganddynt lai o gyfluoedd i ddweud wrth unrhyw un y tu allan i'r teulu beth sy'n digwydd iddynt, neu efallai nad ydynt yn sylweddoli bod y briodas yn un dan orfod.

13.2 Sut y gall gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol oedolion wneud gwahaniaeth

Mae Deddf Gofal 2014 yn gosod diogelu oedolion ar gyfer unigolion ag anghenion gofal a chymorth ar sail statudol (yng Nghymru mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn berthnasol). Mae'r ddwy Ddeddf yn amlygu'r angen am gydweithredu a phartneriaeth ar draws sefydliadau i atal cam-drin ac esgeuluso oedolion ag anghenion gofal a chymorth. Os yw'n ymddangos bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu'n profi cam-drin neu esgeulustod ac yn methu ag amddiffyn ei hun, yna o dan Adran 42 o Ddeddf Gofal 2014, rhaid i'r awdurdod lleol gynnal ymholiadau diogelu. (Mae cyfrifoldebau tebyg yn berthnasol o dan adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.) Mae gan asiantaethau rôl i'w chwarae i sicrhau bod oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn gallu helpu eu hunain. Dylai arfer da gynnwys:

- Gwrando ar oedolion ag anghenion gofal a chymorth – yn arbennig y rheini ag anableddau dysgu a phroblemau ynghylch galluedd meddyliol – a gwneud yn siŵr eu bod yn gwybod sut i godi pryderon.
- Sicrhau bod oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn gallu cael mynediad at oedolion y gallant ymddiried ynddynt neu weithwyr proffesiynol y tu allan i'r teulu y gallant droi atynt am gymorth.
- Darparu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am briodas dan orfod ymhlith staff sy'n gofalu am ac yn cefnogi oedolion ag anghenion gofal a chymorth.

Mae rhai achosion o briodas dan orfod yn digwydd yn y DU; mewn achosion eraill gellir mynd ag oedolyn ag anghenion gofal a chymorth dramor a'i orfodi i briodi. Yn y naill sefyllfa neu'r llall, dylai gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol oedolion, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, fod yn barod i roi arweiniad i'r person am ei hawliau a'r dewisiadau sydd ar gael iddo, ac i gymryd camau mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i'w amddiffyn rhag niwed.

Bydd gan bob Awdurdod Lleol brotocolau a gweithdrefnau lleol i amddiffyn oedolion ag anghenion gofal a chymorth rhag cael eu cam-drin. Mae'r Ddeddf Gofal yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Bwrdd Diogelu Oedolion (SAB) er mwyn rhoi sicrwydd bod trefniadau diogelu lleol a phartneriaid yn gweithredu i helpu ac amddiffyn oedolion y maent yn amau eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Mae gan Gymru Fyrddau Diogelu Oedolion rhanbarthol a'u

swyddogaeth yw atal, ac amddiffyn oedolion ag anghenion gofal a chymorth, rhag cam-drin neu esgeulustod. Mae deddfwriaeth a chanllawiau allweddol yn cynnwys:

- Deddf Priodasau dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007
- Deddf Gofal 2014
- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990
- Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003
- Deddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Yng Nghymru:

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 4 – Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion 2016
- Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 6 – Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion sy'n wynebu risg 2018
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru: Oedolion mewn perygl

13.3 Y sefyllfa gyfreithiol

Os nad oes gan unigolyn y galluedd i gydsynio i briodas, ni chaiff neb arall wneud y penderfyniad i briodi ar ei ran. Felly ni allant briodi'n gyfreithiol. Un ffordd o weithredu yw i'r awdurdod lleol wneud cais i'r Llys Gwarchod o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 am orchmynion i'w hamddiffyn (rhyddhad datganiadol). Os yw'n fodlon bod yr oedolyn heb alluedd gall y llys ganiatáu datganiad i'r perwyl hwn. Gall y llys hefyd roi gwaharddeb(au) i atal aelodau'r teulu rhag trefnu priodas ar eu cyfer neu i'w hatal rhag cael eu cymryd dramor at ddiben priodas.⁵⁵

Os yw oedolyn yr amheuir bod ganddo anabledau dysgu wedi gadael y wlad a bod amheuaeth y bydd yn cael ei orfodi i briodi ac nad yw'n hysbys a yw heb y galluedd i gydsynio i briodas, argymhellir y dylid ystyried gwneud cais am Orchymyn Diogelu

⁵⁵ Cyfeiriwch at y "Nodyn Ymarfer: Cyfreithiwr Swyddogol: Achosion Datganiadol: Penderfyniadau Meddygol a Lles ar gyfer Oedolion heb Alluedd" sydd ar gael ar wefan y Cyfreithiwr Swyddogol yn www.officialsolicitor.gov.uk

Priodas dan Orfod. (FMPO) i sicrhau eu bod yn cael eu dychwelyd. Yn dilyn hynny, byddai angen cynnal asesiad galluedd i bennu eu galluedd i gydsynio i briodas.

Er y gall oedolyn ag anghenion gofal a chymorth wneud cais yn ei enw ei hun, gan weithredu gyda chymorth “ffrind cyfreitha”, efallai na fydd mewn sefyllfa i gymryd camau o’r fath oherwydd ei amgylchiadau personol. Yn yr achos hwn, efallai y bydd angen i chi ystyried a ddylai’r awdurdod lleol wneud hynny.

Gall priod sy’n ddioddefwr priodas dan orfod gychwyn achos dirymu (cyn belled â bod hwn yn cael ei gychwyn o fewn tair blynedd i ddyddiad y briodas) neu achos ysgariad er mwyn dod â’r briodas i ben. Dylid eu hysbysu na fyddai ysgariad crefyddol yn dod â’r briodas i ben o dan gyfraith y DU.

Gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth hefyd gymryd camau i amddiffyn eu hunain o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 a Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997. O dan y Deddfau hyn gellir ceisio’r gorchmynion dilynol:

- FMPO
- Gorchymyn peidio ag ymyrryd
- Gorchymyn meddiannaeth
- Gwaharddeb yn erbyn aflonyddu

* * * * *

Stori Irfan

Mae gan Irfan, 29, o Leeds, anabledd dysgu ac mae'n defnyddio canolfan ddydd bedwar diwrnod yr wythnos. Daeth offeiriad at dad Irfan a ddywedodd wrtho y byddai anabledd ei fab yn gwella pe byddai’n mynd dramor ac yn priodi nith yr offeiriad Miriam. Dychwelodd tad Irfan i gartref y teulu i gynllunio'r briodas. Dywedodd wrth y ganolfan y byddai Irfan yn teithio allan o'r wlad i briodi. Yn ffodus, adroddodd staff y ganolfan ddydd y wybodaeth hon i weithiwr cymdeithasol Irfan. Ymdriniodd y gweithiwr cymdeithasol â hyn fel mater diogelu a chafodd Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod i amddiffyn Irfan rhag cael ei gludo dramor.

* * * * *

13.4 Beth i’w wneud pan yw oedolyn ag angen gofal a chymorth yn ofni y gallai gael ei orfodi i briodi

Gall oedolyn ag anghenion gofal a chymorth fynd at weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol i oedolion, ei awdurdod lleol neu ddarparwr gofal cymdeithasol oherwydd ei fod yn mynd ar wyliau teuluol dramor a’u bod yn pryderu am hyn. Dywedir wrthynt yn aml mai’r pwrpas yw ymweld â pherthnasau, mynychu priodas neu oherwydd salwch nain neu daid neu berthynas agos yn y teulu. Efallai y byddant yn amau mai ffug yw hwn a bod cymhelliad cudd, sef eu gorfodi i briodi.

Peidiwch â rhagdybio bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o gael ei orfodi i briodi dim ond ar y sail ei fod yn cael ei gymryd ar wyliau teulu estynedig. Gall y rhagdybiaethau a’r stereoteipiau hyn achosi gofid sylweddol i

deuluoedd. Dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu ffeithiau llawn yr achos cyn gynted â phosibl.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3** a chasglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sydd ei hangen ym **mhennod 4**.
- Trafodwch yr achos gyda'r Uned Priodasau dan Orfod (FMU).
- Os oes amheuaeth ynghylch galluedd y person i gydsynio, cael asesiad o'i alluedd i gydsynio i briodas a pherthnasoedd rhywiol.
- Ystyriwch a oes angen arbenigwr cyfathrebu os oes gan berson nam ar y clyw neu'r golwg neu anabledd dysgu.
- Os yw'r risg o briodas dan orfod yn uniongyrchol, efallai y bydd angen cymryd camau brys i'w symud o'r cartref er mwyn eu hamddiffyn. Dylid ceisio cyngor gan adran gyfreithiol yr awdurdod lleol a dylid ystyried a yw'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth am adael cartref ac a oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad hwn drosto'i hun.

13.5 Beth i'w wneud pan yw arwyddion rhybuddio y bydd oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn cael ei orfodi i briodi

Weithiau efallai na fydd oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn gallu mynegi pryderon y bydd yn cael ei orfodi i briodi. Neu efallai nad ydynt yn ymwybodol o gynlluniau i'w orfodi i briodi. Fodd bynnag, efallai y bydd arwyddion rhybuddio sylweddol (fel yr amlinellir ym mhennod 2.11) bod risg yn bresennol.

Unwaith eto, mae'n bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau, ond ymchwilio'n drylwyr er mwyn canfod a oes digon o dystiolaeth o risg o briodas dan orfod. Os yn bosibl, mae'n arfer gorau i drafod y pryderon hyn gyda'r oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth i sefydlu ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa a gwerthusiad o'r risg. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall hyn gynyddu'r risg os yw'n debygol y bydd yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn adrodd eich pryderon i'r teulu/troseddwy'r. Dylid dilyn yr ymateb uchod yn y sefyllfa hon.

13.6 Pan yw trydydd parti yn adrodd bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth wedi'i gymryd dramor at ddiben priodas dan orfod

Weithiau gall fod yn ffrind, perthynas, partner, asiantaeth, athro neu ofalwr pryderus sy'n adrodd bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth ar goll. Mae'n bosibl y bydd yr achosion hyn wedi cael eu hadrodd i'r Uned FMU, yr heddlu, gweithwyr addysg proffesiynol neu grŵp gwirfoddol i ddechrau, a fydd wedyn wedi trosglwyddo'r pryderon i awdurdod lleol.

Yn y sefyllfa hon dylid dilyn y gweithdrefnau diogelu presennol a byddai'r ymateb uchod yn berthnasol. Yn ogystal, mae'n ddefnyddiol cadw mewn cysylltiad â'r trydydd parti er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gyswllt y gallent ei gael gan yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth. Lle bo modd, mae'n arfer gorau sefydlu cysylltiad uniongyrchol â'r oedolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth i wirio ei les a'r risg o briodas dan orfod.

Gallai fod yn ddefnyddiol ystyried a oes digon o dystiolaeth i gael Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod i hwyluso'r broses o ddychwelyd yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth i'r DU yn ddiogel.

Peidiwch â:

- **Mynd yn uniongyrchol at deulu'r person, ei ffrindiau, neu'r bobl hynny sydd â dylanwad o fewn y gymuned, gan y bydd hyn yn eu rhybuddio am eich ymholiadau a gallai roi'r person mewn perygl pellach.**
- **Ceisio bod yn gyfryngwr neu annog cyfryngu, cymodi, cyflafareddu neu gwnsela teuluol.**

13.7 Os yw oedolyn ag anghenion gofal a chymorth eisoes wedi cael ei orfodi i briodi

Er bod llawer o achosion o briodas dan orfod yn dod i'r amlwg pan adroddir bod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth ar goll neu pan fo honiadau o gam-drin a cham-drin domestig, mae rhai achosion yn cael eu dwyn i sylw gweithwyr cymdeithasol neu'r heddlu pan yw'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn cael eu gorfodi i weithredu fel noddwr ar gyfer mewnfudo eu priod i'r DU. Maent yn aml yn anfodlon dweud wrth Fisâu a Mewnfudo y DU mai priodas dan orfod ydoedd oherwydd bygythiadau ac ofn dial gan y teulu, efallai na fyddant yn gallu cyfathrebu neu efallai na fyddant yn deall nad oeddent yn gallu rhoi caniatâd dilys ar gyfer y priodas. Mae gan berson y gwrthodir ei gais i ddod i mewn i'r DU fel priod hawl i wybod y rhesymau pam – a'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Gall hyn roi'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn sefyllfa anodd.

Gall wynebu ei deulu fod yn hynod beryglus i'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth. Efallai na fyddant yn cael y gefnogaeth y maent yn gobeithio amdani ac efallai y bydd pwysau pellach yn cael eu rhoi arnynt i gefnogi'r cais am fisa. Mae'n rhaid trafod y risgiau hyn gyda nhw er mwyn cau allan yr opsiwn hwn.

Efallai y bydd person yn dymuno atal cais llwyddiannus am fisa ar gyfer ei briod. Mae ffyrdd y gellir gwrthod cais am fisa, er na ellir gwneud hyn weithiau heb i bob parti dan sylw fod yn ymwybodol nad yw'r person yn dymuno noddi cais ei briod am fisa. Gellir cysylltu â'r FMU i drafod opsiynau'r person.

Mae'n bosibl y bydd achosion o briodasau dan orfod yn cael eu hadrodd i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i oedolion yn y lle cyntaf, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, fel achosion o gam-drin domestig. Gall y naill briod neu'r llall sy'n cael ei orfodi i briodi brofi blynyddoedd o gam-drin domestig, ond efallai na fydd yn gallu

gadael oherwydd ofn colli eu plant, diffyg cymorth teuluol, pwysau economaidd ac amgylchiadau cymdeithasol eraill. Efallai mai dim ond blynyddoedd ar ôl i'r briodas ddigwydd y bydd y ffaith iddynt gael eu gorfodi i briodi yn dod i'r amlwg.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3** a chasglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sydd ei hangen ym **mhennod 4**.
- Cofnodwch fanylion llawn yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth ynghyd â manylion y briodas, gan gynnwys dyddiad a lleoliad.
- Cofnodwch enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r priod ynghyd â dyddiadau cyfweld ar gyfer ei fisa (os yw'n hysbys).
- Gyda'u caniatâd, atgyfeiriwch nhw i'r FMU os oes ganddynt bryderon bod eu priod yn cael fisa. Os nad oes gan y person y galluedd i gydsynio i briodas a bod gennych bryderon ynghylch ei briod yn cael fisa, ystyriwch adrodd am hyn heb ganiatâd.
- Cefnogwch nhw i gael mynediad at gyfreithiwr panel teulu am gyngor cyfreithiol.
- Os nad yw'r person am ddychwelyd i gartref y teulu, yna dylid dyfeisio strategaeth ar gyfer gadael cartref a thrafod cyngor diogelwch personol.
- Os yw'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn dymuno aros yn y cartref teuluol a bod ganddo'r gallu i wneud y penderfyniad hwn, ceisiwch gadw mewn cysylltiad heb ei roi mewn perygl.
- Ystyriwch gadw cysylltiad gan ddefnyddio gweithwyr cymunedol, gweithwyr iechyd ac ati.

13.8 Pan fydd oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn cael ei ddychwelyd i'r DU o dramor

Mewn achosion lle mae'r Uned wedi'i hysbysu o oedolyn ag anghenion gofal a chymorth sydd mewn perygl o briodas dan orfod, bydd yr Uned yn hysbysu gofal cymdeithasol oedolion cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd efallai na fydd oedolion yn rhoi caniatâd ar gyfer yr atgyfeiriad hwn a dim ond os oes pryderon diogelu sydd ar fin digwydd y bydd yr FMU yn gallu atgyfeirio heb ganiatâd.

Gall atgyfeiriad gael ei anfon at ofal cymdeithasol oedolion gan yr FMU ar yr adeg pan fydd oedolyn ag anghenion gofal a chymorth ar fin dychwelyd i'r DU a bydd angen cymorth ychwanegol arno unwaith ei fod wedi cyrraedd y DU. Rhoddir cymaint o rybudd â phosibl i ofal cymdeithasol oedolion o'r cynllun hwn. I gael rhagor o wybodaeth am sut y gall gofal cymdeithasol oedolion a'r FMU gydweithio i gefnogi oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gweler: [adass-fco-consular-assistance-guidance-final-march-2019.pdf](#)

Ymateb:

- Trefnwch i rywun gwrdd â nhw yn neuadd gyrraedd y maes awyr, er enghraifft gweithiwr cymdeithasol, swyddog heddlu neu oedolyn dibynadwy, cydymdeimladol.
- Hysbyswch yr heddlu os oes risg y bydd aelodau'r teulu yn ceisio eu herwyddio yn y maes awyr.

- Trefnwch lety diogel a sicr os nad yw'n ddiogel iddynt ddychwelyd i'w cartref a'u bod yn cydsynio i hyn.
- Rhwch wybod i'r heddlu y gall teulu'r person geisio dod o hyd iddo.
- Sylwch y gall fod angen cymorth ymarferol arnynt, er enghraifft arian parod brys, dillad a deunydd ymolchi.
- Dylai'r awdurdod lleol yr oedd yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn byw'n barhaol ddiwethaf yn ei ardal ddarparu cyllid.

Gwnewch:

- Gyda chaniatâd y person, ystyriwch a oes angen eu hadleoli gydag awdurdod lleol gwahanol.
- Ystyriwch anghenion gofal a chymorth y person, gan gynnwys y rhai sydd i'w hasesu a'u diwallu o dan y Ddeddf Gofal. Mae'n bosibl y bydd hyn yn galw am gyfnod pontio pan fydd angen negodi cyllid a chymorth.
- Atgyfeiriwch nhw, os yw'n briodol a chyda'u caniatâd, i sefydliadau cymorth lleol a chenedlaethol, er enghraifft gwasanaethau menywod arbenigol (lle bo'n berthnasol) neu wasanaethau cwnsela sydd â hanes o weithio gyda goroeswyr cam-drin domestig a phriodas dan orfod.
- Os nad yw person yn gallu cydsynio, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu beth sydd er budd gorau'r person.
- Cymerwch gamau gweithredol i sicrhau bod hunaniaeth y person ynghyd â'i fudd-daliadau a chofnodion eraill yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Gall hyn gynnwys cynlluniau amddiffyn tystion neu geisio cyngor cyfreithiol iddynt newid eu henw a'u rhif Yswiriant Gwladol.
- Aseswch y risg i unrhyw sibliogiaid eraill, nawr ac yn y dyfodol. Gallai sibliogiaid iau fod mewn perygl o gael eu gorfodi i briodi pan fyddant yn cyrraedd oedran tebyg. Ystyriwch siarad â sibliogiaid iau i egluro'r risg o briodas dan orfod a rhoi gwybodaeth iddynt am yr help sydd ar gael.
- Cymerwch ragofalon nad ydych yn cael eich dilyn os ydych yn cwrdd ag oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn eu cyfeiriad newydd.

Peidiwch â:

- **Rhoi naill ai eich hun neu'r dioddefwr mewn perygl o niwed.**
 - **Anfon nhw yn ôl i gartref y teulu yn groes i'w dymuniad.**
 - **Hysbysu aelodau'r teulu neu ffrindiau ymhle y maent.**
 - **Ceisio bod yn gyfryngwr neu annog cyfryngu, cymodi, cyflafareddu neu gwnsela teuluol.**
-

13.9 Pan fydd priod oedolyn ag anghenion gofal a chymorth wedi dod i'r DU o dramor

Gall priod ddod i'r DU o dramor a dweud ei fod wedi cael ei orfodi i briodi dramor. O ganlyniad, efallai eu bod yn dioddef cam-drin domestig neu efallai eu bod wedi rhedeg i ffwrdd. Mae'n bosibl na fydd yr oedolyn ag anghenion gofal a chymorth yn siarad Saesneg ac efallai nad yw'n ymwybodol o'r cymorth y gallai fod ganddo hawl iddo. Unwaith eto, gellir adrodd am yr achosion hyn yn y lle cyntaf fel achosion o gam-drin domestig neu bobl sydd ar goll.

Os nad oes gan oedolyn ag anghenion gofal a chymorth ganiatâd amhenodol i ddod i mewn (ILE) i'r DU, caniatâd i aros am gyfnod amhenodol (ILR), caniatâd a roddwyd o dan y consesiwn Trais Domestig Amddifadedd, amddiffyniad dyngarol, caniatâd yn ôl disgrisiwn neu hawl i breswyllo yn y DU, yna maent yn debygol o fod yn destun cyfyngiad ar dderbyn arian cyhoeddus. Mae cronfeydd cyhoeddus yn cynnwys Credyd Cynhwysol, Credyd Pensiwn y Wladwriaeth a Budd-dal Tai. Mae hyn yn golygu efallai na fyddant yn gallu cael mynediad i lety lloches (er y bydd rhai llochesi yn cynnig lleoedd). O ganlyniad, efallai y byddant yn cael anhawster dod o hyd i lety arall a modd byw. Gall hyn eu harwain i deimlo nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond aros yn y briodas ac i deimlo na allant gydweithredu â gwasanaethau gofal cymdeithasol neu unrhyw un y maent yn ei weld fel un sydd mewn sefyllfa o "awdurdod".

Dylid nodi nad yw cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn gronfa gyhoeddus yn y cyd-destun hwn ond efallai y bydd y dioddefwr yn amgyffred yn anghywir na fydd yn gallu cyrchu'r gwasanaethau hyn o ganlyniad i'w anallu i gyrchu arian cyhoeddus.

Ceir rhagor o fanylion am y mathau o gymorth gan awdurdodau lleol a allai fod ar gael ym mhennod 14 o'r canllawiau hyn.

Ymateb:

- Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3** a chasglwch gymaint â phosibl o'r wybodaeth sydd ei hangen ym **mhennod 4**.
- Sicrhewch yr ymdrinnir â'r person mewn modd sensitif a bod ei ddymuniadau, ei ddiwylliant a'i werthoedd yn cael eu cydnabod a'u parchu.
- Trefnwch fod cyfieithydd awdurdodedig yn siarad tafodiaith y person. Os oes angen, mynnwch ganiatâd ganddynt drwy Language Line. Sefydlwch unrhyw hoffterau o ran rhyw y cyfieithydd.
- Os credwch fod angen cyngor ar fewnfudo, atgyfeiriwch nhw i asiantaeth cymorth priodol, cynghorydd fewnfudo a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo neu gyfreithiwr.
- Rhowch fanylion cyswllt ysgrifenedig y gweithiwr cymdeithasol sy'n trin yr achos iddynt eu rhoi i'w cyfreithiwr.
- Gyda chaniatâd y person, hysbyswch uned cam-drin domestig yr heddlu lleol.

- Cofnodwch unrhyw anafiadau a threfnu archwiliad meddygol.

Peidiwch â:

- **Defnyddio perthynas, ffrind, arweinydd cymunedol neu gymydog fel dehonglydd - er gwaethaf unrhyw sicrwydd gan y person hysbys hwn. Gall gwybodaeth yn y cyfweiliad gael ei rhoi i aelodau eraill o'r gymuned a rhoi'r oedolyn ag anghenion gofal a chymorth mewn perygl o niwed.**
 - **Ceisio rhoi cyngor mewnfudo i'r person. Mae'n drosedd i unrhyw berson anghymwys roi'r cyngor hwn.**
-

Mae gan unrhyw un sydd wedi cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu aros, caniatâd ffoadur, amddiffyniad dyngarol, caniatâd yn ôl disgresiwn neu sydd â hawl i breswyllo yn y DU hawl i gael mynediad at arian cyhoeddus ar yr un sail â dinesydd Prydeinig.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd rhywun sy'n destun rheolaeth fewnfudo yn dal yn gymwys i gael mynediad at rai budd-daliadau. Mae hyn oherwydd y gallent elwa o eithriad i'r rheol gyffredinol 'dim hawl i arian cyhoeddus'. Mae'r eithriadau hyn ar waith yn gyffredinol i ddiwallu rhwymedigaethau cyfreithiol y DU ac maent wedi'u nodi mewn deddfwriaeth⁵⁶.

Nid yw cyllid ar gyfer cyngor cyfreithiol ('cymorth cyfreithiol') yn cael ei gyfrif fel arian cyhoeddus, a gall oedolion ag anghenion gofal a chymorth fod â hawl i gael cymorth cyfreithiol beth bynnag fo'u statws mewnfudo.

Os ydynt yn profi cam-drin domestig, gall y darpariaethau trais domestig o dan Reol 289A ac Atodiad FM y Rheolau Mewnfudo neu Ran 6 o Atodiad Rheolau Mewnfudo y Lluoedd Arfog fod yn berthnasol. O dan y Darpariaethau hyn, gall gwasanaethau gofal cymdeithasol ddarparu tystiolaeth o gam-drin domestig ar ffurf llythyr neu adroddiad.

⁵⁶ Ceir rhagor o wybodaeth am yr eithriadau hyn ac eithriadau eraill yn y [Social Security \(Immigration and Asylum\) Consequential Amendments Regulations 2000](#), the [Tax Credits \(Immigration\) Regulations 2003](#) a'r Persons Subject to Immigration Control (Housing and Homelessness) Order 2000.

14. Awdurdodau Tai Lleol: Canllawiau

14.1 Cefndir

I unrhyw un, gall fod yn anodd gadael eu teulu, ond i bobl o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig neu'r rhai ag anabledd neu salwch, gall fod yn arbennig o anodd. Mae gan deulu rôl bwysig iawn ym mywydau pobl, ac efallai nad oes gan berson unrhyw brofiad o fywyd y tu allan i'w deulu.

Mae'r rhai sy'n gadael yn aml yn ofni eu teuluoedd eu hunain, a fydd yn aml yn mynd i gryn drafferthion i ddod o hyd iddynt a sicrhau eu bod yn dychwelyd. Ar ôl dychwelyd, maent yn aml yn destun trais a bygythiadau. Felly, mae lletya'r rhai sy'n ffoi rhag priodas dan orfod yn hynod o bwysig ac mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd priodas dan orfod i gael llety diogel arall.

Gosododd Deddf Lleihau Digartrefedd 2018 ddyletswyddau newydd ar awdurdodau tai lleol i gymryd camau rhesymol i geisio atal a lleddfu digartrefedd person. Mae'r dyletswyddau newydd hyn yn berthnasol pan yw ymgeisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth, ni waeth a oes gan berson 'angen blaenoriaethol' neu a ellir ei ystyried yn 'fwriadol ddigartref'. Rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref i ddatblygu cynlluniau tai personol, sy'n canolbwyntio ar anghenion ac amgylchiadau'r ymgeisydd.

Mae gan awdurdodau tai lleol hefyd ddyletswydd i sicrhau llety addas ar gyfer ymgeiswyr sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sy'n dod o fewn grŵp angen blaenoriaethol.

O dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd bresennol mae person sy'n feichiog, sydd â phlant dibynnol, neu sy'n ddigartref o ganlyniad i'r ffaith bod y person hwnnw'n ddiodefwr cam-drin domestig, eisoes ag angen blaenoriaethol am lety. Mae categorïau angen blaenoriaethol eraill i'w gweld ym Mhenod 8 o'r Cod Canllawiau Digartrefedd.

Yng Nghymru, gan fod tai yn fater datganoledig, mae'r trefniadau ar gyfer y rheini sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd wedi'u nodi yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a'r canllawiau ategol a wneir oddi tani. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn canolbwyntio ar atal ac mae'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol yng Nghymru i gymryd pob cam rhesymol i geisio atal a lleddfu digartrefedd person. Mae gan awdurdodau lleol Cymru ddyletswydd i sicrhau llety ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref yn anfwriadol ac sy'n dod o fewn grŵp angen blaenoriaethol.

Efallai na fydd gan rai pobl ganiatâd i aros yn y DU ac felly ni fydd ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus (gweler pennod 14.4 am fanylion pellach). Yng Nghymru a Lloegr, rhaid i awdurdodau lleol asesu pa gymorth y gallant ei roi'n gyfreithlon i bob person yn unigol, gan ystyried amgylchiadau penodol ac anghenion cymorth person.

Beth bynnag fo'u sefyllfa, dylai staff rheng flaen mewn awdurdodau tai lleol fod yn ymwybodol o'r risg o niwed sy'n wynebu'r rhai sydd wedi cael eu gorfodi i briodi neu a allai gael eu gorfodi i briodi.

Dylai awdurdodau tai fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 wrth dderbyn ceisiadau am wybodaeth gan drydydd parti megis teulu, ffrindiau, cyngorwyr, meddygon teulu neu ASau ynghylch lleoliad ymgeisydd. Rhaid iddynt gael caniatâd penodol gan yr ymgeisydd cyn datgelu gwybodaeth i drydydd parti a dylent ystyried a yw'n briodol, yn arbennig lle gallai'r ymgeisydd fod yn ddioddefwr priodas dan orfod. Rhaid i ddiogelwch yr ymgeisydd fod yn hollbwysig. Os oes gan swyddog unrhyw amheuaeth ynghylch cais o'r fath, dylai ymatal rhag datgelu unrhyw wybodaeth.

14.2 Sut y gall staff awdurdodau tai helpu

Dilynwch y camau gweithredu cyffredinol a nodir ym **mhennod 3**.

Pan yw dioddefwr priodas dan orfod yn cyflwyno'i hun i awdurdod lleol yn gofyn am lety brys, mae'n aml yn golygu ei fod wedi gadael ei sefyllfa bresennol am byth. Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd unrhyw bosibilrwydd i fynd yn ôl. Mae helpu'r dioddefwr i ddod o hyd i lety yn gyflym yn lleihau baich ansefydlogrwydd ac ansicrwydd wrth iddynt weithio tuag at sefydlu diogelwch iddynt eu hunain gyda chymorth gweithwyr proffesiynol.

Gofyn am y briodas dan orfod:

Os bydd hebryngwr gyda'r dioddefwr, gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn yn breifat a yw'n ddiogel i'w hebryngwr fod yn rhan o'r cyfarfod. Unwaith y byddwch yn fodlon bod y dioddefwr yn ddiogel i drafod ei brofiadau, gofynnwch yn sensitif i'r ymgeisydd ddatgelu beth sydd wedi digwydd iddo ac ymateb i'r cwestiynau:

- Beth sydd ei angen ar hyn o bryd?
- Ydy'r ardal yr ydym ynddi ar hyn o bryd yn lleoliad diogel i chi?
- Ydych chi'n credu y gallech fyw yn y lleoliad hwn dros dro neu'n barhaol?
- A yw'r lleoliad hwn yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith/astudiaethau/cyfleusterau meddygon teulu/iechyd?
- A yw'r lleoliad hwn yn ddiogel o ran na all aelodau'r teulu/cymuned ddod o hyd i chi?

Yna ailadroddwch eu hatebion yn ôl iddynt. Os oes angen cyfieithydd ar y pryd, mae'n well defnyddio gweithiwr proffesiynol sy'n ddiudedd ac sydd â dyletswydd i gadw cyfrinachedd. Peidiwch â defnyddio teulu neu ffrindiau'r dioddefwr.

Dylech wrando'n sensitif ar brofiadau'r dioddefwr a gwneud penderfyniad ar sail y sgwrs honno ac unrhyw dystiolaeth bellach.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, gwiriwch am arwyddion rhybuddio posibl bod yr unigolyn yn ddioddefwr priodas dan orfod (mae rhagor o fanylion ym mhennod 2.11).

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod am y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol i gefnogi pobl sydd wedi profi cam-drin domestig a sut i wneud atgyfeiriad.

Ar ôl datgeliad:

- Rhowch wybod i'r person am fanylion yr Uned Priodasau dan Orfod (FMU). Rhowch wybod iddynt y gallant gysylltu'n uniongyrchol i drafod pryderon eraill trwy'r llinell gymorth ffôn (020 7008 0151) neu e-bost (fmu@fcdo.gov.uk).
- Mae priodas dan orfod yn fath o gam-drin domestig, felly eu diogelwch nhw a diogelwch pobl eraill, gan gynnwys unrhyw blant a allai gael eu heffeithio, yw'r flaenoriaeth gyntaf.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymwybodol o Ddeddf Diogelu Data 2018, canllawiau proffesiynol a phrotocolau lleol ynghylch cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Gwiriwch eich bod yn gwybod am:
 - o gael caniatâd gan bobl i rannu eu gwybodaeth;
 - o dweud wrth bobl pryd a gyda phwy y mae eu gwybodaeth yn cael ei rhannu; a
 - o pryd y gall fod angen rhannu gwybodaeth heb ganiatâd i gadw'r person yn ddiogel.
- Rhannwch wybodaeth am wasanaethau arbenigol a chynnig atgyfeiriad, gan gynnwys i grŵp cymorth lleol.
- Ystyriwch y math o gymorth sydd ei angen, ar unwaith ac yn y tymor hwy.
- Cofnodwch eich trafodaeth a'r camau yr ydych wedi cytuno arnynt. Gellir cofnodi'r camau gweithredu fel rhan o'r cynllun tai personol a fydd yn cynnwys camau (neu 'gamau rhesymol') i'w cymryd gan yr awdurdod a'r ymgeisydd i geisio atal neu leddfu digartrefedd.
- Cydnabyddwch y risg y mae'r rhai sy'n ffoi rhag priodas dan orfod yn ei hwynebu ac, yn unol â'r Cod Canllawiau Digartrefedd yn Lloegr, a darpariaeth debyg yn y Cod Canllawiau ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd yng Nghymru, sicrhau nad yw ymgeisydd yn cael ei atgyfeirio i awdurdod lleol arall lle mae ganddynt gysylltiad lleol pe byddent mewn perygl o gam-drin domestig yn yr ardal honno. Dylai diogelwch dioddefwr gael blaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch atgyfeirio ymgeisydd.
- Cymerwch i ystyriaeth unrhyw ystyriaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â'r ymgeisydd a'u haelwyd a allai effeithio ar addasrwydd y llety a gynigir iddynt i atal neu leddfu digartrefedd, neu o dan y brif ddyletswydd tai. Cymerwch i ystyriaeth unrhyw risg o gam-drin domestig neu drais neu aflonyddu hiliol mewn ardal benodol. Lle nad yw'r ymgeisydd yn gallu aros yn y cartref presennol, efallai y bydd angen i awdurdodau tai ystyried yr angen am lety na fyddai'r cyflawnwr yn dod o hyd iddo (a allai olygu lleoliad y tu allan i'r sir) ac sydd â mesurau diogelwch a staff

sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i amddiffyn y preswylwyr. Gall awdurdodau tai ystyried gweithredu cytundeb dwyochrog gydag awdurdodau tai a darparwyr tai eraill i hwyluso symudiadau y tu allan i'r ardal i ddioddefwyr priodas dan orfod.

- Efallai y bydd achlysuron pan yw dioddefwyr priodas dan orfod yn ceisio cymorth brys ar ôl gadael ID a dogfennaeth arall ar ôl y gallai fod eu hangen i gefnogi eu cais. Dylai awdurdodau tai weithio gyda'r heddlu, asiantaethau eraill (fel sy'n briodol) a'r ymgeisydd i sicrhau y gellir adennill neu amnewid dogfennau hanfodol heb roi'r ymgeisydd mewn mwy o berygl. Ni ddylid gofyn i'r dioddefwr ddychwelyd i'w eiddo i gasglu dogfennaeth os oes unrhyw risg i'w ddiogelwch.
- Cydnabyddwch y gallai rhai oedolion fod wedi cael eu dal yn erbyn eu hewyllys y tu allan i'r DU at ddiben priodas dan orfod a dylid ystyried yr amgylchiadau hyn wrth gymhwyso'r prawf preswyllo arferol.
- Sylwch, pan wneir cais digartrefedd gan bâr oherwydd priodas dan orfod, os gofynnir amdano a'i fod yn ddiogel gwneud hynny, dylai awdurdodau lleol geisio lletya'r cwpl gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig sefydlu'n gyflym bod y ddwy ochr yn teimlo'n ddigon cyfforddus a diogel i gael llety gyda'i gilydd. Dylid canfod hyn wrth ofyn y cwestiynau a restrir ym mharagraff 14.2 yn holi am gwestiynau FM.

Pan fo gan ymgeisydd angen blaenoriaethol, mae adran 206 o Ddeddf Tai 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu llety sy'n addas ar gyfer yr aelwyd.

Peidiwch â:

- **Defnyddio perthynas, ffrind, arweinydd cymunedol neu gymydog fel dehonglydd - er gwaethaf unrhyw sicrwydd gan y person hysbys hwn. Gall gwybodaeth yn y cyfweiliad gael ei rhoi i aelodau eraill o'r gymuned a rhoi'r person mewn perygl o niwed.**
 - **Hysbysu aelodau'r teulu neu ffrindiau ymhle y maent.**
-

14.3 Categoriâu angen blaenoriaethol

Mae'r categorïau angen blaenoriaethol dilynol yn debygol o fod yn fwyaf perthnasol wrth ymdrin ag oedolion digartref yn yr achosion hyn:

Yn Lloegr:

- menyw feichiog neu berson y mae'n byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswyllo gydag ef
- person y mae plant dibynnol yn byw gyda hi neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fyw gyda hi
- person sy'n agored i niwed o ganlyniad i henaint, salwch meddwl, anabledd dysgu neu gorfforol neu reswm arbennig arall, neu y mae person o'r fath yn byw gyda hi neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gyda hi.

- person sy'n ddigartref o ganlyniad i'r ffaith bod y person hwnnw wedi dioddef cam-drin domestig
- person 16 neu 17 oed nad yw'n 'blentyn perthnasol' neu'n blentyn mewn angen y mae gan awdurdod lleol ddyletswydd iddo o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989
- person o dan 21 oed a oedd (ond nad yw bellach) yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu rhwng 16 a 18 oed (ac eithrio person sy'n 'fyfyriwr perthnasol'⁵⁷)
- person 21 oed neu hŷn sy'n agored i niwed o ganlyniad i dderbyn gofal, llety neu faethu (ac eithrio person sy'n 'fyfyriwr perthnasol')
- person sy'n agored i niwed o ganlyniad i roi'r gorau i feddiannu llety oherwydd trais gan berson arall neu fygythiadau o drais gan berson arall sy'n debygol o gael ei gyflawni

Mae Adran 177 o Ddeddf Tai 1996 yn nodi'n glir nad yw'n rhesymol i berson barhau i feddiannu llety os yw'n debygol y bydd hyn yn arwain at drais neu gam-drin domestig yn erbyn yr unigolyn hwnnw, neu yn erbyn person y byddai disgwyl fel arfer neu'n rhesymol iddo fyw gyda nhw.

Mae Adran 8.16 o'r Cod Canllawiau Digartrefedd yn nodi 'Mater o farn arfarnol yw a yw amgylchiadau'r ymgeisydd yn eu gwneud yn agored i niwed'. Wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn unrhyw un o'r categorïau a nodir ym mharagraff 8.14 o'r cod hwnnw yn agored i niwed, dylai'r awdurdod tai benderfynu, pe byddai'n ddigartref, a fyddai'r ceisydd yn sylweddol fwy agored i niwed nag y byddai person cyffredin pe byddai'n dod yn ddigartref. Rhaid i'r asesiad fod yn un cyfansawdd ansoddol gan gymryd i ystyriaeth yr holl ffeithiau ac amgylchiadau perthnasol ac mae'n cynnwys ystyried effaith digartrefedd ar yr ymgeisydd o'i gymharu â pherson cyffredin os yw'n ddigartref. Dylai'r awdurdod tai ystyried a fyddai'r ymgeisydd yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed neu anfantais na fyddai'r person cyffredin yn ei ddioddef neu fod mewn perygl o'i ddioddef, fel y byddai'r niwed neu'r anfantais yn gwneud gwahaniaeth amlwg i'w allu i ymdrin â chanlyniadau digartrefedd'.

Yng Nghymru (adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014):

- menyw feichiog neu berson y mae'n byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi fyw gydag ef
- person y mae plentyn dibynnol yn byw gyda hi neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gyda hi

⁵⁷ Mae 'myfyriwr perthnasol' yn golygu rhywun sy'n gadael gofal o dan 25 oed y mae adran 24B(3) o Ddeddf Plant 1989 yn gymwys iddo, ac sydd mewn addysg bellach neu uwch amser llawn ac nad yw ei lety yn ystod y tymor ar gael yn ystod gwyliau. O dan adran 24B(5), pan yw awdurdod gwasanaethau cymdeithasol wedi'i fodloni bod person yn rhywun y mae adran 24B(3) yn gymwys iddo a bod angen llety arno yn ystod gwyliau rhaid iddo ddarparu llety neu fodd i'w alluogi i gael ei sicrhau. [Lawrlwytho'r canllawiau hyn - Cod canllawiau digartrefedd i awdurdodau lleol - Canllawiau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

- person sy'n agored i niwed o ganlyniad i ryw reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledde corfforol neu feddyliol)
- person sy'n ddigartref o ganlyniad i fod yn destun cam-drin domestig, neu y mae person sy'n destun cam-drin domestig yn byw gydag ef/hi (ac eithrio'r camdriniwr) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef/hi
- person sy'n 16 neu 17 oed pan yw'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gael neu gadw llety
- person sydd wedi cyrraedd 18 oed (ond nid 21 oed) pan yw'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gael neu gadw llety, sydd mewn perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol

14.4 Dim hawl i arian cyhoeddus

Mae gan bobl y mae eu statws mewnfudo'n golygu nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus ddewisiadau cyfyngedig ar gyfer tai a chymorth ariannol.

Yng Nghymru a Lloegr, mae gan awdurdodau tai ddyletswydd i ddarparu neu sicrhau y darperir cyngor a gwybodaeth am ddigartrefedd ac atal digartrefedd, yn rhad ac am ddim. Rhaid i'r gwasanaethau hyn hefyd fod ar gael i unrhyw berson yn eu hardal, gan gynnwys pobl nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau digartrefedd pellach o ganlyniad i'w statws mewnfudo.

Dylai awdurdodau lleol hysbysu ymgeiswyr anghymwys y gall menywod a dynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig wneud cais am Ganiatâd Amhenodol i Aros (ILR) os ydynt yndiwallu'r meini prawf a nodir yn y darpariaethau trais domestig yn y Rheolau Mewnfudo. Fodd bynnag, hyd nes y bydd eu cais yn llwyddiannus, ni fydd ganddynt unrhyw hawl i gael arian cyhoeddus – mae hyn yn golygu na fyddant yn gymwys i gael budd-daliadau megis credyd cynhwysol neu fudd-dal tai. Yn ymarferol, mae'n anodd iawn cyrchu unrhyw gyllid ar gyfer dioddefwyr tra'u bod yn aros am ganlyniad eu cais, a dyna pam y cyflwynwyd y Consesiwn Trais Domestig Amddifadedd.

Mae'r Consesiwn Trais Domestig Amddifadedd yn cefnogi'r rhai sydd wedi dod i mewn neu wedi aros yn y DU fel priod, partner di-briod, partner o'r un rhyw neu sifil i Ddinesydd Prydeinig, neu ddinesydd sefydlog ac mae'r berthynas hon wedi chwalu'n barhaol oherwydd trais a cham-drin domestig. Gall dioddefwr fod yn gymwys os:

- (a) eu bod wedi dod i'r DU neu wedi cael caniatâd i aros yn y DU fel priod neu bartner Dinesydd Prydeinig neu rywun sydd wedi sefydlu yn y DU;
- (b) bod eu perthynas wedi chwalu'n barhaol oherwydd trais a cham-drin domestig.

Yna gallant wneud cais i'r Swyddfa Gartref am ganiatâd cyfyngedig i aros (tri mis) o dan y [Gonsesiwn Trais Domestig Amddifadedd](#) ⁵⁸ i'w galluogi i gyrchu arian cyhoeddus a chynghor, wrth iddynt baratoi a chyflwyno cais am ganiatâd amhenodol i aros (neu wneud trefniadau amgen). Mae'n arfer gorau cyfeirio oedolion nad oes ganddynt hawl i gael arian cyhoeddus at wasanaethau cyngor mewnfudo priodol i ganfod a ydynt yn gymwys i wneud cais.

⁵⁸ Gwneud cais am gonsesiwn trais domestig amddifadedd (DDV). - GOV.UK (www.gov.uk)

15. Personél Maes Awyr: Canllawiau

Mae'r bennod hon wedi'i hanelu'n benodol at Llu Ffiniau'r DU, ac aelodau eraill o staff mewn porthladdoedd gadael/cyrraedd a allai ddod i gysylltiad â dioddefwyr posibl sydd naill ai'n gadael neu'n dychwelyd i'r DU o dramor.

Dylai'r canllawiau hyn gyd-fynd ag e-ddysgu'r Coleg Rhithwir ar briodas dan orfod, sy'n orfodol i holl swyddogion Llu'r Ffiniau. Fe'u hanogir hefyd i ddarllen canllawiau Llu'r Ffiniau ar briodas dan orfod ac efallai y byddant am edrych ar y tudalennau gwybodaeth ar briodas dan orfod a phriodas cynnar ar yr ap OCELOT Border Force.

Mae mwyafrif yr achosion o briodasau dan orfod yn y DU yn ymwneud â theithio dramor, ac mae ymwybyddiaeth ar ffin y DU yn allweddol i gefnogi dioddefwyr. Yn aml bydd y dioddefwr yn cael ei gludo dramor heb wybod ei fod yn mynd i briodi, ar esgus gwyliau teuluol, priodas perthynas neu salwch nain neu daid, ymhlith senarios eraill. Wrth gyrraedd, mae eu dogfennau, pasbortau, arian a ffonau symudol yn aml yn cael eu cymryd oddi arnynt.

Yn yr un modd, ar ffin y DU, bydd dioddefwyr yn dychwelyd i'r DU neu'n cyrraedd y DU am y tro cyntaf a allai fod angen cymorth. Gall dioddefwr gyrraedd y DU o dramor a dweud ei fod wedi cael ei orfodi i briodi dramor. Efallai eu bod wedi dioddef o gam-drin domestig neu wedi rhedeg i ffwrdd. Efallai nad ydynt yn siarad Saesneg ac efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r cymorth y gallent fod â hawl iddo. Efallai y bydd amgylchiadau pan fyddant yn rhy ofnus i hunan-adnabod felly mae'n bwysig bod y rhai sy'n dod i gysylltiad â nhw yn deall y drosedd hon, yn effro i ddangosyddion ac yn ymateb yn effeithiol pan fo angen.

15.1 Gwledydd â chyffredinolrwydd uchel

Yn gyffredinol, mae gan y gwledydd sydd â'r nifer uchaf o achosion o briodasau dan orfod a adroddir yn y DU gysylltiadau treftadaeth â Phacistan, Bangladesh, India, Somalia, Affganistan, Irac a Rwmania. Fodd bynnag, yn 2020, fe wnaeth yr FMU drin achosion yn ymwneud â 54 o wledydd y tu allan i'r DU.

15.2 Hediadau allan

Beth yw dangosyddion posibl priodas dan orfod a beth i edrych amdano pan fydd y dioddefwr posibl yn gadael y DU? Nodyn: Nid yw hon yn rhestr gyflawn.

Arsylwadau corfforol

- Yn aml yn fenywaidd a rhwng 15-25 oed (fodd bynnag, dylid nodi y gall priodas dan orfod effeithio ar wrywod, a benywod y tu allan i'r ystod oedran hwn)
- Anabledd – corfforol neu ddysgu, weithiau'r ddau
- Arwyddion anafiadau neu greithiau a allai fod o ganlyniad i ymosodiad
- Tocyn unffordd wedi'i archebu
- Dogfennau a gedwir gan rywun arall

Ymddygiad y dioddefwr

- Ymddangos yn gynhyrfus/ofnus/tawedog/tawel/digalon/ddim yn siaradus neu fel arall yn dangos ymddygiad anarferol.
- Ymddengys ei fod yn dioddef anghysur.
- Datgelu ei fod yn cael ei dynnu allan o'r DU i briodi rhywun nad yw'n dymuno gwneud hynny.
- Methu â rhoi manylion sylfaenol am y daith neu'r pwrpas a fwriadwyd.
- Edrych yn nerfus o gwmpas wrth gofrestru. Yn ymateb fel eu bod yn cael eu gwyllo gan rywun.

Ymddygiad y rhai sy'n teithio gyda'r dioddefwr

- Ymddygiad amlwg sy'n rheoli gan aelodau o'r teulu, er enghraifft, gall y dioddefwr posibl ofyn am help o flaen aelodau'r teulu sydd wedyn yn cael ei fychanu gan y teulu.
- Wedi'i warchod gan aelodau'r teulu a gwylidwriaeth uchel o'r dioddefwr posibl.
- Aelodau'r teulu yn ateb ar eu rhan ac yn diystyru'r hyn y maent yn ei ddweud.
- Mae'r person y mae gydag ef/hi yn edrych yn ochelgar, yn euog neu'n amheus.
- Peidio â chaniatáu i'r dioddefwr siarad yn rhydd ar ei ben ei hun
- Cadw dogfennau'r dioddefwr

Beth i'w wneud os yw dioddefwr posibl yn gofyn am help

- Sicrhewch fod y dioddefwr yn gallu siarad lle na all ei gymdeithion teithio glywed.
- Gofynnwch i'r dioddefwr gyda beth yr hoffent gael cymorth.
- Gofynnwch i'r dioddefwr a yw am barhau â'i daith.
- Ailadroddwch eu hatebion yn ôl iddynt.
- Os ydynt wedi ei gwneud yn glir nad ydynt am deithio, neu os ydynt yn mynegi pryder, siaradwch â'ch rheolwr a gwahoddwch yr unigolyn yn gynnil i symud i ffwrdd o'r parti teithio, os yn bosibl.
- Gan nad oes gan Llu'r Ffiniau unrhyw bwerau i atal pobl rhag teithio, rhowch wybod i'r awdurdodau heddlu yn y maes awyr ar unwaith.
- Ffoniwch yr Uned Priodasau dan Orfod (FMU) am gyngor ar 020 7008 0151 os gwneir y datgeliad rhwng 0900 – 1700 o'r gloch, dydd Llun i ddydd Gwener. Os bydd y datgeliad yn cael ei wneud y tu allan i oriau swyddfa, bydd yr alwad yn mynd ymlaen i wasanaeth y tu allan i oriau.

15.3 Hediadau i mewn

Beth yw'r dangosyddion posibl o briodas dan orfod pan yw'r dioddefwr posibl yn dychwelyd i'r DU? Nodyn: Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr.

Arsylwadau corfforol

- Yn aml yn fenywod a rhwng 15-25 oed (fodd bynnag, dylid nodi y gall priodas dan orfod effeithio ar wrywod, a benywod y tu allan i'r ystod oedran hwn).
- Anabledd – corfforol neu ddysgu, weithiau'r ddau.
- Arwyddion anafiadau neu greithiau a allai fod o ganlyniad i ymosodiad.

- Mae'r dioddefwr yn gwisgo dillad sy'n arwydd o ddathliad/priodas. Gall y rhain amrywio rhwng diwylliannau gwahanol, er enghraifft mae cael henna ar y ddwy law yn gyffredin i briodferched mewn sawl gwlad yn Ne Asia.

Ymddygiad y dioddefwr

- Ymddangos yn bryderus, yn nerfus neu'n ofnus.
- Ymddangos yn ymostyngol.
- Methu â siarad yn rhydd heb fod aelodau o'r teulu yn bresennol.

Beth i'w ddweud wrth y dioddefwr posibl

- Os ydynt yn gwisgo gwisg arbennig, gallwch ofyn yn hamddenol: "Ydych chi'n dychwelyd o ryw fath o ddathliad?" Gwnewch nodyn o'u hymatebion.
- Gofynnwch am faint o amser maent wedi bod y tu allan i'r DU. Os yw'n fwy na mis, gallwch ofyn: "Wnaethoch chi fwynhau eich egwyl?" "Beth wnaethoch chi?" Os byddant yn datgelu priodas, gwnewch nodyn o sut maent yn ymddangos wrth siarad am hyn. Os ydynt yn ymddangos yn ddagreuol, gofynnwch a ydynt angen help neu eisiau siarad â rhywun.
- Gofynnwch gwestiynau agored, syml bob amser (pwy, beth, ble, pryd, pam, sut?)

Chwiliad bagiau

Yn ystod chwiliad bagiau arferol, os canfyddir gwisgoedd cywrain neu'r hyn sy'n ymddangos yn ddillad 'parti', gan gynnwys esgidiau, ategolion gwallt ac eitemau gemwaith mewn bocsys, gofynnwch y cwestiynau dilynol yn dyner i ddiodefwyr posibl: "Pa fath o wyliau oeddech chi'n mynd arnynt?" "Am faint o amser wnaethoch chi aros?" "A wnaethoch chi fynyachu llawer o ddiwyddiadau/partïon?" "Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich gwisgoedd?" "Ar gyfer pwy oedden nhw?"

Os ydynt yn sôn am eu priodas, ac yn arddangos unrhyw un o'r ymddygiadau uchod, gofynnwch i'r dioddefwr posib: "A yw popeth yn iawn neu a hoffech chi siarad yn breifat?" Rhowch sicrwydd iddynt mai dim ond i helpu a rhoi cymorth iddynt yr ydych chi yno.

15.4 Pwyntiau allweddol i'w cofio

Os bydd pryderon yn codi ceisiwch siarad â'r person ar ei ben ei hun, os yn bosibl heb roi'r dioddefwr mewn perygl.

Dogfennwch sgysiau, pryderon ac arsylwadau yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl ac e-bostiwch hyn i fmf@fcdo.gov.uk.

Dylid atgyfeirio unrhyw achos hefyd i Swyddog Diogelu a Chaethwasiaeth Fodern (SAMS) arbenigol Llu'r Ffiniau i'w reoli.

Cofiwch, yn dilyn cychwyn deddfwriaeth newydd ar 27 Chwefror 2023 (gweler Pennod 2), ei bod yn drosedd gwneud unrhyw beth gyda'r bwriad o achosi plentyn i briodi cyn iddo droi'n 18 oed, hyd yn oed os na ddefnyddir gorfodaeth. Mewn achosion lle na ddefnyddir unrhyw orfodaeth, mae'n bosibl na fydd y plentyn yn dangos ofn y briodas arfaethedig, ac eto byddai'r briodas yn parhau i fod yn un dan

orfod, a dylai staff ar y ffin gymryd yr achosion hynny yr un mor ddifrifol ag unrhyw un arall.

Ym mhob achos brys lle mae angen cymorth ar unwaith cysylltwch â heddlu'r maes awyr neu ffoniwch 999. Cofiwch nad oes gan staff Llu'r Ffiniau **unrhyw bwerau** i atal pobl rhag gadael y DU.

16. Amddiffyniadau Cyfreithiol

16.1 Y sefyllfa gyfreithiol

Mae Adran 121 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona 2014 yn darparu:

(1) Mae person yn cyflawni trosedd yng Nghymru a Lloegr os yw'n -

(a) defnyddio trais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth at ddiben peri i berson arall ymrwymo i'r briodas, ac yn

(b) credu, neu y dylai gredu'n rhesymol, y gallai'r ymddygiad beri i'r person arall ymrwymo i'r briodas heb gydsyniad rhydd a llawn.

(2) Mewn perthynas â dioddefwr nad oes ganddo alluedd i gydsynio i briodas, mae modd cyflawni'r drosedd o dan is-adran (1) drwy unrhyw ymddygiad a gyflawnir at ddiben peri i'r dioddefwr ymrwymo i briodas (os yw'r ymddygiad yn gyfystyr â thrais, bygythiadau neu unrhyw fath arall o orfodaeth neu beidio).

(3) Mae person yn cyflawni trosedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr os yw'n -

(a) arfer unrhyw fath o dwyll gyda'r bwriad o beri i berson arall adael y Deyrnas Unedig, ac yn

(b) bwriadu i'r person arall fod yn destun ymddygiad y tu allan i'r DU sy'n drosedd o dan is-adran (1) neu a fyddai'n drosedd o dan yr is-adran honno os edd y dioddefwr yng Nghymru a Lloegr.

(3A) Mae person yn cyflawni trosedd o dan gyfraith Cymru a Lloegr os yw'n cyflawni unrhyw ymddygiad at y diben o beri i blentyn ymrwymo i briodas cyn pen-blwydd y plentyn yn ddeunaw oed (pa un a yw'r ymddygiad yn gyfystyr â thrais ai peidio, bygythiadau, unrhyw fath arall o orfodaeth neu dwyll, a ph'un a yw'n cael ei gyflawni yng Nghymru a Lloegr ai peidio).

Y gosb uchaf am dramgwydd troseddol priodas dan orfod yw saith mlynedd o garchar.

Yn ogystal â throseddau penodol o briodas dan orfod, mae nifer o droseddau eraill y gellir eu cyhuddo mewn sefyllfaoedd priodas dan orfod. Gall cyflawnwyr – fel arfer rhieni neu aelodau o'r teulu – gael eu herlyn am droseddau sy'n cynnwys ofn neu bryfocio trais, ymosodiad cyffredin, niwed corfforol gwirioneddol, niwed corfforol difrifol, aflonyddu, stelcian, ymosodiad cyffredin, herwgipio, cipio, lladrad (pasbort), bygythiadau i lladd, cam-garcharu a llofruddiaeth. Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ynghylch pa drosedd(au) i'w herlyn ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Dylid nodi hefyd bod cyfathrach rywiol heb gydsyniad yn drosedd rywiol ddifrifol, er enghraifft treisio, p'un a yw hyn yn digwydd o fewn priodas ai peidio.

16.2 Awdurdodaeth All-dirioogaethol

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 hefyd yn darparu awdurdodaeth alldirioogaethol dros y troseddau o briodas dan orfod. Mae'r darpariaethau ar gyfer is-adrannau 1-3 o adran 121 ychydig yn wahanol i'r rhai ar gyfer is-adran 3A (gweler adran 16.1 uchod).

Yn achos y troseddau yn is-adrannau 1 a 2, mae'r ddeddf yn drosedd o dan gyfraith ddomestig a gellir ei phrofi yn llysoedd Cymru a Lloegr os oedd unrhyw un o'r tri senario a ganlyn yn berthnasol ar adeg yr ymddygiad:

- (a) os yw'r person neu'r dioddefwr neu'r ddau ohonynt yng Nghymru neu Loegr,
- (b) nid yw'r person na'r dioddefwr yng Nghymru na Lloegr ond bod o leiaf un ohonynt yn preswyllo fel arfer yng Nghymru a Lloegr, neu
- (c) nid yw'r person na'r dioddefwr yn y Deyrnas Unedig ond bod o leiaf un ohonynt yn wladolyn y DU.

Yn achos trosedd is-adran 3A (gwneud unrhyw ymddygiad i beri i rywun briodi cyn iddo droi'n 18 oed, hyd yn oed heb orfodaeth na thwyll), mae'r weithred yn drosedd o dan gyfraith ddomestig a gellir ei phrosesu yn llysoedd Cymru a Lloegr os o gwbl. cymhwyswyd tri senario a ganlyn:

- (a) mae'r ymddygiad at y diben o beri i'r plentyn fynd i briodas yng Nghymru neu Loegr;
- (b) ar adeg yr ymddygiad, mae'r person a wnaeth yr ymddygiad neu'r plentyn yn preswyllo fel arfer yng Nghymru a Lloegr; neu
- (c) ar adeg yr ymddygiad, mae'r plentyn yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd—
 - (i) wedi bod yn preswyllo fel arfer yng Nghymru a Lloegr, a
 - (ii) heb breswyllo'n arferol neu'n hanu o'r Alban neu Ogledd Iwerddon.

16.3 Dilysrwydd

Bydd rhai priodasau dan orfod yn gyfreithiol ddilys a byddant yn bodoli oni bai a hyd nes y ceir dirymiad neu y rhoddir ysgariad gan y llys. Bydd eraill yn gyfreithiol ddi-rym ond gall parti geisio gorchymyn dirymu o hyd i ddogfennu hyn. Mae gofynion cyfreithiol llym sy'n pennu a yw priodas yn ddilys o dan gyfraith y DU. Bydd p'un a yw priodas dramor yn cael ei chydabod yn gyfreithiol yn dibynnu'n gyffredinol ar a oedd yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol y wlad y cynhaliwyd y briodas ynddi. Wrth ystyried dilysrwydd priodas, yn arbennig priodas a gynhaliwyd dramor, dylid ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol. Dylai asiantaethau hefyd fod yn ymwybodol nad yw priodas yn ddi-rym yn awtomatig oherwydd y canfuwyd ei bod yn briodas dan orfod.

16.4 Gorchmynion Amddiffyn Priodas dan Orfod (FMPOs)

Mae FMPO yn fesur cyfraith sifil y gellir ei geisio o dan adran 63A o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 (“Deddf 1996”).⁵⁹ Nod FMPO yw amddiffyn a diogelu person sydd wedi, neu sy'n cael ei orfodi i briodi. Gwneir FMPOs gan y llysoedd teulu a gellir eu gwneud mewn sefyllfaoedd brys fel y gellir rhoi amddiffyniad uniongyrchol a gorfodadwy ar waith. Gelwir hyn yn orchymyn ex-parte neu heb rybudd gan na fydd y dogfennau perthnasol wedi'u cyflwyno i'r ymatebwyr. Mae FMPO yn unigryw i bob achos ac mae'n cynnwys gwaharddiadau, cyfyngiadau a/neu ofynion cyfreithiol-rwymol sy'n ymwneud ag, ac sydd wedi'u hanelu at newid, ymddygiad person neu bersonau sydd wedi gorfodi neu geisio gorfodi, neu a allai orfodi neu geisio gorfodi, rhywun i briodi. Gall gwaharddiadau ac amodau o'r fath gynnwys, er enghraifft, gofyniad i ildio pasbort y person sydd i'w warchod er mwyn ei atal rhag cael ei gymryd dramor at ddiben priodas dan orfod.

Gall y bobl ddilynol wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodi dan Orfod o dan adran 63C(2) a (3) o Ddeddf 1996:

- dioddefwr priodas dan orfod neu'r person sydd mewn perygl o gael ei orfodi i briodi (cyfeirir at ddioddefwyr a phobl sy'n wynebu risg fel y “person i'w warchod” (PTBP)); neu
- trydydd parti perthnasol (RTP). Mae ‘RTP’ yn golygu person a bennir drwy orchymyn⁶⁰ yr Arglwydd Ganghellor a all wneud cais ar ran dioddefwr heb ganiatâd y llys. Ar hyn o bryd, dim ond i awdurdodau lleol y mae hyn yn ymestyn; neu
- unrhyw berson arall ar ran y PTBP gyda chaniatâd y llys (er enghraifft, yr heddlu, gwasanaeth cymorth y sector gwirfoddol, ffrind neu aelod o'r teulu).

Gall y PTBP fod yn oedolyn neu'n blentyn. Gall ceisiadau gael eu gwneud gan berson neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, os oes ganddynt un.

Gall y PTBP a'r RTPs wneud cais heb ganiatâd y llys. Bydd angen caniatâd y llys ar unrhyw un arall i wneud cais. Mae'n bosibl y bydd gan blant sy'n gwneud cais am FMPO ‘ffrind nesaf’ neu warcheidwad plant i'w cynorthwyo, ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny, os yw'r llys yn cytuno, neu os oes ganddynt gynrychiolydd cyfreithiol sy'n ystyried bod gan y plentyn y galluedd i roi cyfarwyddiadau i'r cynrychiolydd cyfreithiol.

Gellir gwneud ceisiadau i Adran Deulu'r Uchel Lys, ond dim ond os yw achos sy'n ymwneud â'r un partiön eisoes yn cael ei glywed yn yr Uchel Lys neu os yw'r llys yn cytuno y gellir gwneud y cais yn yr Uchel Lys. Mewn achosion eraill, dylid gwneud ceisiadau i'r Llys Teulu.

⁵⁹ Fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Priodasau dan Orfod (Amddiffyn Sifil). 2007.

⁶⁰ [Gorchymyn Deddf Cyfraith Teulu 1996 \(Priodas dan Orfod\)\(Trydydd Parti Perthnasol\). 2009 \(legislation.gov.uk\)](http://legislation.gov.uk)

Gall FMPO wneud cais yng Nghymru a Lloegr neu dramor - lle mae'r PTBP wedi'i gymryd. Er enghraifft, gall gorchymyn gynnwys darpariaeth bod rhaid galluogi person dramor i siarad â swyddog heddlu, gweithiwr cymdeithasol, cynrychiolydd cyfreithiol, neu swyddog consylaidd. Fodd bynnag, ni all y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu, ac unrhyw Uchel Gomisiwn y gofynnir iddo gynorthwyo mewn achosion o'r fath, ddarparu cymorth consylaidd ond i wladolion Prydeinig, gwladolion deuol nad ydynt mewn gwledydd o'u cenedligrwydd arall (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol gan gynnwys priodas dan orfod), neu mewn rhai amgylchiadau gwladolion y Gymanwlad, ac yn unol â deddfau lleol.

Nid oes modd gorfodi FMPO yn benodol mewn unrhyw awdurdodaeth arall. Pe byddai gorchymyn yn cael ei wneud yn ceisio rhwymo rhywun dramor efallai y bydd angen ceisio ei orfodi mewn llys tramor. Nid oes gan lysoedd Cymru a Lloegr unrhyw awdurdodaeth mewn gwledydd tramor. Mewn achosion lle mae PTBP wedi'i ddileu dramor dylid gwneud y cais am orchymyn i'r Uchel Lys fel y gall, os oes angen, wneud gorchymynion o dan ei awdurdodaeth gynhenid ochr yn ochr â'r pwerau o dan Ddeddf Cyfraith Teulu 1996. Mae gorchymyn Uchel Lys hefyd yn mwynhau mwy o gydnabyddiaeth mewn rhai awdurdodaethau tramor gan ei fod yn hwyluso'r defnydd o gyfundebau a phrotocolau dwyochrog.

Yn ogystal â'r rhwymedi penodol yn Neddf 1996, mae sawl gorchymyn sifil a theulu arall y gellir eu gwneud i amddiffyn y rhai sydd dan fygythiad, neu sydd eisoes mewn, priodas dan orfod. Gweler y gorchymynion eraill a gwmpesir yn y bennod hon.

16.5 Amgylchiadau lle dylid gwneud cais am FMPO

Gall dioddefwyr priodas dan orfod fod yn amharod i gymryd camau cyfreithiol i amddiffyn eu hunain oherwydd ofn troseddol i'r rhai dan sylw a'r ôl-ffeithiau posibl, gan gynnwys bygythiadau i'w diogelwch corfforol, a'r dieithriad a'r stigma sy'n gysylltiedig â'u teulu a'u cymuned. Efallai na fyddant ychwaith mewn sefyllfa i gymryd camau cyfreithiol ar eu rhan eu hunain.

Mae'r rhai sy'n gweithio ym maes amddiffyn plant a chydag oedolion sy'n wynebu risg o niwed yn fwyaf tebygol o ddod ar draws achosion o briodas dan orfod ac mae angen iddynt ystyried yr opsiwn o wneud cais am FMPO ochr yn ochr â mesurau amddiffyn presennol eraill er mwyn cyflawni eu dyletswyddau statudol.

Gall FMPOs fod yn fodd effeithiol o ddiogelu dioddefwyr a dioddefwyr posibl, atal priodas dan orfod rhag digwydd neu, os yw'r briodas eisoes wedi digwydd, cefnogi a lliniaru canlyniadau hynny i'r dioddefwr.

16.6 Gwneud cais am FMPO

Mae adran 63C o Ddeddf 1996 yn caniatáu i'r llys wneud FMPO ar gais neu, mewn unrhyw achos teuluol arall sy'n ymwneud â'r ateb, heb i gais gael ei wneud iddo os yw'n ystyried bod angen gorchymyn i amddiffyn person (boed yn barti i'r achosion hwnnw ai peidio). Rhaid gwneud cais ar Ffurflen FL401A: Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod.⁶¹ Os nad yw'r ymgeisydd yn PTBP nac yn RTP,

⁶¹ [Ffurflen FL401A: Cais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/forms/ffurflen-fl401a-cais-am-orchymyn-amddiffyn-priodas-dan-orfod)

rhaid iddo hefyd wneud cais am ganiatâd y llys i wneud y cais gan ddefnyddio ffurflen FL430, sef Cais am ganiatâd i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod.⁶²

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am FMPO, gan gynnwys dolenni i'r ffurflenni cais, ar gael yma: [Gwneud cais am orchymyn amddiffyn priodas dan orfod: Sut i wneud cais - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

Gall yr ymgeisydd ofyn i delerau gael eu cynnwys yn yr FMPO, er mai'r llys fydd yn penderfynu beth yw'r telerau. Gellir teilwra telerau'r gorchymyn a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 1996 i ddiwallu anghenion penodol y PTBP. Gall y telerau hyn ymwneud ag ymddygiad y tu mewn ac y tu allan i Gymru a Lloegr. Gellir gwneud FMPOs yn erbyn pobl sy'n gorfodi neu'n ceisio gorfodi person i briodi, neu a allai wneud hynny. Gallant hefyd gael eu gwneud yn erbyn pobl sydd, neu a allai ddod yn gysylltiedig ag agweddau eraill, megis y rhai sy'n cynorthwyo, cefnogi, cynghori, caffael, annog neu gynorthwyo rhywun arall i orfodi, neu geisio gorfodi, person i ymrwymo i briodas. neu sy'n cynllwynio i wneud hynny. Gall y gorchymyn gael ei wneud am gyfnod penodedig neu gall barhau hyd nes iddo gael ei amrywio neu ei gyflawni. Argymhellir ceisio cyngor cyfreithiol arbenigol bob amser.

Mae adran 63D o Ddeddf 1996 yn caniatáu i'r llys wneud FMPO er nad yw hysbysiad o'r cais wedi'i roi i'r atebydd(wyr). Gelwir hyn yn orchymyn ex parte, lle mae'r llys yn ystyried ei bod yn "gyfiawn a chyfleus" gwneud y gorchymyn. Wrth benderfynu a ddylid gwneud hynny, bydd y llys yn ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys unrhyw risg o niwed sylweddol i'r PTBP neu berson arall pe na byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud ar unwaith, neu a fyddai'r ymgeisydd yn cael ei rwystro neu ei atal rhag dilyn gorchymyn pe na byddai'n cael ei wneud ar unwaith. Bydd y llys hefyd yn ystyried a oes rheswm i gredu bod yr atebydd yn ymwybodol o'r achos a'i fod yn osgoi cyflwyno gwasanaeth yn fwriadol ac a fyddai unrhyw oedi cyn cyflawni rhyw fath o wasanaeth yn achosi niwed difrifol i'r PTBP neu (os yw'n berson gwahanol) i'r ymgeisydd.

Mae'n bosibl i'r llys wneud FMPO yn absenoldeb y PTBP: er enghraifft, pan yw awdurdod lleol yn gwneud y cais yn hytrach na bod y PTBP yn gwneud hynny. Gall hyn fod yn angenrheidiol os yw'r PTBP mewn perygl uniongyrchol neu mewn perygl o gael ei gludo dramor.

Mae'n debygol y bydd FMPO a wneir heb roi rhybudd ymlaen llaw i'r PTBP a/neu'r atebydd(wyr) yn cael ei wneud am gyfnod cyfyngedig, a chyfeirir ato fel FMPO "interim".⁶³ Bydd y PTBP a'r ymatebwyr yn cael copi o'r FMPO a'r cais. Bydd y llys yn rhestru gwrandawriad arall y bydd y PTBP a'r atebydd(wyr) yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol er mwyn gwneud eu sylwadau. Bydd y llys wedyn yn penderfynu a ddylid gwneud GMBO pellach.

⁶² [Ffurflen FL430: Cais am ganiatâd i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁶³ [FL701 - Gorchymynion Amddiffyn Priodas dan Orfod - Sut y gallant fy amddiffyn? \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)

Os bydd y PTBP yn penderfynu tynnu ei gais am FMPO yn ôl, dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau ei fod yn tynnu'n ôl o'i ewyllys rydd ei hun ac nad yw'n cael ei orfodi.

16.7 Terminoleg a ddefnyddir mewn FMPOs

Mae FMPOs yn aml yn cynnwys y termau dilynol:

“Gwaherddir yr ymatebwyr, boed yn gweithredu ar eu pen eu hunain, ar y cyd, ag un arall neu drwy gyfarwyddo, annog neu awgrymu i berson arall, rhag:

- Cymryd unrhyw gamau i achosi, neu ganiatáu i achosi, [enw'r person sydd i'w warchod] ymgymryd ag unrhyw drefniadau neu unrhyw seremoni (neu seremoni honedig) mewn perthynas â'r briodas, partneriaeth sifil, dyweddïad neu briodas boed hynny drwy seremoni sifil neu grefyddol boed hynny o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, [gwlad o bryder] neu unrhyw le arall dramor.
- Gorfodi neu geisio gorfodi [enw'r person sydd i'w warchod] i wneud unrhyw drefniadau neu unrhyw seremoni (neu seremoni honedig) mewn perthynas â'r briodas, partneriaeth sifil, dyweddïad neu briodas boed drwy seremoni sifil neu grefyddol boed hynny o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, [gwlad o bryder] neu unrhyw le arall dramor.
- Cyfarwyddo neu annog fel arall [enw'r person sydd i'w warchod] i ymrwymo i unrhyw drefniant neu unrhyw seremoni (neu seremoni honedig) mewn perthynas â'r briodas, partneriaeth sifil, dyweddïad neu briodas boed hynny drwy seremoni sifil neu grefyddol boed hynny o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, [gwlad o bryder] neu unrhyw le arall dramor.
- Hwyluso, caniatáu neu ganiatáu fel arall [enw'r person sydd i'w warchod] i wneud unrhyw drefniadau neu unrhyw seremoni (neu seremoni honedig) mewn perthynas â'r briodas, partneriaeth sifil, dyweddïad neu briodas boed drwy seremoni sifil neu grefyddol boed o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, [gwlad o bryder] neu unrhyw le arall dramor.
- Cynorthwyo, annog, cynghori, caffael, annog, cyfarwyddo neu gynorthwyo unrhyw berson i wneud unrhyw drefniadau neu unrhyw seremoni (neu seremoni honedig) mewn perthynas â'r briodas, partneriaeth sifil, dyweddïad neu briodas boed hynny drwy seremoni sifil neu grefyddol boed hynny o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, [gwlad o bryder] neu unrhyw le arall dramor ar gyfer [enw'r person sydd i'w warchod].
- Bygwth, brawychu neu aflonyddu [enw'r person sydd i'w warchod] neu annog, cyfarwyddo neu gynorthwyo unrhyw berson arall i wneud hynny.
- Defnyddio neu fygwth defnyddio trais yn erbyn [enw'r person sydd i'w warchod] neu annog, cyfarwyddo neu gynorthwyo unrhyw berson arall i wneud hynny.”

“Gorchmynnir yr ymatebwyr i:

- Ildio'r holl ddogfennau teithio, Prydeinig neu fel arall, wrth gyflwyno'r gorchymyn hwn.
- Peidio â thynnu [enw'r person sydd i'w warchod] o awdurdodaeth Cymru a Lloegr hyd nes y caiff y gorchymyn hwn ei gyflawni neu ei amrywio.
- Sicrhau bod gan [enw'r person sydd i'w warchod] ffôn symudol ar gael iddo/iddi 24/7 hyd nes y caiff y gorchymyn hwn ei gyflawni neu ei amrywio.
- Sicrhau bod [enw'r person sydd i'w warchod] yn mynychu apwyntiadau wythnosol a drefnir gan yr awdurdod lleol hyd nes y caiff y gorchymyn hwn ei gyflawni neu ei amrywio.”

Pan yw'r person sydd i'w amddiffyn dramor a bod angen ei ddychwelyd i'r DU, defnyddir y termau dilynol yn aml:

- “Bydd yr ymatebwyr naill ai drwy weithio'n unigol neu gyda'i gilydd yn dychwelyd ar unwaith neu fel arall yn cymryd unrhyw gamau a phob cam sydd ar gael iddynt i ddychwelyd [enw'r person a warchodir] i awdurdodaeth Cymru a Lloegr.
- Mae'r ymatebwyr [enw'r personau] ar unwaith ar ôl cyflwyno'r gorchymyn hwn iddynt, yn rhoi eu pasbortau eu hunain a dogfennau teithio eraill i [orsaf heddlu a enwir].
- Ar ôl i'r plant ddychwelyd i Gymru a Lloegr, gwaherddir yr ymatebwyr [person a enwir] rhag gwneud cais am basbort newydd neu ddogfennau teithio eraill gan Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi neu gan unrhyw asiantaeth basbortau eraill yn y DU neu dramor ar gyfer [personau a enwir] hyd nes y clywir yn wahanol.
- Gwaherddir yr ymatebwyr [person a enwir] rhag gwneud cais am basbort newydd neu ddogfennau teithio eraill gan Swyddfa Basbort Ei Mawrhydi neu gan unrhyw asiantaeth basbortau eraill yn y DU neu dramor ar gyfer [enw'r person sydd i'w warchod] hyd nes y bydd y gorchymyn hwn yn cael ei amrywio neu ei gyflawni.
- Bydd yr ymatebwyr yn rhoi eu caniatâd ysgrifenedig i'r Ymgeiswyr adael [y wlad sy'n peri pryder].”

16.8 Ymrwymadau yn lle bod y llys yn gwneud FMPO

Gall y llys dderbyn “ymrwymiad” gan yr ymatebydd yn hytrach na gwneud FMPO (adran 63E o Ddeddf 1996).

Fodd bynnag, ni all y llys dderbyn ymrwymiad os yw'n ymddangos i'r llys bod (a) yr ymatebydd wedi defnyddio neu figwth trais yn erbyn y PTBP a (b) er mwyn diogelu'r PTBP ei bod yn angenrheidiol gwneud FMPO fel bod unrhyw doriad arno'n cael ei gosbi o dan adran 63CA o Ddeddf 1996 (gweler isod).

Os bydd ymatebydd yn rhoi ymrwymiad, gall y llys ei orfodi yn yr un modd ag y byddai FMPO.

16.9 Toriad ar FMPO

Gellir cosbi toriad ar FMPO fel dirmyg sifil o'r llys neu fel tramgwydd troseddol. O dan adran 63CA o Ddeddf 1996, mae torri FMPO heb esgus rhesymol yn dramgwydd troseddol ag uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar, dirwy neu'r ddau.⁶⁴ Mae hyn yn golygu y gall yr heddlu arestio person sy'n torri amodau gorchymyn heb fod angen i'r llys atodi pŵer arestio i'r gorchymyn neu i'r dioddefwr wneud cais i'r Llys Teulu (neu i'r Uchel Lys) am warant arestio.

Yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu i unrhyw doriad, bydd y CPS yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen ag erlyniad drwy weithredu'r prawf dau gam yn y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron: a oes digon o dystiolaeth i roi gobaith realistig o euogfarn; ac, os felly, a yw erlyniad er budd y cyhoedd.

Fel dewis arall i'r llwybr troseddol, mae'n bosibl gwneud cais i'r llys a wnaeth y gorchymyn i'r toriad gael ei gosbi fel dirmyg llys (y dirmyg perthnasol yw methu â chydymffurfio â gorchymyn llys). Rhaid i'r FMPO fod wedi cynnwys hysbysiad cosb er mwyn iddo allu cael ei orfodi drwy orchymyn traddodi (esbonnir hyn yn fanylach yn Rhan 37 o Reolau'r Weithdrefn Deuluol).⁶⁵ Rhaid i'r person sy'n gwneud y cais traddodi ddefnyddio Ffurflen FP2 i nodi'n llawn y seiliau dros wneud y cais a phob gweithred o ddirmyg (toriad). Gall yr ymgeisydd hefyd wneud cais am warant arestio, y mae'n rhaid ei hategu gan ddatganiad ar lw yn nodi sut y torrwyd y gorchymyn neu'r ymrwymiad. Rhaid gwneud y cais ar Ffurflen FL407A "Gwarant i Arestio ar gyfer Gorchymynion Amddiffyn Priodas dan Orfod".

Mae'n rhaid i berson a arestir dan warant arestio gael ei ddwyn gerbron y llys, ac os na phenderfynir ar y cais traddodi ar unwaith, gellir cadw'r person yn y ddalfa neu ar fechnïaeth (mae adran 63K ac Atodlen 5 i Ddeddf 1996 yn gwneud darpariaeth fanwl).

Yn gyffredinol, gall canfyddiad o ddirmyg sifil gael ei gosbi â dirwy, neu l'r person gael ei draddodi i garchar am hyd at ddwy flynedd (a all fod ar unwaith neu wedi'i ohirio) er bod pwerau gwahanol lefelau o farnwyr yn y llys teulu i osod sancsiynau am ddirmyg llys yn wahanol. Os bydd rhywun wedi'i ddyfarnu'n euog o'r drosedd toriad mewn llys troseddol ni ellir ei gosbi hefyd am ddirmyg llys, ac i'r gwrthwyneb.

16.10 Cyflawni ac amrywio FMPO

O dan adran 63G o Ddeddf 1996, gall y llys amrywio neu gyflawni FMPO. Rhaid gwneud cais ar Ffurflen FL403A (Cais i amrywio, ymestyn neu ollwng Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod).⁶⁶

⁶⁴ Fel y'i diwygiwyd gan adran 120, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona 2014.

⁶⁵ [RHAN 37 - CEISIADAU AC ACHOSION SY'N GYSYLLTIEDIG Â DIRMYG LLYS \(justice.gov.uk\)](https://www.justice.gov.uk/rhan-37-ceisiadau-ac-achosion-syn-gysylltiedig-a-dirmyg-llys)

⁶⁶ [Ffurflen FL403A: Cais i amrywio, ymestyn neu ollwng Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/344443/FL403A_Cais_i_amrywio_ymestyn_neu_ollwng_Gorchymyn_Amddiffyn_Priodas_dan_Orfod.pdf)

16.11 Gorchymyn Amddiffyn Brys (EPO) a.44 Deddf Plant, 1989

Os nad yw'r heddlu'n fodlon mynd â phlentyn neu berson ifanc i amddiffyniad yr heddlu, neu os, am unrhyw reswm, nad yw cam o'r fath yn briodol, neu os na ellir datrys y sefyllfa yn ystod y 72 awr o amddiffyniad yr heddlu, dylid ystyried EPO. Gall unrhyw un wneud y cais gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, gweithwyr ieuencid, eiriolwyr neu ffrindiau'r plentyn neu'r person ifanc, ond yn ymarferol fe'i gwneir fel arfer gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant.

Mae EPO yn gweithredu fel cyfarwyddyd i unrhyw berson sydd mewn sefyllfa i wneud hynny (er enghraifft y rhieni) i gynhyrchu'r plentyn i'r ymgeisydd (er enghraifft gofal cymdeithasol plant), ac yn awdurdodi'r ymgeisydd i symud y plentyn a'i gadw yn y llety a ddarperir gan yr ymgeisydd. Gall hefyd awdurdodi atal plentyn rhag cael ei symud o ysbyty neu unrhyw le arall yr oedd yn cael ei letya ynddo yn union cyn y gorchymyn. Gall y llys roi cyfarwyddiadau yn yr EPO ynghylch unrhyw gyswllt y gall y plentyn ei gael ag unrhyw berson a enwir, yn ogystal â chyfarwyddiadau ynghylch archwiliadau meddygol neu seiciatrig/asesiadau eraill o'r plentyn. Gall y llys hefyd atodi gofyniad gwahardd i EPO a all wahardd y person perthnasol o'r cartref, ac o ardal ddynodedig o amgylch y cartref. Gellir cysylltu pŵer i arestio â'r gofyniad gwahardd.

Mae EPO yn arwain at roi cyfrifoldeb rhiant am y plentyn i'r ymgeisydd, er mai dim ond i'r graddau y mae'n angenrheidiol i ddiogelu neu hybu lles y plentyn y mae'n rhaid arfer y cyfrifoldeb rhiant. Mae EPO yn parhau hyd at wyth diwrnod ond gellir ei ymestyn trwy wneud cais i'r llys am hyd at saith diwrnod arall os oes gan y llys achos rhesymol i gredu bod y plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol os na chaiff yr EPO ei ymestyn. Dim ond unwaith y gellir ymestyn yr EPO.

Pan hysbysir awdurdod lleol bod plentyn sy'n byw yn ei ardal neu y ceir hyd iddo yn ei ardal yn destun EPO, rhaid iddo wneud ymholiadau o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

Pan yw EPO wedi'i roi i ymgeisydd nad yw'n awdurdod lleol, a bod yr awdurdod lleol o'r farn y byddai er budd pennaf y plentyn i gyfrifoldebau'r ymgeisydd gael eu trosglwyddo iddo, rhaid i'r awdurdod lleol, ar ôl cydymffurfio â gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth, gael eu trin fel mai nhw yw'r ymgeisydd (gweler y Rheoliadau Gorchymynion Amddiffyn Brys (Trosglwyddo Cyfrifoldebau 1991)).⁶⁷

Mae gan y llys y pŵer i roi gorchymynion heb l rybudd gael ei roi i rieni neu ar fyr rybudd, ond bydd ond yn ystyried ceisiadau heb rybudd mewn achosion risg uchel lle byddai diogelwch y plentyn mewn perygl pe byddai'r rhieni'n gwybod am y cais, neu os, am rhesymau eraill, nad yw'n bosibl eu hysbysu. Mewn achosion eithriadol, lle mae'r cais yn arbennig o frys, gellir ei wneud dros y ffôn.

Gellir gwneud cais i'r llys am gyflawni EPO drwy:

⁶⁷ [Rheoliadau Gorchymyn Amddiffyn Brys \(Trosglwyddo Cyfrifoldebau\) 1991 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)

- y plentyn;
- eu rhiant;
- unrhyw berson nad yw'n rhiant ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; neu
- unrhyw un yr oedd y plentyn yn byw gydag ef yn union cyn i'r EPO gael ei wneud.

Os oes angen amddiffyn y plentyn neu'r person ifanc, dylid gofyn i'r llys am orchymyn sy'n datgan na fydd unrhyw gyswllt (neu fod cyswllt cyfyngedig) yn ystod cyfnod yr EPO. Os na ofynnir am hyn, mae rhagdybiaeth o gyswllt rhesymol.

16.12 Gorchmynion gofal a gorchmynion goruchwylio

Weithiau, dilyniir GAB gan gais gan yr awdurdod lleol am orchymyn gofal (adran 31 ac a.33 Deddf Plant 1989). Effaith gorchymyn gofal yw lleoli plentyn yng ngofal yr awdurdod lleol, sy'n rhannu cyfrifoldeb rhiant am y plentyn gyda rhieni'r plentyn o dan y gorchymyn. Bydd yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol a ddynodir gan y gorchymyn i dderbyn y plentyn i'w ofal a'i gadw yn ei ofal tra bod y gorchymyn yn dal mewn grym.

Gall yr awdurdod lleol hefyd wneud cais am orchymyn goruchwylio (a.31 a 35 o Ddeddf Plant 1989), a'i effaith yw gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i gynghori, cynorthwyo a chyfeillio'r plentyn. Gall ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr awdurdod lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo fyw mewn man penodedig, gwneud gweithgareddau penodol ac adrodd i le penodol ar amser penodol. Nid yw'n rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol.

Ni fydd llys yn gwneud gorchymyn gofal neu oruchwylio (gan gynnwys gorchmynion gofal interim a goruchwylio o dan a.38 Deddf Plant 1989) oni bai ei fod yn fodlon bod sail resymol dros gredu bod y meini prawf trothwy dilynol wedi'u diwallu, fel y nodir yn a. 31(2) o Ddeddf Plant 1989:

1. Mae'r plentyn dan sylw yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol; a
2. Mae'r niwed, neu'r tebygolrwydd o niwed, i'w briodoli i (a) y gofal a roddir i'r plentyn, neu'n debygol o gael ei roi iddo pe na byddai'r gorchymyn yn cael ei wneud, nad yw'r hyn y byddai'n rhesymol disgwyl i riant ei roi. i blentyn, neu (b) bod y plentyn y tu hwnt i reolaeth y rhiant.

Sylwer: (fel y'i diffinnir o dan adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989):

Y termau:

- ystyr “**niwed**” yw cam-drin neu amhariad ar iechyd neu ddatblygiad gan gynnwys, er enghraifft, nam a ddioddefir o weld neu glywed rhywun arall yn cael ei gam-drin. Mae cam-drin yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gam-drin nad ydynt yn gorfforol. Mae adran 31(10) yn datgan pan fo'r cwestiwn a yw'r niwed a ddioddefir gan blentyn yn sylweddol yn troi ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, rhaid cymharu ei iechyd neu ddatblygiad â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl gan blentyn tebyg.
- ystyr “**datblygiad**” yw datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol;

- ystyr “**iechyd**” yw iechyd corfforol neu feddyliol;
- mae “**cam-drin**” yn cynnwys cam-drin rhywiol a mathau o gam-drin nad ydynt yn gorfforol.

Cyfrifoldeb y llys yw penderfynu a oes angen gorchymyn i amddiffyn y person ifanc a pha fath o orchymyn sydd fwyaf priodol.

Mae adran 31(3) Deddf Plant 1989 yn darparu na ellir gwneud unrhyw orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio mewn perthynas â phlentyn sydd wedi cyrraedd 17 oed (neu 16 oed, yn achos plentyn sy'n briod). Nid yw'r pwynt wedi'i brofi ynghylch a fyddai'r llys yn fodlon gwneud gorchymyn gofal mewn perthynas â pherson ifanc sy'n 16 oed ac sy'n honni ei fod ef neu hi yn destun priodas dan orfod.

Mantais gorchymyn gofal yn hytrach na gorchymyn goruchwylio yw ei fod yn caniatáu mwy o amddiffyniad i'r person ifanc, gan y gall yr awdurdod lleol gael gorchymyn nad oes cysylltiad â'r teulu a gall guddio ble mae'r plentyn os yw'n angenrheidiol i sicrhau amddiffyniad digonol. Mae hefyd yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol am y plentyn a'r pŵer i benderfynu i ba raddau y gall rhieni'r plentyn ac eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant arfer eu cyfrifoldeb pan yw hynny'n angenrheidiol i ddiogelu neu hybu lles y plentyn. Mae hefyd yn parhau'n hirach (yn dibynnu ar oedran y plentyn pan wneir y gorchymyn gofal) - bydd y gorchymyn gofal yn peidio â chael effaith yn 18 oed oni bai ei fod yn dod i ben yn gynt. Gellir gwneud gorchymyn goruchwylio am gyfnod hyd at flwyddyn, er y gellir ei ymestyn am unrhyw gyfnod hyd at gyfanswm o dair blynedd o ddyddiad y gorchymyn terfynol cyntaf (yn hytrach nag interim).

Tra bod gorchymyn gofal mewn grym, ni chaiff neb symud y plentyn o'r DU heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol a phob person arall sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu ganiatâd y llys. Nid yw hyn yn atal yr awdurdod lleol y mae'r plentyn yn gofalu amdano rhag symud y plentyn o'r DU am gyfnod o lai na mis ac ni fydd ychwaith yn berthnasol i drefniadau i'r plentyn fyw y tu allan i Gymru a Lloegr.

Mae'n drosedd o dan adran 49 o Ddeddf Plant 1989 i fynd â phlentyn y mae'r adran yn gymwys iddo oddi wrth y person cyfrifol, cadw plentyn o'r fath i ffwrdd o'r person cyfrifol yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithiol neu esgus rhesymol, cadw plentyn o'r fath i ffwrdd o'r person cyfrifol neu gymell, cynorthwyo neu annog plentyn o'r fath i redeg i ffwrdd neu gadw draw o'r person cyfrifol. Mae adran 49 yn berthnasol i blant mewn gofal (h.y., y rhai sy'n destun gorchymyn gofal) yn ogystal â'r rhai sy'n destun gorchymyn amddiffyn brys neu sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu. Y person cyfrifol fydd unrhyw berson sydd am y tro yn gofalu am y plentyn yn rhinwedd y gorchymyn gofal, yr amddiffyniad brys neu o dan adran 46 o Ddeddf Plant 1989 (symud a llety gan yr heddlu) yn ôl y digwydd.

Pan nad oes gorchymyn gofal neu oruchwylio ar gael oherwydd oedran y person ifanc, dylai gofal cymdeithasol plant fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gorchymyn ward llys. Mae hwn ar gael i blant hyd at 18 oed ac er na all y gwasanaethau cymdeithasol eu hunain gael person ifanc wedi'i "wardio" (heb ganiatâd y llys o dan adran 100 Deddf Plant 1989), gall y person ifanc neu ffrind neu eiriolwr sy'n oedolyn wneud cais am wardiaeth. Gellir cysylltu amrywiol waharddebau â wardiaeth yn ôl yr angen. Yn gyffredin iawn, ar gyfer person ifanc sy'n ofni cael ei gludo dramor, bydd y gwaharddebau'n ymwneud ag ildio pasbortau i'r llys fel na

chaiff y person ifanc adael yr awdurdodaeth heb ganiatâd y llys (gweler adran 16.14 am ragor o wybodaeth am wardiaeth).

Caiff y rhieni gytuno i'r plentyn gael ei letya gan yr awdurdod lleol o dan adran 20 o Ddeddf Plant 1989. Mae plentyn sy'n cael ei letya o dan y ddarpariaeth hon hefyd yn "derbyn gofal" ond mae'r rhiant yn cadw cyfrifoldeb rhiant a chaiff symud y plentyn oddi yno ar unrhyw adeg. Dylai'r llety a ddarperir amddiffyn y plentyn yn ddigonol.

Os oes perthynas neu oedolyn y gall y person ifanc ymddiried ynddo, gallai'r person hwnnw wneud cais am orchymyn trefniadau plentyn mewn perthynas â'r person ifanc. Gellir gwneud hyn fel cais annibynnol neu o fewn yr achos gofal. Unwaith eto, mae'r cwestiwn yn debygol o godi a fyddai gweithred o'r fath yn darparu amddiffyniad digonol i'r person ifanc. Er y byddai deiliad y gorchymyn trefniadau plentyn yn rhannu cyfrifoldeb rhiant, byddai'r rhieni'n cadw eu cyfrifoldeb rhiant a byddent yn gwybod ble roedd y person ifanc yn byw. Fodd bynnag, gallai deiliad y gorchymyn trefniadau plant hefyd wneud cais am orchymyn camau gwaharddedig neu orchymyn mater penodol i gadw lleoliad y plentyn heb ei ddatgelu.

Os nad yw'r plentyn mewn gofal, mae hefyd yn bosibl i awdurdod lleol gael gorchymyn camau gwaharddedig o dan a.8 Deddf Plant 1989. Gallai gorchymyn o'r fath wahardd y rhieni rhag symud y person ifanc o'r wlad heb ganiatâd y llys. Byddai angen i'r awdurdod lleol ofyn am ganiatâd y llys cyn iddo gael gorchymyn o'r fath. Nid yw gorchymyn o'r fath yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r awdurdod lleol.

Yn dilyn gorchymyn camau gwaharddedig, dylai gofal cymdeithasol plant, addysg a'r heddlu gymryd camau pellach i fonitro lles a diogelwch parhaus y plentyn os yw'n parhau i fyw yn y cartref teuluol.

16.13 Awdurdodaeth gynhenid

Bydd achosion lle nad yw gorchymyn gofal yn briodol, o bosibl oherwydd oedran y plentyn. Gall adran gofal cymdeithasol plant ofyn i'r llys arfer ei awdurdodaeth gynhenid i amddiffyn y plentyn. Gall unrhyw barti â buddiant, gan gynnwys y person ifanc ei hun, unigolyn preifat neu wasanaethau cyfreithiol y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass, neu, yng Nghymru, Cafcass Cymru), wneud cais i wneud person ifanc hyd at 18 oed yn ward llys.

At ddibenion sicrhau amddiffyniad i blentyn neu berson ifanc, nid oes llawer o wahaniaeth rhwng gardiaeth a'r gorchymynion eraill a wneir wrth arfer awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys. Mae'r ddau fath o orchymyn o dan yr awdurdodaeth gynhenid yn hyblyg ac yn eang eu cwmpas a gellir ceisio gorchymyn naill ai lle mae risg wirioneddol y bydd plentyn neu berson ifanc yn cael ei orfodi i briodi neu ar ôl i'r briodas ddigwydd. Pan fo ofn y gallai plentyn neu berson ifanc gael ei gludo dramor at ddiben priodas dan orfod, gellir gwneud gorchymyn i ildio ei basbort yn ogystal â gorchymyn na chaiff y plentyn neu'r person ifanc adael yr awdurdodaeth. heb ganiatâd y llys.

16.14 Cais am wardiaeth

Unwaith y bydd plentyn wedi gadael y wlad, mae llai o opsiynau cyfreithiol ar gael i'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol ac eraill i adennill y person ifanc a dod ag ef

yn ôl i'r DU. Un ffordd o weithredu yw ceisio dychwelyd y person ifanc i awdurdodaeth Cymru a Lloegr drwy ei wneud yn ward llys, yn ogystal â chymryd FMPO.

Gwneir cais am wardiaeth i Adran Deulu'r Uchel Lys, a gall gael ei wneud gan berthynas, ffrind sy'n agos at y plentyn neu berson ifanc, y Cafcass, neu, yng Nghymru, Cafcass Cymru, adran gwasanaethau cyfreithiol, neu unrhyw barti a chanddynt fuddiant, gan gynnwys awdurdod lleol, os oes ganddo ganiatâd o dan a.100(3) o Ddeddf Plant 1989. Mae gan yr Uchel Lys brofiad helaeth o achosion priodas dan orfod ac o ymdrin â hwy yn gyflym. Mae ei orchmynion yn yr awdurdodaeth gynhenid ac o dan wardiaeth yn cael mwy o ddylanwad mewn gwladwriaethau tramor.

Mae Barnwr Ceisiadau Adran Deuluol Argyfwng ar gael am 10.30 am a 2 pm ar bob diwrnod gwaith yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn y Strand, Llundain, i wrando ar geisiadau heb rybudd. Unwaith y ceir y gorchymyn, gellir ceisio cydweithrediad yr awdurdodau yn y wlad y cymerwyd y plentyn neu berson ifanc iddi. Heb gydweithrediad o'r fath, gall fod yn anodd dod o hyd i'r plentyn neu berson ifanc a'i ddychwelyd.

16.15 Gorchmynion Tipstaff

Mewn achosion o gipio plant a phriodas dan orfod, mae'n bosibl y bydd modd gofyn i orchymyn gael ei gyfeirio at Tipstaff, y swyddogion gorfodi ar gyfer gorchmynion a wneir yn yr Uchel Lys. Gall hwn fod yn un o'r gorchmynion dilynol: Gorchymyn Casglu, Gorchymyn Lleoli neu Orchymyn Atafaelu Pasbort. Mae'r gorchmynion hyn yn darparu ar gyfer: rhybudd porthladd yn erbyn y plentyn neu'r oedolyn agored i niwed ac ymatebwyr; symud plentyn neu oedolyn agored i niwed o ofal ymatebydd neu gyfeiriad lle mae'n byw a thynnu pasbortau, Cardiau Adnabod a'r holl ddogfennau teithio yn enw plentyn neu oedolyn agored i niwed a'r ymatebydd. Mae'r gorchmynion yn cynnwys cyfarwyddyd i Tipstaff i arestio unrhyw berson sy'n anufuddhau i'r gorchymyn, ar ôl cael copi ohono, a chyfarwyddyd i Tipstaff fynd i mewn a chwilio, gan ddefnyddio grym os oes angen.

Yn achos plant sydd wedi'u datgan yn ward llys – h.y. achosion lle mae'r llys yn gweithredu in loco parentis, – mae gan Tipstaff, lle cyfarwyddir gan orchymyn llys, rôl i'w chwarae i sicrhau bod y plant hynny'n cael eu danfon i'r lleoliadau a nodir gan y llys.

16.16 Gorchymyn peidio ag ymyrryd

Mae gorchymyn peidio ag ymyrryd yn gwahardd person rhag ymyrryd â neu aflonyddu ar berson neu blentyn arall. Mae'r pŵer deddfwriaethol i wneud gorchymyn wedi'i gynnwys yn adran 42 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996 ('Deddf 1996'). Nid yw'r Ddeddf yn diffinio 'ymyrryd' ond cymerir bod y gair yn cwmpasu ystod eang o ddigwyddiadau megis trais neu fygythiadau o drais, hyd at boeni ac ymyrryd cyffredinol. Pan wneir gorchymyn o'r fath (yr ymatebydd) mae'n gwahardd y person a enwir yn y gorchymyn rhag 'ymyrryd' â'r ymgeisydd neu 'blentyn perthnasol'.

Dim ond yn erbyn person sy'n 'gysylltiedig' â'r ymgeisydd y gellir gwneud gorchymyn peidio ag ymyrryd. Ceir rhestr lawn o bersonau cysylltiedig yn a.62(3) o'r Ddeddf ac mae'n cynnwys:

- Priodau, partneriaid sifil neu gydbreswylwyr presennol neu flaenorol
- Person sy'n byw, neu sydd wedi byw, yn yr un cartref (ond nid os mai'r rheswm pam ei fod yn byw neu wedi byw yn yr un cartref yw oherwydd ei fod yn gyflogai, tenant, lletywr neu westai'r person arall)
- Perthnasau (fel y'u diffinnir yn adran 63(1) o Ddeddf 1996)
- Person y mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'w briodi
- Person y mae neu y bu ganddynt berthynas bersonol agos ag ef/hi am gyfnod sylweddol

Gall y llys wneud gorchymyn heb rybudd bod y cais wedi'i roi i'r person arall, os oes, er enghraifft, risg o niwed sylweddol i'r ymgeisydd neu i blentyn, y gellir ei briodoli i ymddygiad y person arall, os na wneir y gorchymyn ar unwaith (adran 45 o Ddeddf 1996).

Er bod gorchymynion peidio ag ymyrryd yn orchymynion llys sifil, mae torri gorchymyn peidio ag ymyrryd heb esgus rhesymol yn drosedd lle y gellir dirwyo troseddwr neu eu hanfon i garchar amdani (adran 42A o Ddeddf 1996). Gall y llysoedd sifil ymdrin â thorri gorchymyn peidio ag ymyrryd fel dirmyg llys. Ond os yw person yn cael ei ddyfarnu'n euog o drosedd yna ni all hefyd gael ei gosbi am ddirmyg llys.

16.17 Gorchymyn meddiannaeth

Caiff person hefyd geisio gorchymyn meddiannaeth yn erbyn person y mae'n gysylltiedig ag ef o dan adran 33 o Ddeddf 1996. Mae gorchymyn meddiannaeth yn rheoleiddio meddiannaeth eiddo penodol, megis cartref y teulu. Mae'r sail ar gyfer gwneud gorchymyn yn dibynnu ar "hawl neu hawliad" pob person i feddiannu'r eiddo, ac mae'r darpariaethau cyfreithiol yn gymhleth. Bydd angen ceisio cyngor cyfreithiol i ganfod a fyddai'n bosibl i rywun gael gorchymyn o'r fath. Nid yw torri gorchymyn meddiannaeth yn dramgwydd troseddol, ond gall y llysoedd sifil ymdrin ag ef fel dirmyg llys.

16.18 Gorchymynion atal a gwaharddeb yn erbyn aflonyddu

Mae Deddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997 (Deddf 1997) yn ei gwneud yn drosedd i rywun ddilyn cwrs o ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu (adran 2) neu'n peri i rywun ofni y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn (adran 4).

Yn gyffredinol, deallir bod aflonyddu yn cynnwys ymddygiad gormesol ac afresymol amhriodol sy'n cael ei dargedu at unigolyn ac sydd wedi'i fwriadu i'w ddychryn neu achosi gofid iddo. Yn hollbwysig, nid oes angen i elfennau unigol cwrs ymddygiad fod yn droseddol eu hunain; fodd bynnag, gall cyfres o ddigwyddiadau ar y cyd ffurfio cwrs ymddygiad a allai fod yn drosedd. Rhaid i "gwrs ymddygiad" mewn achos o ymddygiad mewn perthynas ag un person gynnwys ymddygiad ar o leiaf ddau achlysur.

Pan yw person wedi'i ddyfarnu'n euog neu'n ddieuog o dramgwydd troseddol o dan y Ddeddf, gellir gwneud gorchymyn atal o dan adran 5 o'r Ddeddf i amddiffyn y dioddefwr neu ddioddefwyr rhag unrhyw ymddygiad yn y dyfodol sy'n gyfystyr ag aflonyddu neu ymddygiad stelcian. Mae torri gorchymyn atal yn dramgwydd troseddol, ag uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar.

Yn ogystal â'r tramgwyddau troseddol, mae adran 3 o Ddeddf 1997 yn darparu rhwymedi sifil. Mae hyn yn galluogi dioddefwr aflonyddu i geisio gwaharddeb sy'n atal person rhag dilyn cwrs ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu, y mae ei dorri'n dramgwydd troseddol. Nid oes angen i berson fod wedi'i ddyfarnu'n euog o aflonyddu er mwyn caniatáu gwaharddeb yn ei erbyn. Os yw llys yn fodlon bod aflonyddu wedi digwydd neu wedi'i ragweld, yna gall ganiatáu'r waharddeb.

17. Asiantaethau Cymorth Cenedlaethol

Mae'r adran hon yn rhoi manylion asiantaethau cymorth cenedlaethol gan gynnwys cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn ac esboniad o'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig.

Ann Craft Trust

Yn cynnig cyngor i weithwyr proffesiynol, rhieni, gofalwyr ac aelodau o'r teulu ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

0115 951 5400

ann-craft-trust@nottingham.ac.uk

www.anncrafttrust.org

Ashiana Network (Llundain)

Yn cynnig lloches, cyngor, eiriolaeth a chwmsela i fenywod BME y mae trais yn erbyn menywod a merched yn effeithio arnynt. Maent hefyd yn darparu dwy loches yn benodol ar gyfer menywod o Dde Asia, Twrci a'r Dwyrain Canol rhwng 16 a 35 oed sydd mewn perygl o briodas dan orfod.

0208 539 0427

info@ashiana.org.uk

www.ashiana.org.uk

Ashiana Sheffield

Yn gweithio gydag oedolion BME ac oedolion sy'n ffoaduriaid, plant a phobl ifanc sy'n ffoi rhag cam-drin domestig a rhywiol, priodas dan orfod, masnachu mewn pobl, trais gangiau a cham-drin ar sail 'anrhydedd'. Yn darparu llety i fenywod sydd â phlant neu hebddynt sy'n oroeswyr masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern. Mae Ashiana hefyd yn darparu dau wely i fenywod sydd wedi profi cam-drin ac nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus.

0114 255 5740

info@ashianasheffield.org

www.ashianasheffield.org

BAWSO

Sefydliad gwirfoddol Cymru gyfan yw BAWSO sy'n darparu gwasanaeth arbenigol i fenywod a phlant BME sy'n cael eu gwneud yn ddigartref oherwydd bygythiad o gam-drin domestig neu ffoi rhag cam-drin domestig yng Nghymru. Mae ganddynt lochesau pwrpasol ledled Cymru. Maent hefyd yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i fenywod BME sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd.

0800 731 8147

info@bawso.org.uk

www.bawso.org.uk

Cymorth i Fenywod Birmingham a Solihull

Yn darparu gwasanaethau i fenywod a phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin rhywiol yn ardal Birmingham a Solihull.

0808 800 0028

www.bswaid.org

Child Line

Mae Child Line yn darparu cymorth i unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd â phroblem.

0800 1111

www.childline.org.uk

Children and Families Across Borders

Mae CAFAB yn nodi ac yn amddiffyn plant agored i niwed sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth oherwydd gwrthdaro, masnachu mewn pobl, mudo, chwalfa deuluol neu faterion yn ymwneud â lloches.

020 7735 8941

info@cfab.org.uk

www.cfab.org.uk

Canolfan Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth yn cynnig gwybodaeth a chyngor cyfrinachol a diduedd am ddim ar ystod eang o bynciau gan gynnwys tai, cyflogaeth, mewnfudo a materion personol..

Lloegr: 0800 144 8848

Cymru: 0800 702 2020

www.citizensadvice.org.uk

Domestic Abuse and Forced Marriage Helpline (Yr Alban)

Mae'r llinell gymorth hon ar gael i gefnogi unrhyw un sydd â phrofiad o gam-drin domestig neu briodas dan orfod, yn ogystal ag aelodau o'u teulu, ffrindiau, cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi. Maent yn darparu gwasanaeth cyfrinachol ac mae'r llinell gymorth ar agor 24/7.

0800 027 1234

helpline@sdaafmh.org.uk

<https://sdaafmh.org.uk/#>

Freedom Charity

Nod Freedom Charity yw grymuso pobl ifanc i deimlo bod ganddyt yr offer a'r hyder i gefnogi ei gilydd ac i gael ffyrdd ymarferol o helpu eu ffrindiau ynghylch materion priodas dan orfod a thrais ar sail 'anrhydedd' ac FGM. Mae gan Freedom Charity gynlluniau gwersi wedi'u hachredu ar gyfer PHSE ar briodasau dan orfod ac FGM ac mae'n cynnig gwasanaethau i ysgolion a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen.

0845 607 0133, Tecstio "4freedom" 88802

Ap rhad ac am ddim ar gael i'w lawrlwytho ar-lein

www.freedomcharity.org.uk

Gaia Centre (Llundain)

Mae Gaia Centre yn darparu cymorth cyfrinachol ac annibynnol i unrhyw un sy'n profi trais ar sail rhywedd ym mwrdeistref Lambeth yn Llundain. Mae hefyd yn darparu lleoedd lloches.

0207 733 8724

www.refuge.org.uk - search for 'Gaia Centre'

Galop

Mae Galop yn cefnogi pobl LGBT+ sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol, troseddau casineb, therapïau trosi bondigrybwyll, cam-drin ar sail 'anrhydedd', priodas dan orfod, a mathau eraill o gam-drin..

0800 999 5428

advice@galop.org.uk

www.galop.org.uk

Gatwick Travel Care

Mae'r gwasanaeth hwn yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gadael y maes awyr a chyrraedd pen eu taith yn ddiogel a heb oedi. Efallai y bydd angen cymorth ar ddioddefwyr priodas dan orfod pan ydynt yn cyrraedd Gatwick, a gellir cysylltu â Travel Care am gyngor. Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 9am a 4pm ar ddydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc.

01293 504283

www.gatwick-airport-guide.co.uk/disabled-facilities.html

Halo Project

Mae'r Halo Project wedi'i leoli yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr ac mae'n darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod, trwy ddarparu cyngor a chymorth priodol i ddioddefwyr.

01642 683045

info@haloproject.org.uk

www.haloproject.org.uk/

Heathrow Travel Care

Gwasanaeth ymyrraeth mewn argyfwng yw hwn sy'n cynnig cymorth i bobl agored i niwed ym Maes Awyr Heathrow. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth ar ddioddefwyr priodas dan orfod ar ôl cyrraedd y maes awyr a gellir cysylltu â Heathrow Travel Care am gyngor ac arweiniad.

020 8745 7495

www.heathrowtravelcare.com

Imkaan

Mae Imkaan yn ymroddedig i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched Du a lleiafrifol. Mae'r sefydliad yn gweithio ar faterion megis cam-drin domestig, priodas dan orfod a cham-drin ar sail 'anrhydedd'. Maent yn gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

020 7842 8525

info@imkaan.org.uk

www.imkaan.org.uk

Include Me TOO

Mae Include Me TOO yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi cynhwysiant, hawliau, cydraddoldeb a chyfranogiad cymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig a chymunedau ymylol, plant anabl, pobl ifanc a'u teuluoedd. Maent yn darparu amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys eiriolaeth, allgymorth, gwybodaeth a ch yngor a chymorth ar roi terfyn ar bob math o gam-drin ac arferion niweidiol.

01902 399888

im2@includemetoo.org.uk

www.includemetoo.org.uk

IKWRO – Sefydliad Hawliau Menywod

Yn darparu cyngor a chymorth i fenywod a merched o'r Dwyrain Canol sy'n wynebu cam-drin ar sail 'anrhydedd', cam-drin domestig, priodas dan orfod ac FGM.

0207 920 6460

www.ikwro.org.uk

JAN Trust

Yn codi ymwybyddiaeth ac yn atal cam-drin a thrais yn erbyn menywod a merched gan gynnwys cam-drin ar sail 'anrhydedd', cam-drin domestig, priodas dan orfod ac FGM. Mae'n darparu gwasanaeth arbenigol i fenywod BME a Mwslimaidd.

0208 889 9433

www.jantrust.org

Karma Nirvana

Mae Karma Nirvana yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod. Maent yn rhedeg llinell gymorth genedlaethol sy'n cynnig cymorth ac arweiniad uniongyrchol i ddioddefwyr a gweithwyr proffesiynol. Maent yn cefnogi unrhyw un y mae cam-drin ar sail 'anrhydedd' a phriodas dan orfod yn effeithio arnynt, nad yw wedi'i bennu gan oedran, rhywedd, ffydd na rhywioldeb.

0800 5999 247

support@karmanirvana.org.uk

www.karmanirvana.org.uk

Language line

Gall y gwasanaeth hwn ddarparu cyfieithydd dros y ffôn ar unwaith mewn 100 o ieithoedd gwahanol, 24 awr y dydd. Nid yw hwn yn wasanaeth rhad ac am ddim.

0800 169 2879

www.language-line.co.uk

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (Cymru)

Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, sy'n cael ei rhedeg gan Cymorth i Fenywod Cymru, yn darparu cymorth a chyngor 24 awr am ddim am drais yn erbyn menywod a merched. Gall eu gwasanaeth llinell gymorth hefyd gynnig cymorth i'r rhai sy'n profi cam-drin ar sail 'anrhydedd' neu briodas dan orfod.

0808 80 10 800

info@livefearfreehelpline.wales

<https://gov.wales/live-fear-free>

London Black Women's Project

Yn gweithio gyda menywod BME yn Llundain sydd wedi profi cam-drin domestig. Gallant helpu gyda gwybodaeth, tai a digartrefedd, manau diogel, iachâd ac dferiad trwy gelfyddyd, cyngor ac eiriolaeth, gwaith allweddol a chymorth therapiwtig.

0208 472 0528

info@lbwp.co.uk

<https://www.lbwp.co.uk>

National Domestic Abuse Helpline (a redir gan Refuge)

Mae Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol Refuge yn darparu gwasanaeth cymorth cyfrinachol am ddim 24 awr y dydd i ddiodefwyr cam-drin domestig a'r rhai sy'n poeni am ffrindiau neu anwyliaid..

0808 2000 247

<https://www.nationaldahelpline.org.uk>

Naz & Matt Foundation

Mae Naz & Matt Foundation yn cefnogi unigolion LGBTQI+, eu ffrindiau a'u teuluoedd i weithio tuag at ddatrys heriau sy'n gysylltiedig â rhywioldeb neu hunaniaeth rhywedd..

www.nazandmattfoundation.org

NSPCC FGM Helpline

Mae'r NSPCC yn darparu llinell gymorth bwrrpasol i'r rhai sy'n pryderu bod plentyn mewn perygl o neu eisoes wedi mynd trwy FGM.

0800 028 3550

fgm.help@nspcc.org.uk

www.nspcc.org.uk

Palm Cove Society

Mae Palm Cove Society yn darparu llety â chymorth i ffoaduriaid digartref sengl, ceiswyr lloches amddifad cymwys neu fudwyr a phlant sy'n gadael gofal ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Gallant hefyd ddarparu ar gyfer unrhyw un o'r menywod a grybwyllir uchod sy'n ffoi rhag cam-drin domestig.

Leeds: 0113 230 2271

Bradford: 01274 733 765

www.palmcovesociety.co.uk

Rape Crisis

Mae canolfannau Rape Crisis yn darparu cwnsela arbenigol cymorth ac eiriolaeth annibynnol mewn argyfwng a hirdymor, i fenywod a merched o bob oed sydd wedi profi unrhyw fath o drais rhywiol naill ai'n ddiweddar neu yn y gorffennol.

0808 802 9999

rcewinfo@rapecrisis.org.uk

www.rapecrisis.org.uk

Respond

Mae Respond yn darparu ystod o wasanaethau i ddioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin rhywiol sydd ag anableddau dysgu a'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan drawma arall. Maent hefyd yn cynnig cymorth a hyfforddiant i deuluoedd, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.

020 7383 0700

www.respond.org.uk

Reunite

Mae Reunite yn arbenigo mewn cipio plant gan rieni yn rhyngwladol. Mae'n gweithredu llinell gyngor 24 awr sy'n rhoi cyngor a gwybodaeth i rieni, aelodau o'r teulu a gwarcheidwaid sydd wedi cael plentyn wedi'i gipio neu sy'n ofni cipio.

0116 255 6234 (llinell gyngor)

reunite@dircon.co.uk

www.reunite.org

Rights of Women

Mae Rights of Women yn hysbysu ac yn addysgu menywod ynghylch eu hawliau cyfreithiol. Mae eu llinellau cyngor yn darparu cyngor cyfrinachol am ddim i fenywod ar gyfraith teulu a thrais domestig a rhywiol a chyfraith mewnfudo a lloches.

www.rightsofwomen.org.uk/

Roshni Sheffield Resource Centre for Asian Women and Girls

Nod canolfan Roshni yw hybu lles ac addysg menywod De Asia yn Sheffield. Maent yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau gan gynnwys cymorth eiriolaeth, cymorth emosiynol a chwmsela, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu.

0114 250 8898

admin@roshnisheffield.org.uk

<https://www.roshnisheffield.co.uk/>

Samariaid

Llinell gymorth 24 awr ar gyfer unrhyw berson sydd mewn gofid emosiynol.

116 123

www.samaritans.org

Savera UK

Mae Savera UK yn darparu cymorth cyfrinachol, emosiynol ac ymarferol i oroeswyr cam-drin ar sail 'anrhydedd' ac arferion niweidiol. Maent yn mynd i'r afael â cham-drin diwylliannol benodol yn y DU, gan gynnwys priodas dan orfod ac FGM.

0800 107 0726

www.saverauk.co.uk

Sharan Project

Yn darparu cymorth a chyngor i fenywod agored i niwed, yn arbennig o darddiad De Asiaidd, sydd wedi bod neu sydd mewn perygl o gael eu diarddel oherwydd cam-drin neu erledigaeth..

0844 504 3231

info@sharan.org.uk

www.sharan.org.uk

Solace

Yn gweithio gyda menywod a phlant sydd wedi cael eu heffeithio gan drais domestig a rhywiol. Yn darparu ystod o wasanaethau gan gynnwys llety brys.

0808 802 5565

advice@solacewomensaid.org

www.solacewomensaid.org

Southall Black Sisters

Mae Southall Black Sisters yn arbenigo mewn trais domestig a thrais yn ymwneud â rhywedd yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys priodas dan orfod a cham-drin ar sail 'anrhydedd'. Maent yn darparu cyngor arbenigol, gwybodaeth, gwaith achos, eiriolaeth, cwnsela a gwasanaethau cymorth hunangymorth i fenywod mewn sawl iaith.

0208 571 9595

info@southallblacksisters.co.uk

www.southallblacksisters.org.uk

The Vavengers

Elusen sy'n gweithio i ddod â FGM i ben a phob math arall o Drais ar Sail Rhywedd. Cefnogi menywod a merched trwy ganolfannau cymorth cyfannol a lles dros dro yn Llundain. Mae cymorth yn cynnwys: cyfeiriadau at sefydliadau eraill, y llywodraeth a gwasanaethau gofal iechyd, gweithdai gwybodaeth ar hawliau cyfreithiol, gweithdai gwrth-drais, sesiynau lles. Mae hefyd yn darparu eitemau hanfodol i fenywod a merched fel cynhyrchion mislif, dillad a bwyd.

info@thevavengers.co.uk

www.thevavengers.co.uk

True Honour

Elusen arbenigol a ffurfiwyd ar ôl torri tawelwch yr hyn a elwir yn lladd er anrhydedd - gan weithio gyda'r holl weithwyr proffesiynol rheng flaen, gan gynnig hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gam-drin cudd, yn enwedig priodas dan orfod a cham-drin ar sail anrhydedd. Maent yn darparu cymorth a chyngor i fenywod agored i niwed, gan ddiwallu anghenion cymunedau De Asia.

07480 621711

www.truehonour.org.uk

Cymorth i Ddiodefswyr

Mae Cymorth i Ddiodefswyr yn cynnig gwybodaeth a chymorth i ddiodefswyr troseddau, p'un a ydynt wedi riportio'r drosedd i'r heddlu ai peidio. Mae'r holl gymorth a roddir yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol. Mae'r llinell gymorth genedlaethol ar agor 24/7.

0808 168 9111

www.victimsupport.org.uk

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn elusen annibynnol sy'n grymuso ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ailadeiladu eu bywydau yng Nghymru. Maent yn darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid ac yn cynnig gwasanaethau arbenigol mewn meysydd megis tai, iechyd a chyflogaeth.

0808 196 7273

www.wrc.wales

Cymorth i Ferched Cymru

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn darparu gwasanaeth llinell gymorth rhad ac am ddim trwy Linell Gymorth Byw Heb Ofn yng Nghymru (gweler uchod am ragor o fanylion).

0808 80 10 800

info@livefearfreehelpline.wales

<https://www.welshwomensaid.org.uk/>

CYSYLLTIADAU CYFFREDINOL

Heddlu (mewn argyfwng)	999
Heddlu (di-argyfwng)	101
Uned Priodasau dan Orfod (FMU)	020 7008 0151 (+44 (0)20 7008 0151 o dramor)
Llinell Gymorth Amddiffyn Plant yr NSPCC	0800 800 5000
www.nspcc.org.uk	
Canolfan Cyngor ar Bopeth	0344 4 111 444

www.citizensadvice.org.uk Child Line 0800 1111

www.childline.org.uk

Fisâu a Mewnfudo y DU (Swyddfa Gartref) 0300 123 2241

Y Samariaid 116 123

www.samaritans.org

Llys Gwarchod 0300 456 4600

Uchel Gomisiynau a Llysgenadaethau Prydain

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein holl Uchel Gomisiynau a Llysgenadaethau, gan gynnwys manylion cyswllt ac oriau agor, ewch i:
<https://www.gov.uk/world/embassies>.

Cysylltwch â'r Uned Priodasau dan Orfod (FMU) os oes angen rhagor o fanylion arnoch am y gwasanaethau sydd ar gael mewn gwlad benodol. Mewn rhai lleoliadau, gellir darparu gwasanaethau consylaidd o bell o wlad gyfagos. Rhif ffôn yr FMU yw 020 7008 0151 a'u cyfeiriad e-bost yw fmu@fcdo.gov.uk. Os oes angen i chi gysylltu â'r Uned y tu allan i'r oriau hyn, i ofyn am gymorth consylaidd brys ynghylch gwladolyn Prydeinig sydd ar gael dros y ffôn 24/7 o unrhyw le yn y byd, ffoniwch y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu ar 020 7008 5000.

Swyddfa'r Cabinet
25 Great Smith Street
Llundain SW1P 3BQ

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2023

© Hawlfraint y Goron 2023

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/2/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y ddogfen/cyhoeddiad hwn atom yn fmf@fcdo.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn www.official-documents.gov.uk

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd deiliad yr hawlfraint berthnasol.

Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein. E-bost fmf@fcdo.gov.uk